**Rhif: WG37941**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru

## Dogfen Ymgynghori

# Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Canllawiau statudol mewn perthynas â Rhan 7 o'r Ddeddf – diogelu plant rhag camfanteisio'n rhywiol ar blant

This document is also available in English.
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

OGL © Hawlfraint y Goron

**Diogelu Plant rhag Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant**

## Cynnwys


Cyflwyniad

Pennod 1 –
Deall camfanteisio'n rhywiol ar blant fel ffurf o gam-drin plant

Pennod 2 –
Atal camfanteisio'n rhywiol ar blant

Pennod 3 –
Ymateb i gamfanteisio'n rhywiol ar blant – gweithdrefnau diogelu

Pennod 4 –
Ymateb i gamfanteisio'n rhywiol ar blant – rhoi'r plentyn yn y canol i ddiwallu anghenion gofal a chymorth

Pennod 5 –
Ymateb i gamfanteisio'n rhywiol ar blant – tarfu ar droseddwyr a'u herlyn a rhoi cymorth i'r plant sydd wedi dioddef

**Cyflwyniad**

1. Mae'r canllawiau hyn ar gyfer partneriaid byrddau diogelu datganoledig a heb eu datganoli yng Nghymru ac fe'u cyhoeddir ar y cyd gan Weinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol.

2. Cyhoeddir y canllawiau hyn o dan adran 28 o Ddeddf Plant 2004 (y cyfeirir ati fel Deddf 2004) ac adran 139 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (y cyfeirir ati fel Deddf 2014).

3. Mae adran 28 (2) o Ddeddf 2004 yn rhoi dyletswydd ar y personau a'r cyrff hynny y mae adran 28 yn berthnasol iddynt i wneud trefniadau ar gyfer sicrhau eu bod yn ystyried yr angen i ddiogelu a hybu lles plant wrth gyflawni eu swyddogaethau. Rhestrir y personau a'r corff y mae'r ddyletswydd hon yn berthnasol iddynt yn adran 28(1).

4. I'r graddau y mae'r canllawiau'n berthnasol i awdurdodau lleol yng Nghymru, Bwrdd Iechyd Lleol, rhai Ymddiriedolaethau'r GIG a gwasanaethau cymorth ieuenctid, cyhoeddir y canllawiau gan Weinidogion Cymru a rhaid i'r personau a'r cyrff hynny ystyried y canllawiau wrth gyflawni eu dyletswydd o dan adran 28(2).

5. I'r graddau y mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i wasanaethau prawf yng Nghymru, timau troseddwyr ifanc yng Nghymru, Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a phrif swyddog yr heddlu mewn ardal heddlu yng Nghymru, Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig, yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, llywodraethwr carchardy neu ganolfan hyfforddi ddiogel yng Nghymru a phennaeth coleg diogel yng Nghymru, cyhoeddir y canllawiau hyn gan yr Ysgrifennydd Gwladol a rhaid i'r personau neu gyrff hynny ystyried y canllawiau wrth gyflawni eu dyletswydd o dan adran 28(2).

6. Mae adran 139 o Ddeddf 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i bartner bwrdd diogelu, wrth gyflawni ei swyddogaethau fel bwrdd diogelu, ystyried unrhyw ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru. Bydd y canllawiau hyn yn cynorthwyo pob partner bwrdd diogelu i gymryd yr holl gamau rhesymol i sicrhau bod y bwrdd diogelu y caiff ei gynrychioli arno yn llwyr ddarostyngedig i'r canllawiau hyn wrth fynd i'r afael â phroblemau camfanteisio'n rhywiol ar blant.

7. Mae'r canllawiau a gyhoeddwyd o dan adran 139(3) o Ddeddf 2014 yn berthnasol i'r partneriaid byrddau diogelu canlynol:

   (a) awdurdodau lleol;

   (b) prif swyddog yr heddlu ar gyfer ardal heddlu, y mae unrhyw ran ohoni mewn ardal bwrdd diogelu;

   (c) Byrddau Iechyd Lleol;

   (d) Ymddiriedolaethau'r GIG;

(e) yr Ysgrifennydd Gwladol i'r graddau y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cyflawni swyddogaethau o dan adrannau 2 a 3 o Ddeddf Rheoli Troseddwyr 2007 mewn perthynas â Chymru;

(f) unrhyw ddarparwr gwasanaethau prawf y mae trefniadau o dan adran 3(2) o Ddeddf Rheoli Troseddwyr 2007 yn ei gwneud yn ofynnol iddo weithredu fel partner bwrdd diogelu mewn perthynas ag ardal bwrdd diogelu.

8. **Rhaid** i bartneriaid byrddau diogelu ac unigolion neu sefydliadau perthnasol eraill ystyried y canllawiau statudol hyn oni fydd amgylchiadau lleol yn nodi rhesymau eithriadol sy'n cyfiawnhau amrywiad.

9. Dylid darllen y canllawiau ar y cyd â Phennod 1 Cyfrol 1 *Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl* a gyhoeddwyd o dan adran 131 o Ddeddf 2014, sy'n darparu canllawiau ar y ddyletswydd i adrodd plant sydd mewn perygl. Dylid eu darllen hefyd ar y cyd â Chyfrol 5, sy'n darparu cyngor ar yr hyn a ddylai ddigwydd os bydd gan unigolyn bryderon ynglŷn â llesiant plentyn (gan gynnwys y rheini sy'n byw oddi cartref) ac, yn enwedig, sail resymol i amau bod plentyn yn wynebu cam-drin, esgeulustod neu fathau eraill o niwed, neu ei fod mewn perygl ohonynt, a bod angen gofal a chymorth arno.

10. Er mwyn cyflawni canlyniadau llesiant da i blant, mae'n rhaid i bawb sydd â chyfrifoldeb dros asesu a darparu gwasanaethau gydweithio yn unol â chynllun gweithredu cytunedig. Er mwyn cydweithio'n effeithiol, mae'n rhaid i sefydliadau a phobl fod yn glir ynghylch y canlynol:

- sail ddeddfwriaethol y gwaith;
- eu rolau a'u cyfrifoldebau ar gyfer diogelu a hybu llesiant plant (adran 28 o Ddeddf Plant 2004);
- y protocolau a'r gweithdrefnau i'w dilyn, gan gynnwys y ffordd y rhennir gwybodaeth ar draws ffiniau'r ymarferwyr ac o fewn asiantaethau, a'r ffordd y'i cofnodir;
- pa sefydliad, tîm neu ymarferydd sydd â'r prif gyfrifoldeb, yn ogystal ag union rolau pawb arall sydd ynghlwm;
- pwysigrwydd sicrhau bod plant, oedolion, aelodau o'r teulu a gofalwyr yn cyfranogi'n llawn, ac y caiff hawliau'r plentyn eu gwarchod;
- unrhyw amserlenni a nodir mewn rheoliadau neu ganllawiau sy'n llywodraethu'r gwaith o gwblhau asesiadau, gwneud cynlluniau ac amserlennu adolygiadau;
- yr angen i sicrhau, yn unol ag adran 6 o Ddeddf 2014, fod yn rhaid i berson sy'n cyflawni swyddogaethau o dan Ddeddf 2014 mewn perthynas â pherson y mae angen, neu y gellid bod angen, gofal a chymorth arno ystyried dymuniadau a theimladau'r unigolyn, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, a bod yn rhaid iddo ystyried pwysigrwydd hybu a pharchu urddas yr unigolyn;

- yr angen i berson sy'n cyflawni swyddogaethau o dan y Ddeddf mewn perthynas â phlentyn a ddaw o dan adran 7 o Ddeddf 2014 ystyried Rhan 1 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn unol â Rhan 2 o Ddeddf 2014; a
- phwysigrwydd rôl sefydliadau'r trydydd sector mewn tynnu sylw at blant sy'n wynebu niwed neu sydd mewn perygl o niwed ac mewn amddiffyn plant sy'n wynebu risg.

11. Mae'r canllawiau hyn hefyd yn cynnwys canllawiau anstatudol a fwriedir i ddarparu gwybodaeth i gynorthwyo byrddau diogelu. Er nad oes ganddynt rym canllawiau statudol, maent yn cynnwys arfer da.

12. Ffurf o gam-drin plant yn rhywiol yw camfanteisio'n rhywiol ar blant sy'n cynnwys elfen o gyfnewid rhwng y plentyn sy'n cael ei gam-drin (hyd at 18 oed) a'r unigolyn sy'n cam-drin neu sy'n hwyluso'r gweithgaredd.

13. Cydnabuwyd camfanteisio'n rhywiol ar blant fel ffurf o gam-drin plant am gyfnod gweddol fyr a bu iddi barhau yn ffurf arbennig o gudd o gam-drin tan ganol y 1990au, pan agorwyd rhai o'r gwasanaethau cyntaf i blant yr effeithiwyd arnynt. Darparodd yr arfer cynnar hwn dystiolaeth o natur camfanteisio'n rhywiol ar blant fel ffurf o gam-drin ac, wrth i'r arfer ddatblygu, datblygwyd gwaith ymchwil ac ymgyrchu dan arweiniad y trydydd sector, a geisiodd eirioli dros ymatebion priodol i blant a oedd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol yn y modd hwn.

14. Creodd y modd difrïol y cynrychiolid profiadau plant o'r ffurf hon o gam-drin yn aml – yn y cyfryngau, mewn polisïau, trwy'r system cyfiawnder troseddol a thrwy arferion – sefyllfa lle y câi camfanteisio'n rhywiol ar blant ei ddeall, ei reoli a'i blismona'n wael yn waeth.

15. Cyhoeddwyd y polisi cyntaf mewn perthynas â cham-drin plant trwy gamfanteisio'n rhywiol ar blant yn 2000 ar gyfer Cymru a Lloegr, o'r enw '*Diogelu Plant sy'n Ymwneud â Phuteindra*',[1] ac roedd yn 2008 cyn i'r term camfanteisio'n rhywiol ar blant gael ei gynnwys yn y *Protocol Cymru Gyfan*[2] a gyhoeddwyd o dan Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan. Yn dilyn hyn, cyflwynwyd canllawiau statudol gan Lywodraeth Cymru yn 2001[3] a nododd '*na ddylid ystyried bod ymddygiad plant a phobl ifanc y camfanteisir yn rhywiol arnynt yn ymddygiad gwael neu droseddol*'.

16. Ers hynny, mae tystiolaeth o arfer, gwaith ymchwil a nifer o achosion uchel eu proffil yn y cyfryngau wedi helpu i ail-lywio barn a chanfyddiadau cyffredin ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant.

17. Fodd bynnag, canfu'r adolygiad a gomisiynodd Llywodraeth Cymru gan CASCADE o bolisïau cyfredol ac a gyhoeddwyd yn 2017[4] fod tystiolaeth yn awgrymu bod camsyniadau a chamddealltwriaeth gyffredin ynghylch camfanteisio'n rhywiol ar blant yn parhau er bod gweithwyr proffesiynol a'r cyhoedd yn fwy ymwybodol o gamfanteisio'n rhywiol ar blant.

18. Mae'r canllawiau hyn yn disodli’r fersiwn flaenorol o'r canllawiau statudol, *Amddiffyn Plant a Phobl Ifanc rhag Camfanteisio Rhywiol: Canllawiau ar Ddiogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004* (2011).

19. Mae'r canllawiau hyn yn nodi disgwyliadau ynghylch y ffyrdd y dylai asiantaethau ac ymarferwyr gydweithio i ddiogelu plant rhag y perygl o gamfanteisio'n rhywiol ar blant. Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru a Chanllawiau Ymarfer Cymru Gyfan yn ategu'r canllawiau hyn.

**Deddfwriaeth berthnasol**

**Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015**

20. Ar 29 Ebrill 2015, cafodd y Bil Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) Gydsyniad Brenhinol a daeth yn Ddeddf. Nod y ddeddfwriaeth yw gwella ymateb y sector cyhoeddus yng Nghymru i'r cyfryw gamdriniaeth a thrais a chraffwyd arni'n drylwyr trwy'r broses ddeddfwriaethol.

21. Nod y Ddeddf yw:
    - gwella trefniadau i hyrwyddo ymwybyddiaeth o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac i atal, gwarchod a chynorthwyo'r rheini sydd wedi eu dioddef;
    - cyflwyno ymagwedd seiliedig ar angen i ddatblygu strategaethau a fydd yn sicrhau cyfeiriad strategol cryf a mwy o atebolrwydd;
    - sicrhau perchenogaeth ar lefel strategol, trwy benodi Ymgynghorydd Gweinidogol, a fydd â rôl mewn cynghori Gweinidogion Cymru a gwella'r cydweithio ymysg asiantaethau ar draws y sector hwn; a
    - gwella cysondeb y gwasanaethau sy’n cael eu darparu, eu hansawdd, a’r ffordd y maent yn cael eu cydgysylltu yng Nghymru.

**Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015**

22. Cyfunodd Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 droseddau caethwasiaeth a masnachu presennol[5] i greu dwy drosedd:

    - Masnachu pobl, a ddiffinnir fel trefnu neu hwyluso teithio rhywun arall gyda’r bwriad o gamfanteisio arno (“arranging or facilitating the travel of another person with a view to exploitation”). Mae teithio yn cynnwys o fewn gwlad, nid dim ond ar draws ffiniau rhyngwladol.

    - Caethwasiaeth, caethiwed a gwaith dan orfod – mae'r Ddeddf yn nodi bod gan y drosedd hon yr un ystyr ag at ddibenion Erthygl 4 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

23. Mae gan staff rheng flaen penodol sy'n dod ar draws dioddefwr posib caethwasiaeth fodern neu fasnachu pobl ddyletswydd i hsybysu'r Swyddfa Gartref o dan adran 52 o Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015. Mae'r gofyniad hwn yn berthnasol i'r heddlu, awdurdodau lleol, yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, a'r Awdurdod Meistri Gangiau a Chamddefnyddio Llafur.

Pennod 1

## Deall camfanteisio'n rhywiol ar blant fel ffurf o gam-drin plant

Trwy gydol y canllawiau hyn, mae'r term ‘plentyn’ yn cyfeirio at blant a phobl ifanc hyd at 18 oed.


**Crynodeb:**

- Ffurf o gamdriniaeth rywiol yw camfanteisio'n rhywiol ar blant sy'n cynnwys elfen o gyfnewid.
- Mae modd camfanteisio'n rhywiol ar unrhyw blentyn waeth beth fo ei rywedd, ei ethnigrwydd neu ei rywioldeb.
- Mae modd camfanteisio'n rhywiol ar blentyn mewn sawl ffordd wahanol ac mae dealltwriaeth o gysyniadau allweddol megis magu perthynas amhriodol, rheoli a gorfodi, ac amodau cydsyniad yn bwysig, fel y mae'r gydnabyddiaeth y gallai camfanteisio'n rhywiol ar blant ddigwydd yn absenoldeb magu perthynas amhriodol neu reoli neu orfodi amlwg. Mae'r ffordd y mae plant yn canfod ac yn wynebu camfanteisio rhywiol yn amrywiol a gallai fod yn rhan o ddarlun cymhleth o broblemau diogelu rhyngberthynol. Yn aml, mae camfanteisio ar-lein ac all-lein yn gorymylu ar ei gilydd.
- Daw cyflawnwyr camfanteisio'n rhywiol ar blant o amrywiaeth eang o gefndiroedd ethnig a dynion ydynt gan amlaf, er bod menywod yn troseddu hefyd. Maent yn gweithredu fel unigolion, mewn grwpiau ac mewn gangiau ac mae'n bosibl fod y troseddwyr yn aelodau o'r teulu.
- Mae angen deall camdriniaeth ymysg cyfoedion yn y cyd-destun y mae'n digwydd ac mae angen cymorth ar blant sy'n cam-drin. Mae Canllawiau Arfer Cymru Gyfan ar blant pan fydd pryderon ynglŷn ag ymddygiad rhywiol niweidiol ar gael i'w defnyddio ar y cyd â Gweithdrefnau Diogelu Cymru.
- Prin iawn y bydd plant yn datgelu eu bod yn destun camfanteisio'n rhywiol ar blant ac mae nodi achosion o hyn yn dibynnu’n arbennig ar wybodaeth a dealltwriaeth ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol. Dylai pawb sy'n gweithio gyda phlant fod yn wyliadwrus am yr arwyddion fod rhywun yn camfanteisio'n rhywiol ar blentyn a deall eu cyfrifoldebau diogelu tuag at blant sy'n wynebu risg.

**Camfanteisio'n rhywiol ar blant** –

| | |
|---|---|
| **Mae hwn yn ffurf ar gam-drin rhywiol** | sy'n gallu cynnwys rhyw neu unrhyw fath o weithgaredd rhywiol â phlentyn, creu delweddau anweddus, a/neu unrhyw ddeunyddiau anweddus eraill sy'n ymwneud â phlant |
| **Mae'n cynnwys plentyn** | Mae'n digwydd i'r rhai hyd at 18 oed |
| **Mae'n cynnwys rhyw fath o gyfnewid** | Gall y cyfnewid gynnwys rhoi neu dynnu rhywbeth yn ôl, megis atal trais neu fygythiadau i gam-drin unigolyn arall.<br><br>Efallai y bydd hwylusydd sy'n derbyn rhywbeth yn ogystal â'r plentyn sy'n cael ei gamfanteisio neu yn ei le.<br><br>Efallai na fydd plant yn cydnabod natur gamfanteisiol y berthynas neu'r cyfnewid. Efallai y bydd plant yn teimlo fel eu bod wedi rhoi eu caniatâd. |

24. Mae **cyfnewid** yn rhan hanfodol o gamdriniaeth trwy gamfanteisio'n rhywiol ar blant. Cyfnewid yw'r hyn sy'n gwahaniaethu camfanteisio'n rhywiol ar blant rhag ffurfiau eraill o gam-drin plant yn rhywiol. Gall yr hyn sy'n cael ei gyfnewid fod yn ddiriaethol (arian, nwyddau, llety, profiadau) neu/a gallai gynnwys diwallu angen emosiynol neu angen sy'n ymwneud â hunan-barch, neu'r angen i fod yn rhydd rhag trais corfforol neu fygythiadau ar rywun sy'n bwysig i'r plentyn. Mae'n bosibl y bydd unigolyn sy'n hwyluso a/neu'n trefnu'r gweithgaredd camfanteisio ar blentyn ac yn derbyn rhywbeth yn ogystal â'r plentyn neu yn hytrach nag ef. Gallai'r unigolyn hwn fod yn cam-drin y plentyn yn rhywiol neu beidio.

25. Mae **magu perthynas amhriodol** yn cynnwys sefyllfa pan fydd unigolyn yn cyfathrebu â phlentyn ac yn ceisio ffurfio perthynas ag ef gyda'r bwriad o'i roi mewn sefyllfa lle y bydd yn destun camdriniaeth. Gall hyn ddigwydd ar-lein neu all-lein a bydd yn aml yn cynnwys y cyflawnwr yn darparu perthynas i'r plentyn lle mae'n teimlo'n bwysig neu ei fod yn cael ei ddeall. Gall magu perthynas amhriodol gynnwys darparu nwyddau neu brofiadau. Bydd cyflawnwyr yn gweithio i ddatblygu sefyllfa lle bydd y plentyn yn ymddiried ynddo a/neu'n teimlo bod modd i'r cyflawnwr roi rhywbeth iddo nad oes modd cael gafael arno o rywle arall. Gallai hyn fod ar ffurf cyfeillgarwch, perthynas lle bydd y plentyn yn credu ei fod mewn perthynas ramantaidd, ymdeimlad o berthyn, neu ymdeimlad o bwysigrwydd lle rhoddir statws neu nwyddau iddo sy'n ei wneud yn uchel

ei barch ymysg ei gyfoedion. Yn aml, defnyddir y dulliau hyn er mwyn rhoi'r plentyn mewn sefyllfa lle bydd modd i droseddwr neu hwylusydd camfanteisio'n rhywiol gam-drin y plentyn. Fodd bynnag, **nid yw'r broses o fagu perthynas amhriodol yn amlwg ym mhob achos o gamfanteisio'n rhywiol ar blant**. Gall plant ddod i gysylltiad â throseddwyr mewn sawl ffordd wahanol a gall y cyfnod rhwng y cysylltiad cyntaf a'r gamdriniaeth fod yn fyr iawn.

26. **Defnyddir gorfodaeth a rheolaeth yn aml gan droseddwyr a hwyluswyr camfanteisio'n rhywiol ar blant** fel offeryn i sicrhau bod plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol. Gall hyn gynnwys rheolaeth drwy ddarparu rhywbeth y mae'r plentyn am ei gael neu sydd ei angen arno megis arian, alcohol neu gyffuriau, perthynas/hoffter, addo i gadw'r plentyn yn ddiogel rhag eraill, neu lety. Neu gall rheolaeth gael ei sicrhau drwy'r bygythiad y caiff y pethau hyn eu tynnu'n ôl os nad yw'r plentyn yn cymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol gyda'r prif droseddwyr neu gamdrinwyr eraill y mae'r troseddwr yn ei gyfeirio atynt i gyflawni gweithgareddau rhywiol. Gall gorfodaeth fod ar ffurf bygythiadau o drais corfforol neu drais corfforol gwirioneddol, cam-drin emosiynol, neu fygythiadau i niweidio rhywun y mae'r plentyn yn ei hoffi. Fodd bynnag, **gall camfanteisio'n rhywiol ar blant hefyd ddigwydd yn absenoldeb unrhyw arwyddion amlwg o orfodaeth neu reolaeth**.

27. **Bydd y ffordd y bydd plant yn deall camfanteisio'n amrywio o blentyn o blentyn.** Gall plant sydd wedi cael profiad o gamfanteisio'n rhywiol ar blant fethu â chydnabod eu profiadau fel camfanteisio. Fodd bynnag, mae llawer o blant yn deall eu bod yn dioddef camfanteisio ond gallant ddal i gael anhawster datgelu neu geisio cymorth oherwydd stigma neu am fod y peth maent yn ei dderbyn yn gyfnewid am y cam-drin yn bwysig iddynt. Gall rhai plant ddeall eu bod yn dioddef camfanteisio ond parhau i feddwl mai'r camfanteisio yw'r opsiwn gorau sydd ar gael iddynt yng nghyd-destun dewisiadau cyfyngedig. Gall rhai plant deimlo fel bod ganddynt ychydig iawn o reolaeth dros y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud amdanynt mewn rhannau eraill o'u bywydau a bod y cyfnewid sydd rhan o'r ffurf hon ar gam-drin yn rhoi ymdeimlad o reolaeth iddynt dros yr hyn sy'n digwydd iddynt. Mae'n bosibl y bydd rhai plant yn derbyn camdriniaeth fel rhan arferol o fywyd neu'n teimlo eu bod yn ei haeddu oherwydd eu profiadau blaenorol o gamdriniaeth neu eu teimladau o fod yn ddiwerth.

28. **Cydsyniad:** Yr oedran cydsyniad (yr oed cyfreithiol i gael rhyw) yn y DU yw 16 mlwydd oed. Mae'r deddfau yn bodoli i amddiffyn plant. Nid ydynt yn bodoli i erlyn pobl ifanc o dan 16 mlwydd oed sy'n cyflawni gweithgaredd rhywiol lle mae'r ddwy ochr yn cydsynio, ond cânt eu defnyddio os yw camdriniaeth neu gamfanteisio yn gysylltiedig. Er mwyn helpu i amddiffyn plant iau, mae'r gyfraith yn datgan nad oes byth modd i unrhyw un o dan 13 mlwydd oed roi cydsyniad cyfreithiol. Golyga hyn y bydd unrhyw un sy'n cymryd rhan mewn gweithgarwch rhywiol gyda phlentyn 12 mlwydd oed neu'n iau yn destun cosbau a amlinellir o dan Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003. Mae'r gyfraith hefyd yn rhoi gwarchodaeth ychwanegol i bobl ifanc sydd rhwng 16 ac 17 mlwydd oed. Mae'r canlynol yn anghyfreithlon:

- tynnu, dangos neu ddosbarthu lluniau anweddus
- talu am wasanaethau rhywiol neu eu trefnu
- achosi, annog neu gymryd rhan mewn gweithgarwch rhywiol gydag unrhyw un o dan 18 mlwydd oed os ydych mewn safle o ymddiriedaeth (er enghraifft, athrawon a gweithwyr gofal).

29. **Amodau cydsyniad:** Rhan o'r rheswm pam na chafodd camfanteisio'n rhywiol ar blant ei ystyried fel ffurf o gam-drin yn y gorffennol oedd yr ymddangosai fod plant yn cydsynio i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol er mwyn derbyn rhywbeth neu er mwyn i rywun arall dderbyn rhywbeth. **Rhaid inni fod yn glir nad oes modd i blant gydsynio i rywun eu cam-drin.** Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod y gallai plant ystyried eu bod yn cydsynio neu gallai ymddangos fel pe baent yn cydsynio. Gall y cysyniad o 'amodau cydsyniad' ein helpu i ddeall hyn. Awgryma ymchwil a wnaed gan Hallett (2017)[6] fod yr hyn sydd wrth graidd dealltwriaeth o gamfanteisio'n rhywiol ar blant yw'r angen i gydnabod mai tanategu'r weithred o gyfnewid rhyw yw diwallu anghenion sydd heb eu diwallu (a chamfanteisio arnynt). Mae ffactorau megis agweddau at ryw, profiadau blaenorol, perthnasau (neu ddiffyg perthnasau), ac anghenion emosiynol ac economaidd oll yn dylanwadu ar y cyd-destun y dylem ystyried cyfranogiad plentyn mewn gweithgareddau camfanteisio'n rhywiol oddi fewn.

30. **Gall camfanteisio ar-lein ac all-lein orymylu ar ei gilydd:[7]** Nid yw plant yn gwahaniaethu rhwng y byd ar-lein ac all-lein yn yr un ffordd y mae oedolion yn gwneud hynny ar hyn o bryd ac mae technoleg yn dod yn rhan fwyfwy allweddol o fywydau cymdeithasol a phrofiadau dysgu plant. Gall camfanteisio'n rhywiol ar blant ar-lein ddigwydd trwy rwydweithio cymdeithasol, ystafelloedd sgwrsio, negeseua gwib, safleoedd i ganfod cariad, a llawer mwy o blatfformau. Yn aml, bydd gweithgareddau camfanteisio'n digwydd heb i'r plentyn sylweddoli. Gall camfanteisio a cham-drin fod ar rai o'r ffurfiau canlynol:

- annog plentyn i gymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol neu ei berfformio
- annog plentyn (hyd at 18 oed) i dynnu a rhannu delweddau anweddus ohono neu ofyn iddo wneud hynny
- annog plentyn i ffilmio ei hun yn perfformio gweithgaredd rhywiol neu ofyn iddo wneud hynny
- magu perthynas amhriodol
- bwlio
- aflonyddu
- pryfocio (ffurf o seiberfwlio pan fydd dioddefwr yn cael ei gyhuddo o anfoesoldeb rhywiol)

Nid yw camfanteisio ar-lein yn arwain at gam-drin cysylltiol bob tro (mae'n bosibl na fydd y plentyn byth yn cwrdd â'r unigolyn sy'n ei gam-drin) ond mae'n achosi cryn niwed i'r plentyn. Hefyd, gall technoleg hwyluso gweithgareddau camfanteisio'n rhywiol ar blant all-lein. Mae troseddwyr hefyd yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i ganfod pobl ifanc i gamfanteisio'n rhywiol arnynt. Gallant ddefnyddio bygythiadau i rannu cynnwys neu ddelweddau o'r plentyn y maent wedi'u caffael ar-lein fel modd o arfer grym dros blentyn a gallant ddefnyddio technoleg i gyfathrebu â'r plentyn er mwyn hwyluso camdriniaeth all-lein trwy gamfanteisio'n rhywiol ar blant. Gall troseddwyr hefyd orfodi plant i rannu delweddau â nhw ac yna defnyddio bygythiadau sy'n ymwneud â rhannu'r delweddau hyn er mwyn rheoli'r plentyn a'i gam-drin ymhellach. Yn debyg i bob ffurf o gamfanteisio, mae'n bosibl na fydd y plentyn yn cydnabod natur orfodol y cysylltiad â'r troseddwr.

31. **Gall camfanteisio'n rhywiol ar blant a phryderon diogelu eraill orymylu ar ei gilydd:**Mae mathau gwahanol o gam-drin a chamfanteisio'n rhyngberthyn a dyma un o'r rhesymau pam mae'n rhaid i'n hymateb i blant ganolbwyntio ar y plentyn yn lle

categori’r gamdriniaeth neu gamfanteisio. Mae'n bosibl y bydd plant sy'n cael eu cam-drin trwy gamfanteisio rhywiol hefyd yn wynebu camdriniaeth rywiol nad yw'n cynnwys cyfnewid. Rydym yn gwybod bod camfanteisio'n rhywiol ar blant wedi'i gysylltu'n gryf â materion diogelu eraill megis plant yn mynd ar goll a masnachu plant. Gall mynd ar goll o'r cartref neu o wasanaethau gofal roi plant mewn perygl o gael eu camfanteisio'n rhywiol neu gall ddangos bod camfanteisio’n rhywiol ar blant eisoes yn digwydd. Mae masnachu plant yn cynnwys symud plentyn o un lle i'r llall er mwyn camfanteisio arno. Gall plant hefyd wynebu camfanteisio’n rhywiol ar blant fel rhan o gamfanteisio’n droseddol ar blant neu gallant gael eu targedu ar gyfer camfanteisio troseddol gan eu bod eisoes yn dioddef camfanteisio rhywiol ac i'r gwrthwyneb.[8] Mae tystiolaeth sy’n dod i'r amlwg o waith ymchwil fod rhai plant sy'n dangos ymddygiad rhywiol niweidiol yn datgelu'n ddiweddarach eu bod wedi bod yn destun camfanteisio’n rhywiol ar blant.[9] Felly, gall camfanteisio’n rhywiol ar blant fod yn un rhan o brofiad unigol a chymhleth o gam-drin a chamfanteisio rhyngberthynol ar gyfer pob plentyn.

### Pa blant a allai fod yn wynebu risg o gamfanteisio'n rhywiol?

32. Wrth ystyried cam-drin plant, mae rhagdybio, cyffredinoli neu ddibynnu ar stereoteipiau bob amser yn beryglus. Er bod rhai materion a phatrymau sy'n gyffredin mewn achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant, gellir camfanteisio'n rhywiol ar unrhyw blentyn, ac mae'r ffyrdd y rhoddir plant mewn sefyllfa lle y gall camdriniaeth ddigwydd yn amrywiol ac mae llawer o wahanol ffyrdd y mae troseddwyr yn gweithredu. **Nid oes un math yn unig o ddioddefwr, troseddwr na phatrwm o gam-drin y gellir dibynnu arno.**

33. **Yn debyg i bob math o gam-drin plant, gall unrhyw blentyn fod yn destun camfanteisio rhywiol.** Fodd bynnag, gall rhai amgylchiadau a phrofiadau wneud i rai plant deimlo'n arbennig o fregus. Nid yw hyn yn golygu y bydd pob plentyn sydd â bregusrwydd penodol yn cael ei gam-drin trwy gamfanteisio'n rhywiol ar blant ac nid yw'n golygu na fydd plant heb fregusrwydd penodol yn cael eu cam-drin trwy gamfanteisio'n rhywiol ar blant.

34. **Plant â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod:** Gwyddom y gall rhai plant fod yn arbennig o fregus oherwydd profiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Mae profiadau niweidiol yn ystod plentyndod[10] yn amrywio o ddioddef camdriniaeth lafar, feddyliol, rywiol a chorfforol, i blentyn yn cael ei fagu mewn cartref lle mae trais domestig, camddefnyddio alcohol, rhieni yn gwahanu neu gamddefnyddio cyffuriau'n bresennol. Fodd bynnag, mae modd camfanteisio'n rhywiol ar blant sydd heb gael profiadau niweidiol yn ystod plentyndod.

35. Yn ôl tystiolaeth, mae plant sy'n cael plentyndod ingol a phlentyndod o ansawdd gwael yn fwy tebygol o gael llesiant gwael yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys plant sydd â phrofiadau ansefydlog yn y cartref neu o ofal, plant sydd wedi cael profiad o drawma a cham-drin, plant isel eu hunan-barch, a phlant sy'n cael problemau o ran addysg, iechyd meddwl, camddefnyddio alcohol/cyffuriau neu ymddygiad troseddu. Plant yw'r rhain y mae eu hamgylchiadau a'u profiadau yn golygu eu bod yn fwy tebygol o fod ag anghenion heb eu diwallu a diffyg hunan-barch, ac mae hyn felly yn golygu eu bod yn

agored i gamfanteisio, a allai ymddangos ei fod yn cynnig ffordd o ddiwallu'r anghenion hynny.

36. **Plant sydd â phrofiad o ofal a phlant sy'n byw gyda'u teuluoedd:** Bydd plant sydd â phrofiad o ofal wedi bod yn destun ymyriad gan y gwasanaethau cymdeithasol yn sgil camdriniaeth, esgeulustod a phrofiadau niweidiol eraill yn ystod plentyndod. Gallai hyn helpu i esbonio pam mae plant sydd â phrofiad o ofal yn cyfrannu'n anghyfartal at nifer y dioddefwyr camfanteisio'n rhywiol ar blant a pham y gallant fod yn arbennig o fregus. [11] Fodd bynnag, ar y cyfan, mae mwyafrif y plant sydd wedi bod yn destun camfanteisio'n rhywiol ar blant yn byw gartref.[12] Mae hyn yn golygu bod gwaith teulu yn elfen hanfodol o ddiwallu anghenion gofal a chymorth plant sydd wedi bod yn destun camfanteisio rhywiol.

37. **Merched a bechgyn:** Mae tystiolaeth o waith ymchwil ac ymarfer yn awgrymu bod mwy o ferched yn cael eu cam-drin trwy gamfanteisio'n rhywiol ar blant na bechgyn; fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu nad oes neb yn camfanteisio'n rhywiol ar fechgyn. Mae sylwadau diweddar y cyfryngau ar achosion uchel eu proffil o gamfanteisio'n rhywiol ar blant wedi atgyfnerthu'r camsyniad mai dim ond merched sy'n destun camfanteisio rhywiol. Gall bechgyn fod yn destun camfanteisio rhywiol ac mae hynny'n digwydd. Nododd adolygiad o achosion a gyhoeddwyd gan Barnardo's yn 2014[13] fod traean o ddefnyddwyr gwasanaethau camfanteisio'n rhywiol ar blant ledled y DU yn fechgyn. Mae ymchwil a wnaed yng Nghymru gan Barnardo's Cymru yn 2016[14] wedi nodi rhai o'r rhesymau pam ei bod yn bosibl fod llai o fechgyn yn cael eu nodi fel dioddefwyr camfanteisio'n rhywiol ar blant. Mae'r ymchwil yn awgrymu bod y ddealltwriaeth neu'r dehongliad o gamdriniaeth yn erbyn bechgyn yn wael, bod eu cyfranogiad mewn camfanteisio'n rhywiol ar blant yn arbennig o gymhleth, a bod stereoteipiau o bosib yn effeithio ar weithwyr proffesiynol, gan effeithio ar eu gallu i ystyried bechgyn yn agored i gamfanteisio'n rhywiol ar blant.

38. **Plant anabl:** Canfu ymchwil gan Franklin ac eraill (2015)[15] fod pobl ifanc sydd ag anableddau dysgu yn agored i gamfanteisio'n rhywiol ar blant yn sgil ffactorau sy'n cynnwys gorwarchodaeth, ynysu cymdeithasol a chymdeithas yn gwrthod eu cydnabod fel bodau rhywiol. Mae'r ymchwil yn awgrymu bod diffyg ymwybyddiaeth o gamfanteisio'n rhywiol ar bobl ifanc sydd ag anableddau dysgu ymysg gweithwyr proffesiynol hefyd yn cyfrannu at eu bregusrwydd. Mae tystiolaeth o'r ymarfer yn awgrymu bod plant nad ydynt yn cyrraedd trothwy ar gyfer diagnosis ffurfiol o anabledd dysgu neu nad ydynt erioed wedi cael eu hasesu yn cael eu gorgynrychioli ymysg plant sy'n destun camfanteisio'n rhywiol ar blant. Mae plant sydd ag anabledd deirgwaith yn fwy tebygol o gael eu cam-drin mewn rhyw ffordd na phlant heb anabledd. O fewn y grŵp hwn, mae plant sydd ag anhwylderau ymddygiad yn arbennig o fregus.[16]

39. **Plant gwynion a phlant duon ac Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig:** Daw dioddefwyr camfanteisio rhywiol o bob cefndir ethnig. Dengys ymchwil a gyhoeddwyd gan Barnardo's (2016)[17] fod dau draean o ddefnyddwyr gwasanaethau camfanteisio'n rhywiol ar blant yn wyn ac un traean yn blant duon ac Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig. Mae'r ymchwil hefyd yn awgrymu y gallai safbwyntiau ac arferion diwylliannol a chrefyddol, yn enwedig y rheini sy'n gweld gwerth ar forwyndod menyw neu heterorywioldeb dyn, atal dioddefwyr rhag datgelu gan eu bod yn ofni cael eu cosbi

neu eu gwrthod gan eu teuluoedd. Canfu ymchwil gan the Muslim Women's Network UK (2013)[18] nad oedd plant Asiaidd yn cael eu nodi na'u gwarchod rhag camfanteisio'n rhywiol ar blant.

40. **Plant syth ac LHDT+:** Waeth beth fo hunaniaeth plentyn o ran ei rywioldeb neu rywedd, mae'n bosibl ei fod yn destun camfanteisio’n rhywiol ar blant. O ran plant sy'n LHDT+, mae ymchwil yn awgrymu y gall diffyg gwybodaeth a chymorth priodol a theimladau o unigedd olygu bod bechgyn yn chwilio am gymunedau oedolion hoyw ar-lein ac all-lein a gallai hyn beri risg iddynt. Mae'r un ymchwil yn awgrymu y gallai plant LHDT+ wynebu rhwystrau ychwanegol rhag ceisio cymorth os ydynt yn destun camfanteisio ac nad yw gweithwyr proffesiynol yn rhoi ystyriaeth ddigonol i'r posibilrwydd o gamdriniaeth trwy gamfanteisio’n rhywiol ar blant ar gyfer plant LHDT+, yn enwedig o fewn perthnasau lesbïaidd a thraws.[19]

### Beth a wyddom am droseddwyr camfanteisio'n rhywiol ar blant?

41. Mae'r achosion amlycaf o gamfanteisio'n rhywiol ar blant a ddatgelwyd mewn lleoedd fel Rochdale a Rotherham wedi creu sefyllfa lle mae llawer o bobl yn cysylltu troseddau camfanteisio'n rhywiol ar blant â gangiau neu grwpiau mawr a drefnir. Fodd bynnag, mae troseddwyr camfanteisio'n rhywiol ar blant yn gweithredu mewn llawer o wahanol ffyrdd. Mae ymchwil yn awgrymu mai'r ddau brif gymhelliant i gamfanteisio'n rhywiol ar blant yw rhyw ac arian.[20]

42. **Unigolion, grwpiau a gangiau:**Mae achosion o Gymru yn cynnwys un troseddwr sydd wedi camfanteisio ar blant am ei foddhad rhywiol ei hun ac am elw ariannol. Hefyd, mae'r heddlu wedi cynnal gweithrediadau sy'n ymwneud ag arestio troseddwyr cysylltiedig sy'n gweithredu mewn grwpiau. Mae tystiolaeth yn dod i'r amlwg o gamfanteisio’n rhywiol ar blant sy'n ymwneud â gangiau yng Nghymru mewn rhai ardaloedd o Gymru. Hefyd, mae tystiolaeth o arfer o blant yng Nghymru sy'n hanu o Loegr y mae gangiau wedi camfanteisio arnynt ac mae tystiolaeth sy’n dod i’r amlwg o blant o Gymru yn dod i gysylltiad ag unigolion sydd wedi'u cysylltu â gangiau yn Lloegr.

- **Grwpiau** – pobl sy'n dod at ei gilydd yn bersonol neu ar-lein at ddibenion trefnu, cydlynu a/neu gymryd rhan mewn gweithgareddau camfanteisio'n rhywiol ar blant naill ai mewn ffordd a drefnir neu mewn ffordd fanteisgar.
- **Gangiau** – dynion a bechgyn yn bennaf sy'n cymryd rhan mewn llawer o ffurfiau o weithgareddau troseddol (e.e. troseddau cyllyll neu ladrata) a all gyflawni trais yn erbyn gangiau eraill ac sydd â marciau y gellir eu hadnabod trwyddynt – er enghraifft, tiriogaeth, enw neu weithiau dillad.[21]

43. **Camfanteisio ymysg cyfoedion:** Gall pobl ifanc sydd â bregusrwydd presennol, neu hebddo, ddioddef camdriniaeth ymysg cyfoedion. Wrth i bobl ifanc dyfu a threulio mwy a mwy o amser gyda'u ffrindiau, yn yr ysgol ac yn eu cymdogaeth leol, bydd yr hyn sy'n digwydd yn yr amgylcheddau hyn yn cael ei adlewyrchu yn natur y gamdriniaeth y maent yn ei hwynebu.[22] Mae angen inni ddeall cyd-destun camfanteisio ymysg cyfoedion. Mae ymchwil wedi cyfrannu at y cysyniad o ddiogelu cyd-destunol, sy'n

cydnabod y gall y perthnasau gwahanol y mae pobl ifanc yn eu ffurfio yn eu cymdogaethau, eu hysgolion a mannau ar-lein gynnwys trais a cham-drin. Ychydig iawn o ddylanwad sydd gan rieni a gofalwyr dros y cyd-destunau hyn, a gall profiadau pobl ifanc o gam-drin y tu allan i'r teulu danseilio perthnasau rhwng rhieni a phlant.[23] Dylid ystyried plant sy'n camfanteisio'n rhywiol ar blant yn blant yn gyntaf, yn blant sydd ag anghenion gofal a chymorth, a dylent dderbyn cymorth ar gyfer ymddygiad rhywiol niweidiol fel y'i nodir yng Nghanllawiau Arfer Cymru Gyfan ar ddiogelu plant lle mae pryderon ynglŷn ag ymddygiad rhywiol niweidiol, sydd ar gael i'w defnyddio ar y cyd â Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

44. **Camfanteisio o fewn teuluoedd:**Gall camfanteisio’n rhywiol ar blant ddigwydd mewn teuluoedd ac mae hynny'n digwydd. Nid yw'r ffaith fod mwyafrif yr achosion o gamfanteisio’n rhywiol ar blant yn digwydd y tu hwnt i'r teulu yn golygu na all hynny ddigwydd o fewn y teulu neu na all gael ei hwyluso gan aelod o'r teulu. Mae achosion yng Nghymru o rieni'n elwa'n ariannol ar gamfanteisio ar eu plant, y maent wedi'u cynnig i eraill am ryw yn gyfnewid am arian. Yr elfen sy'n gwahaniaethu hyn rhag ffurfiau eraill o gam-drin plant yn rhywiol o fewn teuluoedd (a allai fod yn digwydd ar yr un pryd) yw bod hyn yn cynnwys cyfnewid arian neu nwyddau, a bod aelod o'r teulu'n elwa o'r gamdriniaeth yn erbyn plentyn gan y teulu.

45. **Ethnigrwydd a rhywedd:** Mae achosion uchel eu proffil o gamfanteisio'n rhywiol ar blant sy'n cynnwys grwpiau a drefnir o ddynion o dras Asiaidd wedi arwain at ganfyddiad fod camfanteisio'n rhywiol ar blant yn cynnwys troseddwyr Asiaidd a dioddefwyr gwyn. Fodd bynnag, mae tystiolaeth glir y gall troseddwyr camfanteisio'n rhywiol ar blant ddod o amrywiaeth eang o gefndiroedd ethnig. [24]Dengys ymchwil fod mwyafrif y troseddwyr camfanteisio'n rhywiol ar blant yn ddynion,[25] ond nid ydynt yn cyflawni pob achos o gamfanteisio'n rhywiol ar blant – gall menywod gamfanteisio'n rhywiol ar blant ac mae hynny'n digwydd.

## Sut ydym yn nodi camfanteisio'n rhywiol ar blant?

46. **Datgelu:** Mae nifer o resymau pam mae'n arbennig o annhebygol na fydd plant sy'n wynebu camfanteisio'n rhywiol ar blant yn datgelu eu bod yn cael eu cam-drin. [26]I rai o blant, gellir ystyried camfanteisio'n rhywiol yn rhywbeth y maent yn disgwyl iddo ddigwydd iddynt neu'n rhywbeth y maent yn ei haeddu. Hefyd, gallai plant ystyried y cyfnewid sy'n digwydd wrth gamfanteisio'n rhywiol ar blant yn ffordd o adennill rheolaeth dros eu cyrff a'u bywydau eu hunain, a'r opsiwn gorau iddynt yng nghyd-destun prinder dewisiadau a/neu ddull o ymdopi. Oni eir i'r afael â'r anghenion a phroblemau sylfaenol ac oni chânt eu diwallu mewn ffyrdd eraill, mae'n annhebygol y bydd plant yn datgelu neu mae'n debygol y bydd plant yn tynnu eu datgeliad yn ôl.

47. Mae'n bosibl y bydd hefyd gan berson ifanc ofn datgelu neu geisio cymorth oherwydd gorfodaeth a rheolaeth a/neu’r goblygiadau posibl gan y rheini sy'n camfanteisio arno. Mae'n bosibl fod teulu a rhwydweithiau cyfeillgarwch pobl ifanc yn gysylltiedig â'r gweithgarwch camfanteisio, a gall y rhain gyfrannu at deimlad fod camfanteisio'n rhywiol yn rhywbeth ‘normal’ neu'n rhywbeth i'w ddisgwyl, yn ogystal â gweithio yn erbyn datgelu yn sgil ofn amharu ymhellach ar eu bywydau.

48. Felly, mae datgelu'n arbennig o annhebygol mewn perthynas â'r ffurf hon o gam-drin. Bydd llawer o blant ond yn datgelu ar ôl iddynt gael cymorth am gyfnod hir ac ar ôl

iddynt ddechrau ymddiried mewn gweithiwr. Os bydd plentyn yn datgelu, mae'n bwysig gwrando ar brofiad y plentyn ar ei delerau ei hun yn hytrach na chanolbwyntio ar gasglu gwybodaeth ffeithiol.[27] Canfu ymchwil yng Nghymru gyda phlant sydd wedi profi camfanteisio'n rhywiol ar blant eu bod yn aml yn teimlo eu bod yn cael eu hanwybyddu neu eu bod yn 'anweledig' fel unigolyn, ac os nad yw plentyn yn teimlo bod rhywun yn gwrando arno neu'n ei ddeall pan fydd yn datgelu, gallai hyn ei wneud yn fwy agored i niwed yn y dyfodol.[28]

49. Mae'r ffaith fod datgelu'r ffurf hon o gam-drin plant yn rhywiol yn arbennig o annhebygol yn golygu bod nodi achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant yn dibynnu'n benodol ar wybodaeth a dealltwriaeth ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol. Mae hyn yn galw am hyfforddiant amlasiantaeth i sicrhau bod pawb sy'n gweithio gyda phlant yn ymwybodol o'r arwyddion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant ac ystyrir y mater hwn ym Mhennod 2.

50. Fodd bynnag, canfu ymchwil a wnaed yng Nghymru[29] fod traean o blant yn sampl yr ymchwil wedi datgelu camdriniaeth trwy gamfanteisio'n rhywiol ar blant. Mae angen gwybodaeth ar ymarferwyr a rhieni/gofalwyr am nodi cam-drin plant yn rhywiol, gan gynnwys camfanteisio'n rhywiol ar blant, ac am sut i ymateb pan fydd plentyn yn datgelu camdriniaeth.

# Nodi ac adrodd camfanteisio'n rhywiol ar blant

**Anogwr i ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol**

Mae'r anogwr hwn yn darparu gwybodaeth i helpu i nodi camfanteisio’n rhywiol ar blant yn gyson. Wrth ystyried risg camfanteisio’n rhywiol ar blant, mae'n hollbwysig gweithredu dull sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac sy'n ystyried anghenion cyfannol y plentyn. Dylai rheoli risg fod yn un elfen yn unig i'r ymateb i anghenion gofal a chymorth plant pan fydd camfanteisio’n rhywiol ar blant yn bryder.

Dylai pawb sy'n gweithio gyda phlant fod yn wyliadwrus am yr arwyddion fod rhywun yn camfanteisio'n rhywiol ar blentyn a deall eu dyletswydd i adrodd am blentyn sy'n wynebu risg. Siaradwch â'ch rheolwr neu arweinydd diogelu am unrhyw bryderon sydd gennych a gwnewch atgyfeiriad amddiffyn plant i wasanaethau cymdeithasol eich awdurdod lleol. Os ydych yn amau bod plentyn yn wynebu risg neu niwed enbyd, dylech ffonio'r heddlu ar 999.

**Arwyddion corfforol:** cleisiau, anafiadau diesboniad, afiechydon a drosglwyddir yn rhywiol.

**Arwyddion emosiynol**: swildod, newidiadau eithafol mewn hwyliau, dicter, hunan-niweidio, hunanladdol, diffyg diddordeb.

**Arwyddion materol**: ffôn symudol / offer technolegol, dillad/esgidiau, dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau yn rheolaidd, bod ag arian yn ei feddiant, **pan** nad oes dim esboniad rhesymol o sut y cafodd afael ar y pethau hyn neu sut y talodd amdanynt.

**Arwyddion ymddygiadol:** cyfrinachgar, cyfnodau o fynd ar goll, mynd i mewn i geir sy'n cael eu gyrru gan oedolion anhysbys neu allan ohonynt, ei deulu, ofalwyr neu ymarferwyr yn ei ddisgrifio fel allan o reolaeth neu ei fod yn ymddwyn yn beryglus, pryderon ynglŷn â'r ffordd y mae'r plentyn yn defnyddio ei ffôn symudol neu'r rhyngrwyd.

Mae dyletswydd statudol i adrodd am blant sy’n wynebu risg ar bartneriaid perthnasol o dan adran 130 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. **Crynodeb Diogelu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** Mae hyn yn golygu gwneud atgyfeiriad at y gwasanaethau cymdeithasol pan fydd gennych bryderon fod plentyn yn wynebu risg. Dylech sicrhau eich bod yn deall y broses ar gyfer gwneud atgyfeiriad i'r gwasanaethau cymdeithasol a pha wybodaeth y bydd ei hangen arnynt – siaradwch â'ch rheolwr.

Os ydych yn gweithio ym maes iechyd ac mae gennych gysylltiad cyfyngedig â'r plentyn neu wybodaeth gyfyngedig amdano, cewch ddefnyddio'r holiadur risg ar gyfer camfanteisio'n rhywiol ar blant i lywio eich penderfyniad ynglŷn â gwneud atgyfeiriad amddiffyn plant. Dylai gwybodaeth ynglŷn â'r holiadur hwn fod ar gael o fewn y sefydliad iechyd – siaradwch â'ch rheolwr.

Ffurf o gam-drin plant yn rhywiol yw camfanteisio'n rhywiol ar blant sy'n cynnwys elfen o gyfnewid rhwng y plentyn sy'n cael ei gam-drin â'r unigolyn sy'n cam-drin.

**Mae'n annhebygol y bydd plant (hynny yw, unrhyw un hyd at 18 mlwydd oed) sy'n cael eu cam-drin yn y modd hwn yn dweud wrth unrhyw un am yr hyn sy'n digwydd iddynt.** Mae'r rhesymau dros hyn yn gymhleth ac mae'n bosibl eu bod yn ofni'r hyn y bydd yn digwydd os byddant yn ei ddatgelu, nad ydynt yn cydnabod eu bod yn cael eu cam-drin, eu bod yn ofni na fydd neb yn eu credu neu y byddant yn cael eu beirniadu, neu eu bod yn teimlo eu bod yn rheoli'r hyn sy'n digwydd iddynt rhywsut.

**Yn debyg i bob math o gam-drin plant, gall camfanteisio’n rhywiol ar blant ddigwydd i unrhyw blentyn.** Fodd bynnag, gwn y gallai rhai plant fod yn arbennig o fregus. Mae hyn yn cynnwys plant sydd â phrofiadau ansefydlog yn y cartref neu o ofal, plant sydd wedi cael profiad o gam-drin yn gynharach yn ystod plentyndod, plant isel eu hunan-barch, a phlant sy'n cael problemau o ran addysg, iechyd meddwl, camddefnyddio alcohol/cyffuriau neu ymddygiad troseddu. Mae tystiolaeth y gallai plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol neu anawsterau gweithredu fod yn arbennig o fregus. Mae bechgyn a dynion ifanc yn ogystal â merched a menywod ifanc yn destun camfanteisio’n rhywiol ar blant. Mae tystiolaeth o rwystrau ychwanegol rhag datgelu a nodi ymysg rhai o blant, gan gynnwys plant duon ac Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig, plant anabl, a phlant LHDT+.

**Bydd y ffordd y bydd plant yn deall camfanteisio'n amrywio o blentyn o blentyn.** Gall plant fethu â chydnabod eu profiadau fel camfanteisio. Fodd bynnag, mae llawer o blant yn deall eu bod yn dioddef camfanteisio ond gallant ddal i gael anhawster datgelu neu geisio cymorth oherwydd stigma neu am fod y peth maent yn ei dderbyn yn gyfnewid am y cam-drin yn bwysig iddynt. Gall rhai plant ddeall eu bod yn dioddef camfanteisio ond parhau i feddwl mai'r camfanteisio yw'r opsiwn gorau sydd ar gael iddynt yng nghyd-destun dewisiadau cyfyngedig. Mae'n bosibl y bydd rhai plant yn derbyn camdriniaeth fel rhan arferol o fywyd neu'n teimlo eu bod yn ei haeddu oherwydd eu profiadau blaenorol o gamdriniaeth neu eu teimladau o fod yn ddiwerth.

**Yn debyg i unrhyw ffurf ar gam-drin plant, mae'n hanfodol fod ymarferwyr yn gweithredu ar eu pryderon.** Gwn y gallai pobl wahanol sy'n rhan o fywyd plentyn fod â gwybodaeth neu bryderon gwahanol a allai ymddangos yn bryderus ar eu pen eu hunain ond fel nad ydynt yn mynnu ymchwiliad pellach. Ond, wrth roi'r rhain at ei gilydd, gall y dystiolaeth hon ddangos fod gan y plentyn anghenion gofal a chymorth.

**Dylid diwallu unrhyw anghenion gofal a chymorth plant y nodir eu bod yn wynebu risg o gamfanteisio’n rhywiol ar blant er mwyn atal camdriniaeth.**Gan amlaf (er nad bob tro), mae camfanteisio’n rhywiol ar blant yn digwydd y tu hwnt i'r teulu. Mae hyn yn darparu cyfle i weithio gyda rhieni/gofalwyr a theuluoedd i gadw'r plentyn yn ddiogel ac i ateb anghenion gofal a chymorth mewn modd a fydd yn lleihau'r risg o gamfanteisio’n rhywiol ar blant. Fodd bynnag, dylai ymarferwyr fod yn wyliadwrus rhag unrhyw broblemau diogelu neu ofal a chymorth yn y teulu.

Pennod 2
**Atal camfanteisio'n rhywiol ar blant**

- Nid unig ddiben ataliaeth yw ymyrraeth yn gynnar. Mae codi ymwybyddiaeth yn gyffredinol ac ymyrryd yn gynnar yn ganolog i ymdrechion i atal camfanteisio'n rhywiol ar blant. Fodd bynnag, mae angen gwaith targedu atal hefyd gyda phlant sydd â bregusrwydd a nodwyd neu risgiau sy'n gysylltiedig â chamfanteisio'n rhywiol ar blant. Mae gwaith atal hefyd yn elfen bwysig o waith i gynorthwyo plant sydd wedi cael eu camfanteisio'n rhywiol i atal y gamdriniaeth rhag digwydd eto yn y dyfodol.

- Gall profiadau niweidiol yn ystod plentyndod gael effeithiau niweidiol yn ystod bywyd. Darparu amgylchedd diogel a gofalgar yw'r ffordd orau o sicrhau y gall plentyn fynd ati i gyflawni ei botensial. Mae ymchwil yn awgrymu perthynas rhwng profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a'r perygl o gamfanteisio'n rhywiol ar blant. Nodir gwydnwch fel ffactor amddiffyn rhag effeithiau profiadau niweidiol yn ystod plentyndod.

- Gall gwaith i ddatblygu plant, teuluoedd a chymunedau gwydn, trwy wasanaethau cyffredinol a gwasanaethau a dargedir, hybu llesiant plant a gall hyn, yn ei dro, eu gwneud yn llai agored i gamfanteisio'n rhywiol ar blant.

- Gall cymorth i roi gofal amddiffynnol a chyson, trwy gymorth teuluol neu drwy leoliadau diogel a sefydlog i blant mewn gofal, weithredu fel ffactor amddiffyn sy'n datblygu gwydnwch ac sydd, yn ei dro, yn atal bregusrwydd i gamfanteisio'n rhywiol ar blant.

- Mae angen cymorth wedi'i dargedu a lywir gan drawma i'r plant hynny sydd wedi profi trawma ac wedi'u heffeithio gan drawma ar ffurf cam-drin corfforol, rhywiol neu emosiynol, ac sydd wedi gweld cam-drin domestig. Mae cysylltiad rhwng anghenion llesiant na aethpwyd i'r afael â nhw am blant sydd wedi profi trawma yn ystod plentyndod a dioddef camfanteisio'n rhywiol ar blant yn ddiweddarach.

- Bydd creu mannau cyhoeddus diogelach a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd o gamfanteisio'n rhywiol ar blant yn cyfrannu at droi cymunedau'n amgylcheddau anghyfeillgar i droseddwyr camfanteisio'n rhywiol ar blant ac at gadw plant yn ddiogel.

- Mae datblygu'r gweithlu yn elfen hollbwysig o weithredu i gadw plant yn ddiogel, nodi risg yn gynnar ac atal cam-drin.

**Atal**

51. Mae gan ymwybyddiaeth a hyfforddiant cyhoeddus a phroffesiynol, addysg, a gwasanaethau ataliol sy'n hybu llesiant oll ran i'w chwarae mewn lleihau nifer y plant sy'n dioddef camfanteisio'n rhywiol ar blant.

52. Nid unig ddiben ataliaeth yw ymyrraeth yn gynnar. Mae codi ymwybyddiaeth yn gyffredinol ac ymyrryd yn gynnar yn ganolog i ymdrechion i atal camfanteisio'n rhywiol ar blant. Fodd bynnag, mae angen gwaith targedu atal hefyd gyda phlant sydd â bregusrwydd hysbys a nodwyd neu risgiau sy'n gysylltiedig â chamfanteisio'n rhywiol ar blant (fel y'i nodir ym Mhennod 1). Mae gwaith atal hefyd yn elfen bwysig o waith i gynorthwyo plant sydd wedi cael eu camfanteisio'n rhywiol i atal y gamdriniaeth rhag digwydd eto yn y dyfodol.

53. Fodd bynnag, gwyddom mai atal cam-drin rhag digwydd yw'r ffordd orau o warchod plant rhag niwed.

54. Mae'r pwyslais ar ymyrryd yn gynnar ac atal yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("Deddf 2014") a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn hybu angen i ganolbwyntio ymdrechion ar ddatblygu gwydnwch unigolion, teuluoedd a chymunedau i hybu llesiant da ac atal niwed.

55. Ymhlith egwyddorion hanfodol Deddf 2014 mae cyflwyno mwy o wasanaethau ataliol i atal anghenion rhag tyfu a chynorthwyo pobl i gyflawni eu llesiant eu hunain. Term eang yw 'llesiant' a ddefnyddir ar draws sawl maes o fewn Deddf 2014 ac mae'n cynnwys diogelu (atal cam-drin, niwed ac esgeulustod a gwarchod rhagddynt), ond y mae hefyd yn berthnasol i lesiant corfforol, meddyliol ac emosiynol unigolyn. Mae trawma wedi ennill ei blwyf yn y sylfaen dystiolaeth fel risg achlysurol ar gyfer camfanteisio'n rhywiol ar blant.[30] Gallai gwasanaethau ataliol sy'n helpu plant i ddatblygu gwydnwch a hunan-hyder ac adfer ar ôl trawma leihau'r risg o gamfanteisio'n rhywiol ar blant.

56. Wrth i unigolion symud o blentyndod cynnar i lencyndod, maent yn treulio mwyfwy o amser yn cymdeithasu'n annibynnol i'w teuluoedd. Yn ystod y cyfnod hwn, gall natur ysgolion a chymunedau pobl ifanc a'r cysylltiadau y maent yn eu ffurfio yn y lleoliadau hyn ddylanwadu ar y graddau y gallant wynebu amddiffyniad neu gamdriniaeth.[31]Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw sicrhau bod Cymru yn wydn, yn iachach ac yn fwy cyfartal ac yn wlad o gymunedau mwy cydlynus.

57. Nod Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yw gwella ymateb y sector cyhoeddus i drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, er mwyn atal trais a chamdriniaeth a gwarchod a chynorthwyo dioddefwyr a goroeswyr. I helpu i gyflawni hyn, mae angen i wasanaethau cyhoeddus gydweithio i amddiffyn pobl sy'n dioddef trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol rhag dioddef unrhyw niwed pellach ac i amddiffyn unrhyw blant yn y teulu.

58. Gall trawma, colled neu alar yn ystod plentyndod effeithio ar lesiant ac ymddygiad presennol y plentyn, ond gallai hefyd effeithio ar ei ganlyniadau datblygiadol a'i iechyd meddwl yn y tymor hwy. Mae'n bosibl y bydd gan rai plant broblemau datblygu

ymlyniadau diogel a phroblemau gydag agweddau eraill ar eu datblygiad cymdeithasol ac emosiynol.[32] Bydd amrywiaeth eang o ffactorau yn effeithio ar allu plentyn i ymdopi'n gadarnhaol â phrofiad trawmatig, megis natur y trawma, yr amgylchedd ar ôl y trawma, ymlyniadau, ei gam datblygiadol, ei dymer, ei ddiwylliant, ei hanes, ei wydnwch, a'i ffynonellau o wydnwch a lefel y cymorth arall sydd ar gael.

59. Mae gwaith ymchwil diweddar[33] yn awgrymu bod hanes blaenorol o gam-drin a hanes teuluol o drais domestig yn gyffredin iawn ymysg plant a oedd yn derbyn cymorth yn sgil camfanteisio'n rhywiol ar blant neu ymddygiad rhywiol niweidiol. Daeth yr ymchwil i'r casgliad fod y dystiolaeth a ystyriwyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd cyfeirio sylw at anghenion y plant sydd wedi cael profiad o drawma ar ffurf cam-drin corfforol, rhywiol neu emosiynol ac sydd wedi gweld cam-drin domestig yn digwydd. Mae'r ymchwil yn awgrymu bod cysylltiad rhwng anghenion llesiant sydd heb gael sylw ac erledigaeth ddiweddarach trwy gamfanteisio'n rhywiol ar blant.

60. Mae ymchwil ar brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod[34] yn dangos bod y profiadau a gawn yn ystod plentyndod, boed yn dda neu'n wael, yn cyfrannu at bennu canlyniadau ein bywyd. Darparu amgylchedd diogel a gofalgar yw'r ffordd orau o sicrhau y gall plentyn fynd ati i gyflawni ei botensial. Mae'r rheini sy'n cael plentyndod niweidiol o ansawdd gwael yn fwy tebygol o gael canlyniadau gwael yn eu bywyd. Mae ymchwil yn awgrymu bod cyfrannau uwch o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod ymysg pobl ifanc y camfanteisiwyd arnynt yn rhywiol.[35]

61. Cafodd Arolwg Cymru o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a Gwydnwch[36] ei gynnal er mwyn edrych ar y ffactorau ymhlith unigolion ac mewn cymunedau a allai ddiogelu pobl rhag effeithiau niweidiol profiadau niweidiol yn ystod plentyndod ar iechyd, ar lesiant ac ar ffyniant pobl yn ystod cwrs bywyd. Gellir disgrifio gwydnwch fel y gallu i oresgyn mathau difrifol o galedi, fel y caledi sy'n dod yn sgil profiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Ymhlith y ffactorau a nodwyd a all gynorthwyo'r gwaith o ddatblygu gwydnwch mae oedolion sydd ar gael drwy'r amser, sgiliau personol, perthnasau cadarnhaol, cymorth cymunedol a chysylltiadau diwylliannol, cymryd rhan mewn gweithgareddau trefnu dan arweiniad, a gallu i ddylanwadu ar eich tynged eich hun.

62. Mae cynllun gweithredu cenedlaethol Llywodraeth Cymru 2019-2021 ar atal cam-drin plant yn rhywiol ac ymateb iddo yn nodi camau ar gyfer partneriaid byrddau diogelu ledled Cymru o ran hyrwyddo'r gwaith o atal pob ffurf ar gam-drin plant yn rhywiol, gan gynnwys camfanteisio'n rhywiol ar blant ac ymddygiad rhywiol niweidiol. Bydd Llywodraeth Cymru a'r Byrddau Diogelu Plant yn adrodd bob blwyddyn ar gynnydd y gwaith o weithredu'r cynllun gweithredu cenedlaethol.

63. Comisiynwyd y *Cynllun Gweithredu Diogelwch Ar-lein Cenedlaethol i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru* gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg. Cyhoeddwyd y cynllun gweithredu ym mis Gorffennaf 2018 ac mae'n nodi sut mae Llywodraeth Cymru'n gweithio gydag athrawon, rhieni a gofalwyr, dysgwyr a phartneriaid priodol ledled Cymru i gadw ein plant a'n pobl ifanc yn ddiogel ar-lein.

64. Mae'r 46 o ymrwymiadau a chamau gweithredu yn y cynllun gweithredu hwn wedi'u grwpio yn ôl y categorïau canlynol.

- Cyngor a chymorth – darparu gwybodaeth i blant a phobl ifanc, i ymarferwyr addysg, i weithwyr proffesiynol maes addysg, ac i rieni a gofalwyr er mwyn hyrwyddo diogelwch ar-lein i bobl ifanc.
- Cydweithio – cydweithio â phartneriaid ledled y DU a sefydliadau eraill i gymryd camau ar y cyd i gyflawni ein hamcanion cyffredin.
- Cyfathrebu a hyrwyddo – codi proffil diogelwch ar-lein i gyrraedd cynulleidfa eang ac atgyfnerthu pwysigrwydd defnyddio'r rhyngrwyd yn ddiogel a chyfrifol.
- Canllawiau – cynnal canllawiau statudol ac anstatudol i adlewyrchu datblygiadau technolegol a newidiadau yn y ffordd y defnyddir y rhyngrwyd.
- Ymchwil – cefnogi gwaith ymchwil i'r defnydd a wneir o'r rhyngrwyd gan blant a phobl ifanc er mwyn bod cam ar y blaen i fygythiadau sy'n datblygu a pharhau i lywio'r gwaith o ddatblygu polisïau a chamau gweithredu sy'n angenrheidiol i hyrwyddo diogelwch ar-lein.
- Adnoddau – darparu amryw o adnoddau i blant a phobl ifanc, i ymarferwyr addysg, i weithwyr proffesiynol maes addysg, ac i rieni a gofalwyr i gefnogi'r gwaith o ddarparu addysg ar ddiogelwch ar-lein a sylw iddo.
- Hyfforddiant a datblygiad – darparu hyfforddiant perthnasol i ymarferwyr addysg, i weithwyr proffesiynol ym maes addysg, ysgolion a phartneriaid eraill i gefnogi'r gwaith o ddarparu addysg ar ddiogelwch ar-lein i blant a phobl ifanc.

Mae'r cynllun yn darparu canolbwynt i waith Llywodraeth Cymru ar ddiogelwch ar-lein ac fe'i hadolygir bob blwyddyn i ddiweddaru'r camau gweithredu.

**Cartref**

65. Mae tystiolaeth fod plant y camfanteisir yn rhywiol arnynt yn cael profiadau o drawma yn gynharach yn ystod plentyndod sydd anghymesur o uchel.[37]

66. Hefyd, caiff problemau amddiffyn plant, megis cam-drin plant yn rhywiol, yn gorfforol ac yn emosiynol a'u hesgeuluso, eu gornodi ymysg plant y camfanteisir arnynt yn rhywiol.[38]

67. Fodd bynnag, nid yw pob plentyn sy'n profi trawma a chamdriniaeth yn ystod plentyndod yn wynebu camfanteisio rhywiol. Mae tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg ar y berthynas rhwng plentyndod niweidiol a chanlyniadau iechyd meddwl a llesiant gwael yn awgrymu ei bod yn ymddangos fel pe bai'r risgiau'n cael eu lliniaru'n sylweddol trwy fod â chymorth oedolyn y gellir ymddiried ynddo ar gael drwy'r amser yn ystod plentyndod.[39] Yn ogystal â hynny, mae Bellis ac eraill (2017) yn awgrymu bod agosrwydd at ofalwr ymwybodol ac ymatebol, wrth wynebu sefyllfa drawmatig, yn gwneud cyfraniad hollbwysig at ymdeimlad plentyn o ddiogelwch.

68. Awgryma Hanson[40] fod perthnasau o ansawdd uchel yn nodwedd bwysig o lwybr gwydn ar ôl camdriniaeth yn ystod plentyndod ac y gall profiadau o berthynas gariadus, gyson a chadarnhaol gyfrannu at y broses o ddatblygu asedau amddiffynnol

fel hunan-hyder, ymdeimlad o ddiogelwch, dyhead cadarnhaol, a sgiliau cymdeithasol ac emosiynol.

**Teuluoedd gwydn**

69. Bydd gwydnwch plant rhag gofid yn well pan allant fanteisio ar o leiaf un rhiant gofalgar neu oedolyn cynorthwyol arall yn eu teulu estynedig a gall cymorth ar gyfer gwydnwch teulu, yn ei dro, hybu mecanweithiau amddiffynnol mewn plant.[41]

70. Er y gallai rhai teuluoedd fod yn fwy agored i niwed neu wynebu amgylchiadau mwy niweidiol nag eraill, mae ymagwedd gwydnwch teulu'n awgrymu ei bod yn bosibl i deuluoedd gryfhau eu gwydnwch wrth oresgyn yr heriau hyn, hyd yn oed ar ôl trawma difrifol.[42]

71. Mae ymchwil a gynhaliwyd yng Nghymru[43] wedi ystyried tystiolaeth ar garfan o blant sydd wedi bod yn ymwneud â gwasanaethau cymdeithasol, gan ganolbwyntio'n benodol ar blant yr ystyriwyd eu bod mewn perygl o brofi camfanteisio'n rhywiol ar blant. Canfu'r ymchwil fod perthnasau teuluol, yn gyffredinol, ar eu gwaethaf ymysg y grŵp o blant y nodwyd eu bod mewn perygl sylweddol o gamfanteisio'n rhywiol ar blant, bod y grŵp hwn yn fwy tebygol o gael perthynas ddiffygiol â'u rhieni, a bod cael eu gwrthod gan eu rhieni fwyaf cyffredin ymysg y plant hyn.

72. Felly, gallai gwasanaethau cymorth ataliol i deuluoedd ac ymyrraeth gynnar sy'n datblygu gwydnwch teuluol gyfrannu at ffactorau amddiffynnol rhag risg ddiweddarach o gamdriniaeth trwy broblemau megis camfanteisio'n rhywiol ar blant.

73. Bydd cymorth i deuluoedd a rhieni i feithrin gallu rhieni ac aelodau o'r teulu mewn amgylchiadau anffafriol yn cyfrannu at ganlyniadau cadarnhaol i blant, a allai, yn ei dro, helpu i'w gwarchod rhag y risg o gael eu cam-drin trwy gamfanteisio'n rhywiol ar blant yn ddiweddarach yn ystod plentyndod.

74. Wrth ystyried dulliau o hybu ffyrdd cadarnhaol o ryngweithio rhwng rhieni a phlant yn ystod y blynyddoedd cynnar, awgryma ymchwil[44] fod y dystiolaeth ar ei chryfach ar gyfer rhaglenni sy'n targedu yn seiliedig ar arwyddion cynnar o risg, megis problemau ymddygiad plant, ymlyniad anniogel, oedi ar ddatblygu lleferydd a diffyg sensitifrwydd mamol, er y canfuwyd bod mathau eraill o raglenni'n effeithiol hefyd.


75. Rhaglen y blynyddoedd cynnar yw **Dechrau'n Deg** ar gyfer teuluoedd â phlant mewn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Mae Dechrau'n Deg yn darparu gofal plant o ansawdd a gynigir i rieni pob plentyn dwy a thair oed sy'n gymwys am ddwy awr a hanner y dydd, pum diwrnod yr wythnos, yn ogystal â gwell gwasanaeth ymwelwyr iechyd, cymorth â lleferydd, iaith a chyfathrebu, a rhaglenni magu plant. Mae elfen rhaglen magu plant Dechrau'n Deg yn cynnwys ymagwedd sy'n ceisio datblygu a chynnal perthnasau cadarnhaol a pharchus â rhieni i wella eu sgiliau magu plant mewn perthynas â chynorthwyo datblygiad, gofal a llesiant eu plentyn. Mae hyn yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth â rhieni i'w helpu i ddatblygu hunan-hyder yn eu rôl o fagu plant. Hefyd, mae'n cynnwys gweithio gyda rhieni mewn ffyrdd sy'n eu helpu i gysylltu'n gadarnhaol â'u plentyn.[45]

76. Bwriad **Teuluoedd yn Gyntaf** yw gwella canlyniadau i blant a theuluoedd. Mae'n rhoi pwyslais ar ymyrryd yn gynnar, atal, a darparu cymorth i deuluoedd cyfan, yn hytrach nag i unigolion. Mae'r rhaglen yn hyrwyddo mwy o weithio amlasiantaethol i sicrhau bod teuluoedd yn cael cymorth cydgysylltiedig pan fydd ei angen arnynt. Bwriad y rhaglen yw darparu cymorth cynnar i deuluoedd gyda'r nod o atal problemau rhag gwaethygu. Mae nifer o egwyddorion arweiniol ar gyfer gwasanaethau a ddarperir o dan y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf, a disgwylir i'r gwasanaethau feddu ar y nodweddion canlynol:

- Canolbwyntio ar deuluoedd – dylai gwasanaethau weithio gyda'r holl deulu i wella canlyniadau;
- Pwrpasol – dylid teilwra gwasanaethau i amgylchiadau teuluoedd unigol;
- Grymuso – dylai gwasanaethau geisio grymuso teuluoedd i fynnu rheolaeth dros eu bywydau, i roi iddynt well ymdeimlad o berchenogaeth ar eu canlyniadau a diddordeb ynddynt;
- Integredig – dylid cydlynu a chynllunio gwasanaethau yn effeithiol i sicrhau cynnydd didrafferth i deuluoedd rhwng gwahanol ymyriadau a rhaglenni;
- Dwys – rhaid cynnal ymagwedd drylwyr a chanolbwynt didrugaredd a all addasu i amgylchiadau newidiol teuluoedd;
- Lleol – dylai gwasanaethau fynd i'r afael ag anghenion cymunedau lleol a, lle bo'n bosibl, ceisio cyfleoedd i gysylltu â rhaglenni lleol eraill, gan gynnwys Dechrau'n Deg a Cefnogi Pobl;
- Rhagweithiol – ceisio nodi anghenion yn gynnar a sicrhau ymyriadau mewn modd amserol;
- Cynaliadwy – dylai gwasanaethau geisio darparu datrysiadau cynaliadwy hirdymor drwy'r amser. Dylent geisio mynd i'r afael ag achosion sylfaenol problemau ac nid y symptomau yn unig, er mwyn galluogi teuluoedd i barhau i wneud cynnydd ar ôl i'r ymyriad ddod i ben.

**Rhaglen Teuluoedd Cydnerth Rhondda Cynon Taf**

Mae'r Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth yn nodi teuluoedd sydd mewn perygl o ddirywiad teuluol yn effeithiol cyn iddynt wynebu argyfwng, yn ogystal â pharhau â chymorth i deuluoedd nad oes angen ymyrraeth statudol arnynt mwyach. Mae'n darparu cyfle i ddarparu cymorth cyflym, effeithiol, cyson a phwrpasol i deuluoedd. Gan ganolbwyntio ar wella gallu teuluoedd i adfer ar ôl gofid, bod yn gryfach a meddu ar well adnoddau, ei bwriad yw hwyluso newid hirdymor, cynaliadwy o ganlyniad i ymyrraeth y mae'r teulu yn ei rheoli.




**Prosiect Gwella**

Prosiect ymchwil ac ymarfer a ariennir gan Lywodraeth Cymru yw 'Gwella' a weithredir mewn partneriaeth rhwng Barnado's Cymru a CASCADE, Prifysgol Caerdydd. Nod prosiect Gwella yw lleihau'r risg fod plant a phobl ifanc agored i niwed yn profi camfanteisio'n rhywiol ar blant neu'n dangos ymddygiad rhywiol niweidiol trwy ddatblygu model atal i'w ddefnyddio mewn gofal cymdeithasol, er mwyn gwella llesiant plant. Treialwyd yr ymagwedd ymarfer mewn sawl awdurdod lleol gyda phlant rhwng pump ac 11 oed sy'n ymwneud â gwasanaethau cymdeithasol lle bu pryderon hanesyddol neu dystiolaeth o drawma datblygiadol, megis cam-drin rhywiol, esgeulustod, cam-drin corfforol, cam-drin emosiynol a chysylltiad â thrais yn y cartref. Ymhlith egwyddorion allweddol ymagwedd ymarfer Gwella mae:

- Deall effaith y trawma ar ddatblygiad y plentyn
- Sefydlu ymateb chwarae therapiwtig a pherthynol o amgylch y plentyn
- Un o'r prif nodau yw gwella/dyfnhau'r berthynas rhwng y plentyn a'i brif ofalwr neu ofalwyr
- Un o'r prif nodau yw gwella/dyfnhau'r berthynas rhwng y plentyn ac oedolion arwyddocaol eraill
- Bydd plant yn cael ymateb pwrpasol i'w cryfderau unigryw sy'n diwallu eu hanghenion unigryw

Mae'r dystiolaeth gynnar gan brosiect Gwella yn addawol a chyhoeddir gwerthusiad ar ddiwedd y prosiect.

## Lleoliadau sefydlog a diogel

77. Mae cysylltiad wedi'i sefydlu rhwng profiadau gwael o ofal a'r risg o gamfanteisio'n rhywiol ar blant.[46] I rai plant sy'n cael eu magu mewn gofal, gall ansefydlogrwydd a diffyg perthnasau o ansawdd arwain at ddirywiad pellach yn eu lleoliad, sydd, yn ei dro, yn atgyfnerthu teimladau o anallu ac unigrwydd i bobl ifanc.[47] Cyfwelodd Hallett (2015) a Coy (2008, 2009) bobl ifanc a ddisgrifiodd sut mae'r cyfryw brofiadau wedi eu gwneud yn agored i gamfanteisio'n rhywiol ar blant lle yr ymddangoswyd y cynigiodd unigolion sy'n camfanteisio ymdeimlad o berthyn i'r person ifanc yn gyntaf.

> “Roeddwn i mewn gofal a ches i fy symud o gwmpas i bobman. Felly roeddwn i'n rhedeg i ffwrdd, ac yna pan 'nes i gwrdd â [enw'r person yr ystyrir ei fod yn camfanteisio], roedd e fel bod â rhywun gerllaw.”[48]

78. Canfu ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru[49] fod dros dri chwarter o'r holl garfan o blant (a oedd ag un gorchymyn gofal terfynol yng Nghymru dros gyfnod o ddeuddeg mis) a gafodd eu cynnwys mewn astudiaeth ar raddfa fawr wedi profi lefel uchel o sefydlogrwydd yn eu lleoliad. Hefyd, canfu dadansoddiad manwl o is-sampl lai y cafodd 71% o'r plant hynny ganlyniadau cadarnhaol mewn perthynas ag amgylchedd eu cartref, cyfathrebu ac ymlyniadau, eu hiechyd corfforol ac absenoldeb troseddu.

79. Ymhlith y ffactorau a oedd yn gysylltiedig â chanlyniadau cadarnhaol yn yr is-sampl, roedd: oedran iau'r plentyn ar adeg y gorchymyn gofal terfynol (ac, yn aml, felly, cysylltiad mwy cyfyngedig â chamdriniaeth neu esgeulustod); cymorth da neu ragorol yn y cartref neu yn yr ysgol; gallu gofalwr i hwyluso cysylltiad buddiol â theulu estynedig naturiol y plentyn; argaeledd cymorth therapiwtig a ddarperir yn ystod camau cynnar problem neu'n rhagweithiol mewn ymateb i brofiadau ac anghenion hysbys wrth i'r plentyn ddechrau derbyn gofal – er enghraifft, mewn perthynas â phroblemau ag ymlyniadau, trawma neu gam-drin rhywiol; annog y plentyn i gymryd rhan yn rheolaidd mewn gweithgareddau cadarnhaol; cymorth cyson gan weithiwr cymdeithasol; a lleoli'r plentyn ar ei ben ei hun neu gyda'i frodyr neu chwiorydd, fel bo'n briodol, i ddiwallu ei anghenion.

80. Fodd bynnag, canfu'r un ymchwil fod y cynlluniau yn llai tebygol o gyflawni sefydlogrwydd yn yr amserlenni dymunol lle roedd gan y plant hanes o esgeulustod a cham-drin eithafol neu gronig, neu os oeddent yn rhan o grŵp o frodyr a chwiorydd i'w maethu gyda'i gilydd. Hefyd, ni ellid cynnal cyfran sylweddol o leoliadau maeth hirdymor a gyflawnwyd yn wreiddiol dros gyfnod o amser ac roedd angen o leiaf un lleoliad parhaol arall ar y plentyn dan sylw. Roedd plant â chynllun am ofal maeth hirdymor na chyflawnwyd yn y byrdymor yn arbennig o agored i sawl dirywiad dilynol yn eu lleoliad.

81. Roedd canlyniadau negyddol i blant yn yr is-sampl yn gysylltiedig â'r canlynol: oedran hŷn y plentyn ar adeg y gorchymyn gofal terfynol; amlygu'r plentyn i lefel fwy sylweddol o gamdriniaeth neu esgeulustod difrifol a/neu gronig; a phlant yn dangos ymddygiadau mwy heriol yn sgil eu profiadau o gamdriniaeth, gan gynnwys ymddygiad rhywiol.

82. Mae tystiolaeth o'r Care Crisis Review a wnaed gan y Family Rights Group[50] yn awgrymu bod mwyafrif y plant a leolir y tu hwnt i'w cartref, beth bynnag fo'u lleoliad neu statws cyfreithiol, yn debygol o fod â lefelau uchel o anghenion, neu anghenion

sy'n dechrau dod i'r amlwg, y mae angen cymorth arnynt, weithiau yn hirdymor. Mae'r adolygiad yn nodi'r angen am amrywiaeth o wasanaethau sy'n cefnogi iechyd emosiynol ac iechyd meddwl, gwasanaethau eirioli ac arbenigol i blant, a chyngor a chymorth i ofalwyr a rhieni mabwysiadol i leihau dirywiad mewn lleoliadau.

83. Sefydlwyd Grŵp Cynghori’r Gweinidog ar Wella Canlyniadau i Blant yn 2016. Mae gwaith y grŵp yn canolbwyntio ar y canlynol:

- nodi camau cynnar ac ataliol i helpu i leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal
- gwella canlyniadau plant sydd eisoes yn derbyn gofal
- gwella canlyniadau unigolion sy'n gadael gofal

84. Mae gwaith ar y gweill i ddatblygu arfer da a'r hyn y gwyddom ei fod yn gweithio i ddatblygu system fwy integredig o gymorth sy'n nodi effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod ac anfanteision eraill, yn mynd i'r afael â hi, ac yn ei hadfer cyn gynted ag sy'n bosibl yn ystod bywyd. Byddai'r cyfryw cymorth cyfannol yn helpu rhieni a phlant, gan gynnwys y rheini yn y system ofal, boed hynny mewn gofal preswyl neu ofal maeth, a’r teuluoedd hynny a fyddai'n elwa ar gymorth ar ôl mabwysiadu neu gymorth o fewn trefniadau gwarcheidiaeth arbennig. Bydd y gwaith hwn, yn ei dro, yn cyfrannu'n gadarnhaol at atal camfanteisio'n rhywiol ar blant, lle rhoddir cymorth i blant a'u teuluoedd i atal yr angen am ofal a thrwy fesurau i gynorthwyo lleoliadau sefydlog a diogel i’r plant hynny sy'n dechrau derbyn gofal.

85. Datblygwyd y Fframwaith Maethu Cenedlaethol gan lywodraeth leol, y trydydd sector a phartneriaid eraill gyda chymorth gan Lywodraeth Cymru. Darperir cymorth ar lefel genedlaethol gan y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, ond prif ganolbwynt y Fframwaith Maethu Cenedlaethol yw gweithio ar lefel ranbarthol. Mae pob rhanbarth wedi penodi gweithiwr datblygu rhanbarthol ac wedi creu cynllun datblygu rhanbarthol. Ymhlith y rhain mae dulliau rhanbarthol o farchnata, recriwtio a hyfforddi, modelau o ofal maeth, a'r cynllun Pan Fydda i'n Barod ar gyfer plant a faethwyd sy'n troi'n 18 oed. Ar lefel genedlaethol, datblygwyd a chyflwynwyd fframwaith rheoli perfformiad newydd, a chyflwynwyd dau brosiect mawr – un ar gysoni ffioedd a lwfansau maethu a'r llall ar ddatblygu brand cenedlaethol a marchnata i helpu i recriwtio gofalwyr maeth ar lefel awdurdod lleol.

86. Yn ogystal â hynny, o dan raglen Grŵp Cynghori’r Gweinidog, mae Llywodraeth Cymru yn ceisio cryfhau'r trefniadau ar gyfer cynorthwyo gofalwyr carennydd, gan gynnwys trefniadau gorchmynion gwarcheidiaeth arbennig. Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Cymdeithas Maethu a Mabwysiadu Cymru i ddatblygu fframwaith cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig, ac ymgynghori arno, gan gynnwys meini prawf cymhwysedd cyffredin ar gyfer cymorth ariannol a mathau eraill o gymorth. Nodir canllawiau ar ddyletswydd awdurdod lleol i gynorthwyo'r trefniadau hyn yn Rhan 6 o’r Cod Ymarfer (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy’n Cael eu Lletya). Mae cod ymarfer arbennig ar orchmynion gwarcheidiaeth arbennig, a gyhoeddwyd yn 2018.

87. Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gofal Preswyl Plant Grŵp Cynghori’r Gweinidog yn benodol i ganolbwyntio ar wella canlyniadau i blant mewn gofal preswyl a llety diogel. Mae'r gwaith hyd yn hyn wedi canolbwyntio ar wella'r broses o gasglu data, fel

bod gennym well proffil o'r plant sydd mewn gofal preswyl; gwerthuso modelau newydd a modelau sy'n dod i'r amlwg o ofal preswyl, yn enwedig y rheini sy'n defnyddio dulliau therapiwtig neu ddulliau a lywir gan drawma; a chynhyrchu canllawiau ymarfer ar leoliadau y tu hwnt i'r ardal a lleoliadau trawsffiniol. Cangen allweddol o waith fu'r gwaith o ddatblygu cynigion ar gyfer datblygu gofal preswyl i blant a phobl ifanc ar ben uchaf y continwwm angen, yn enwedig y rheini sydd mewn perygl o fynd i lety diogel.

## Lleoliadau addysg

88. Mae cam-drin plant yn rhywiol wedi bod yn gysylltiedig â lleihad cyffredin mewn ymwneud ag addysg a chyrhaeddiad yn yr ysgol ac mewn addysg uwch/bellach. Mewn rhai achosion unigol, fodd bynnag, fe'i cysylltwyd hefyd â gwell cyrhaeddiad. Yn yr achosion hyn, mae'n ymddangos bod ymwneud ag addysg yn gweithredu fel strategaeth ymdopi â'r gamdriniaeth.[51]

89. Yn aml, mae profiadau addysgol plant y camfanteisir arnynt yn rhywiol yn adlewyrchu patrwm o driwantiaeth, adroddiadau ohonynt yn mynd ar goll o'r ysgol, gwahardd dros dro neu'n barhaol o'r ysgol, a chanlyniadau addysgol gwael.[52]

90. Mae darparu amgylchedd addysgol lle mae ymagwedd 'ysgol gyfan' i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhywedd, cydsyniad rhywiol, a pherthnasau wedi'u seilio ar barch yn hanfodol i atal trais a cham-drin, gan gynnwys camfanteisio'n rhywiol ar blant. Mae'r cwricwlwm, polisïau ysgol, cymorth bugeiliol ac ethos yr ysgol i gyd yn cyfrannu at amgylcheddau sy'n galluogi neu sy'n herio arferion camfanteisiol a'r agweddau sy'n eu caniatáu. [53]

91. Gall rhoi cymorth i blant sydd mewn perygl o gamfanteisio'n rhywiol ar blant neu sy'n dioddef ohono ailymwneud ag addysg hefyd weithredu fel ffactor amddiffynnol i helpu i atal y tebygolrwydd o wynebu camdriniaeth eto.

## Ymagwedd ysgol gyfan i lesiant disgyblion

92. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru *'Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl: Cynllun gweithredu 2017–21'* yn 2017.[54] Mae'r cynllun gweithredu'n nodi pedwar amcan galluogi, gan gynnwys: 'Ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi ymrwymo i sicrhau rhagoriaeth, tegwch a lles'. Rhaid i bob dysgwr gael cymorth i fod yn barod yn emosiynol ac yn gorfforol i ddysgu mewn amgylchedd diogel a chynorthwyol. I gyflawni tegwch, rhaid inni sicrhau bod y system, yn yr ysgol, ar lefel leol a chenedlaethol, yn ystyried yr heriau unigol sy'n wynebu unigolion neu grwpiau o ddysgwyr ac yn ymateb iddynt. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i gryfhau'r gwaith mewn partneriaeth i wella profiadau plant yn ystod plentyndod cynnar a sicrhau dealltwriaeth eang o bwysigrwydd y fil o ddiwrnodau cyntaf mewn bywyd plentyn. Wrth weithio mewn partneriaeth, rydym yn benderfynol na ddylai unrhyw her atal unrhyw ddysgwr rhag cyrraedd ei botensial, gan gynnwys y dysgwyr hynny sydd wedi cael sawl profiad niweidiol yn ystod plentyndod neu'n cael y rheiny ar hyn o bryd.

93. Mae canolbwynt newydd ar ymagwedd 'ysgol gyfan' i iechyd meddwl a llesiant plant yn cael ei datblygu gan Lywodraeth Cymru. Mae gan ysgolion rôl bwysig wrth helpu i

gynorthwyo plant sy'n emosiynol wydn ac sy'n feddyliol iach. Mae hyn yn golygu y bydd ethos yr ysgol yn cynorthwyo iechyd meddwl a llesiant ehangach dysgwyr, a fydd, yn ei dro, yn helpu i atal problemau eraill rhag datblygu neu waethygu, gan gynnwys problemau iechyd meddwl.

94. Mae The Centre of Expertise on Child Sexual Abuse[55] yn awgrymu y gall plant sydd allan o'r ysgol/addysg deimlo eu bod y tu hwnt i'r brif ffrwd gymdeithasol yn gyflym ac felly maent yn fwy tebygol o gael eu targedu gan oedolion a chyfoedion camfanteisiol. Ar y llaw arall, mae bod yn gysylltiedig â chymuned addysg sefydlog yn ataliol, gan ei fod yn galluogi ymdeimlad o berthyn a sefydlogrwydd ac yn cryfhau hunan-hyder.

95. Mae ymchwil[56] yn awgrymu y gallai ysgolion wella presenoldeb trwy fabwysiadu ymagweddau sy'n mynd i'r afael â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod a'u canlyniadau. Mae rhai ysgolion sy'n gweithio gydag asiantaethau iechyd cyhoeddus wedi mabwysiadu ymagweddau a lywir gan brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod (h.y. staff yn deall profiadau niweidiol yn ystod plentyndod ac yn mabwysiadu ymarfer gweithio i gynorthwyo plant sydd wedi cael profiad ohonynt neu sydd yn cael profiad ohonynt). Mae hyn wedi gwella presenoldeb, lleihau nifer yr achosion o wahardd plant, a gwella cyrhaeddiad addysgol. Bydd ysgolion sy'n gweithredu ymarferion a lywir gan drawma yn galluogi staff ysgol i newid sut y maent yn ymateb i blant sydd wedi cael eu heffeithio yn sgil cysylltiad â digwyddiadau trawmatig.

96. Nod Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yw hyrwyddo trefniadau ar gyfer atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol; trefniadau ar gyfer amddiffyn dioddefwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol; a'r cymorth a roddir i bobl y mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol wedi effeithio arnynt.

97. Ataliaeth yw un o'r dibenion allweddol a amlinellir yn y Ddeddf a dylid amlinellu mesurau ataliol mewn strategaethau lleol. Mae hyn yn cynnwys amcan allweddol i hyrwyddo gwell ymwybyddiaeth ymysg plant a phobl ifanc o bwysigrwydd perthnasau diogel, cyfartal ac iach a bod ymddygiad camdriniol yn anghywir bob amser.[57] Mae Canllaw Arfer Da (2015)[58] a ddatblygwyd ar y cyd â Chymorth i Ferched Cymru yn amlinellu elfennau allweddol ymagwedd addysg gyfan i drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

98. Mae Firmin (2017)[59] yn nodi y cânt plant, os byddant yn cymdeithasu mewn ysgolion (a lleoliadau cymunedol) diogel ac amddiffynnol, gymorth i ffurfio perthnasau diogel ac amddiffynnol gyda chyfoedion. Fodd bynnag, os byddant yn gwneud ffrindiau mewn cyd-destunau a nodweddir gan drais a/neu agweddau niweidiol, gallai'r perthnasau hyn hefyd fod yn wrthgymdeithasol ac yn anniogel, neu gallent hyrwyddo normau cymdeithasol problemus fel modd o lywio'r mannau hynny neu oroesi ynddynt.

99. Cyhoeddwyd canfyddiadau'r Panel o Arbenigwyr ar Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yn 2017[60] ac argymhellodd mai: ‘Dull gweithredu ysgol gyfan yw'r un elfen bwysicaf ar gyfer Addysg Rhyw a Pherthnasoedd effeithiol o ansawdd uchel – Mae dull gweithredu ysgol gyfan at Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yn atgyfnerthu negeseuon allweddol ym mhob rhan o'r cwricwlwm ac mewn rhannau gwahanol o'r ysgol a'r gymuned. Caiff dull gweithredu ysgol gyfan ei gefnogi gan asiantaethau allanol a bydd yn fwy tebygol o arwain at newid agweddau ac ymddygiad.’

**Prosiect Sbectrwm –** Fel rhan o'r ymdrech i drechu trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, ariennir Prosiect Sbectrwm Hafan Cymru gan Lywodraeth Cymru i godi ymwybyddiaeth o gam-drin domestig a'r problemau mewn perthynas ag ef ym mhob ysgol uwchradd a chynradd yng Nghymru. Mae sesiynau Sbectrwm:

- yn hyrwyddo pwysigrwydd perthnasau iach a chodi ymwybyddiaeth plant, pobl ifanc ac oedolion o broblemau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol;
- yn cael eu cyflwyno gan athrawon cymwys a phrofiadol;
- yn drawsgwricwlaidd a'u bwriad yw hyrwyddo trafodaeth ymysg cyfoedion, gan ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau;
- yn defnyddio deunyddiau sy'n pryfocio meddwl yn ddigonol heb fod yn rhy emosiynol a pheri gofid, ac yn cynnwys y cydsyniad o'r “Parth Diogelwch”;
- wedi'u dylunio i hyrwyddo trafodaeth yn hytrach na datgelu; ac
- yn gorffen gyda gwybodaeth i bobl ifanc am ffynonellau cymorth, yn yr ysgol a'r tu hwnt.

Mae'r prosiect hefyd yn darparu hyfforddiant i holl staff ysgolion ac i rieni ar ymagwedd ysgol gyfan.

**Ymgyrch 'Encompass', Sir Benfro**

Diben Ymgyrch 'Encompass' yw diogelu a chynorthwyo'r plant a phobl ifanc hynny sydd wedi bod yn dyst i achos o gam-drin domestig a/neu sydd wedi bod yn bresennol yn ystod adeg ohono.

Nod Ymgyrch 'Encompass' yw sicrhau bod yr holl staff priodol yn yr ysgol yn ymwybodol cyn gynted â phosibl er mwyn darparu cymorth perthnasol a phwrpasol i blant a phobl ifanc mewn ffordd sy'n golygu eu bod yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu cynnwys.

O dan y cynllun, bydd yr heddlu'n darparu adroddiad i ysgolion cyn 9am y diwrnod canlynol pan fyddant yn gwybod bod plentyn wedi cael ei amlygu i achos o gam-drin domestig y diwrnod blaenorol. Rhoddir gwybodaeth yn hollol gyfrinachol i swyddog diogelu penodedig yr ysgol fel y gellir rhoi cymorth, gan ddibynnu ar anghenion a dymuniadau'r plentyn.

Dyma enghreifftiau o arfer da o'r opsiynau hynny yn y protocol sy'n tanategu Ymgyrch 'Encompass':

• Monitro'r plant ar ddechrau'r dydd, gan eu monitro wrth gyrraedd a monitro eu presenoldeb a chydnabod yr hyn sydd wedi digwydd iddynt os bydd angen

• Darparu gwisg ymarfer corff a deunyddiau addysg a bwyd

• Cydlynu pecyn cymorth o amgylch y plentyn a'r teulu (e.e. Tîm o Amgylch y Teulu)

• Helpu'r plentyn i wneud synnwyr o'r ffordd y mae'n teimlo ac yn ymddwyn

• Helpu'r plentyn i ddatblygu strategaethau ymdopi

• Mynd ar gyflymder y plentyn, gan ddilyn ei arweiniad a datblygu perthynas ffyddlon

• Gall ysgolion wneud cais am amgylchiadau eithriadol i fyrddau arholi

• Ysgolion i gydymdeimlo â methiant y plentyn i gymryd rhan yn llawn yn y diwrnod yn yr ysgol, yn emosiynol ac yn gorfforol

**Y cwricwlwm**

100. Yn dilyn yr adolygiad a wnaed gan y Panel o Arbenigwyr ar Addysg Rhyw a Pherthnasoedd, mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu cyflwyno Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb fel rhan statudol o gwricwlwm newydd Cymru, a fydd ar waith o 2022 ymlaen. Ar hyn o bryd, mae Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yn rhan o'r cwricwlwm craidd yng Nghymru ond yr ysgolion sy'n penderfynu sut i addysgu'r pwnc ac weithiau nid yw hyn yn mynd y tu hwnt i agweddau biolegol perthnasau dynol. Mae

Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn symud yn sylweddol o'r ymagweddau traddodiadol hyn gan ei bod yn ehangu'r maes astudio hwn ac yn rhoi pwyslais ar ffurfio a chynnal perthnasau iach, hapus a boddhaus. Gallai dealltwriaeth gynnar o berthnasau iach helpu plant i gydnabod perthnasau afiach, a all, yn ei dro, helpu i atal magu perthnasau amhriodol a chamdriniaeth yn ddiweddarach.

101. Hefyd, rhoddir dealltwriaeth ehangach i ddysgwyr o rywioldeb sy'n cynnwys dysgwyr LHDTCRh+ yn llawn, gan gynnwys problemau ehangach megis cydsyniad, cam-drin domestig a pharchu amrywiaeth. Mae'r penderfyniad i newid canolbwynt y maes hwn o astudiaeth i berthnasau a rhywioldeb, yn ogystal â'r penderfyniad i'w wneud yn statudol, yn adlewyrchu ei bwysigrwydd sylweddol mewn perthynas â sut mae dysgwyr yn deall eu hunain, ei gilydd, eu cymuned a chymdeithas.

102. Pan fydd cwricwlwm newydd Cymru ar waith yn 2022, bydd Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn statudol rhwng pum a 16 oed, ond nid addysgir dysgwyr am destunau nad ydynt yn ddatblygiadol barod amdanynt. Rhaid cydnabod y newidiadau hyn gyda'r hyfforddiant a'r cymorth cywir i athrawon, a bydd newidiadau i'r hyfforddiant mewn addysg gychwynnol i athrawon ac o fewn y gweithlu presennol.

### Derbyn Addysg Heblaw yn yr Ysgol

103. Yn 2018,[61] cofnodwyd bod 2,188 o ddisgyblion yn derbyn addysg heblaw yn yr ysgol, ac roedd 1,609 o'r rhain yn cael eu prif addysg y tu hwnt i'r ysgol. Roedd saith o bob deg o ddisgyblion yr oedd eu prif addysg heblaw yn yr ysgol yn fechgyn. Unedau cyfeirio disgyblion o hyd yw'r math o ddarpariaeth addysg a ddefnyddir amlaf ar gyfer disgyblion y mae eu prif addysg heblaw yn yr ysgol. Yn 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Fframwaith Gweithredu ar gyfer darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol, sy'n cyflwyno rhaglen welliant ar draws y math o ddarpariaeth hon.[62]

104. Mae adroddiad a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd Plant Cymru yn 2014[63] yn adrodd ar ddata arolwg o blant a chanfu fod llawer o blant wedi adrodd problemau mewn perthynas â llesiant emosiynol gwael. Mae rhywfaint o dystiolaeth[64] o Loegr fod gangiau cyfundrefnol sy'n camfanteisio'n droseddol ar blant yn targedu plant sy'n mynychu unedau cyfeirio disgyblion. Mae ymchwil a wnaed yn Lloegr yn awgrymu bod cysylltiad clir rhwng gangiau cyfundrefnol yn camfanteisio'n droseddol ar blant a chamfanteisio'n rhywiol ar blant.[65] Dylai pob lleoliad addysg, gan gynnwys lleoliadau addysg amgen, megis unedau cyfeirio disgyblion, ei chymryd yn ganiataol fod camfanteisio'n rhywiol ar blant yn broblem y mae angen mynd i'r afael â hi.[66]

### Diogelu mewn addysg

105. Mae ysgolion a lleoliadau addysgol eraill yn chwarae rôl hanfodol wrth amddiffyn plant rhag camdriniaeth. Cânt gysylltiad rheolaidd â phlant a phobl ifanc felly maent mewn sefyllfa dda i nodi arwyddion o gam-drin ac esgeulustod. Mae hyn yn golygu y gall lleoliadau addysg gyfrannu at atal camfanteisio’n rhywiol ar blant mewn dwy ffordd. Y ffordd gyntaf yw’r rôl y gall ysgolion ei chwarae o ran nodi plant y gellid bod angen rhywfaint o ymyrraeth gynnar arnynt i leihau'r risgiau o gamdriniaeth neu

sydd mewn perygl, fel y gellir cymryd mesurau i leihau esgeulustod neu gamdriniaeth. Yr ail ffordd yw nodi plant a allai fod yn agored i gamfanteisio'n rhywiol ar blant neu blant sydd eisoes yn dioddef camfanteisio'n rhywiol ar blant, a nodi hynny'n gynnar.

106. Mae canllawiau 'Cadw dysgwyr yn ddiogel'[67] Llywodraeth Cymru yn nodi rôl ddiogelu awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a pherchenogion ysgolion annibynnol. Mae pawb yn y system addysg yn rhannu amcan o helpu i gadw plant a phobl ifanc yn ddiogel trwy gyfrannu at y canlynol: creu a chynnal amgylchedd dysgu diogel i blant a phobl ifanc; nodi ble mae pryderon mewn perthynas â lles plant a chymryd camau, lle bo'n briodol, i fynd i'r afael â nhw mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill; a datblygu dealltwriaeth, ymwybyddiaeth a gwydnwch plant trwy'r cwricwlwm.

107. Mae'r Centre for Expertise on Child Sexual Abuse[68] yn awgrymu bod ysgolion mewn sefyllfa ddelfrydol i ddarparu gwybodaeth i fyfyrwyr am gamfanteisio'n rhywiol ar blant ac mae nifer o adnoddau yn bodoli iddynt eu defnyddio i wneud hynny. Dylai cyfleoedd i ddysgu am gamfanteisio rhywiol fod ar gael ar ffurfiau sy'n addas i'r oedran mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Gall trafodaethau y tu mewn i'r dosbarth a'r tu hwnt iddo helpu plant i gydnabod ymddygiadau a allai fod yn gamdriniol, nodi oedolion y gellir ymddiried ynddynt y gallant siarad â nhw, a chynnig gwybodaeth am wasanaethau cymorth.

108. Mae gan blatfform Hwb Llywodraeth Cymru[69] gasgliad cenedlaethol o declynnau ac adnoddau digidol i gynorthwyo ymarferwyr addysg yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys adnoddau i gynorthwyo arferion diogelu ac adnoddau dosbarth i ddarparu gwybodaeth i blant am broblemau diogelu, gan gynnwys camfanteisio'n rhywiol ar blant.

**Sefydliadau addysg bellach**

109. Mae'r cyfrifoldebau statudol ar gyfer diogelu ac amddiffyn plant yn berthnasol i bob plentyn o dan 18 oed, gan gynnwys pobl 16 a 17 oed sy'n mynychu sefydliadau addysg bellach. Cyrff awtonomaidd yw sefydliadau addysg bellach, ond mae Byrddau Diogelu Plant yn ceisio ymgysylltu â phob asiantaeth a sefydliad sy'n gweithio gyda phlant hyd at 18 oed i gynnal arferion diogelu da a dylai sefydliadau addysg bellach geisio cael gafael ar wybodaeth a hyfforddiant i'w cynorthwyo i nodi plant sydd mewn perygl o gamfanteisio'n rhywiol ar blant ac ymateb iddynt.

110. Dylai pob ysgol neu sefydliad addysg bellach nodi uwch-berson penodedig sydd â'r prif gyfrifoldeb dros reoli problemau amddiffyn plant ac achosion ohonynt. Dylai'r uwch-berson penodedig wybod sut i gydnabod a nodi'r arwyddion o gamdriniaeth ac esgeulustod a gwybod pryd mae atgyfeirio rhywun i'r asiantaethau ymchwilio perthnasol yn briodol. Pan fydd sefydliad yn darparu addysg a/neu hyfforddiant i ddisgyblion o dan 16 oed sydd ar gofrestr ysgolion uwchradd, bydd y person penodedig yn cysylltu â'r ysgolion dan sylw ac yn sicrhau bod trefniadau priodol ar waith i ddiogelu'r plant.

**Gwasanaethau iechyd**

111. Mae gwydnwch yn rhan o gyflawni iechyd a llesiant da i bob plentyn.[70] Beth bynnag fo'r math o wydnwch sydd ei angen, mae gan iechyd cyhoeddus rôl bwysig i'w

chwarae gyda phartneriaid lleol wrth ddatblygu'r rhwydweithiau cymorth ac adnoddau i blant eu defnyddio ac wrth gryfhau eu hymateb i drawma.

112. Mae gwasanaethau iechyd cyffredinol, megis y rhaglen Plant Iach Cymru a’r gwasanaeth nyrsio mewn ysgolion, yn hybu datblygiad a llesiant plant. Mae ymarferwyr iechyd sy'n darparu cymorth iechyd rheolaidd i blant yn ogystal ag ymarferwyr cyffredinol mewn sefyllfa dda i nodi arwyddion cynnar o drawma, llesiant emosiynol gwael a phroblemau diogelu, megis camdriniaeth ac esgeulustod.

113. Mae angen i blant sydd wedi profi camdriniaeth allu manteisio ar ymagweddau therapiwtig seiliedig ar dystiolaeth er mwyn helpu pob plentyn i ymdopi ag effeithiau camdriniaeth.[71] Mae gwerthusiad o raglen ‘Letting the Future in’[72] yr NSPCC yn awgrymu bod cymorth therapiwtig i blant sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol yn cael effaith gadarnhaol ac y gall gweithwyr proffesiynol ym maes gofal cymdeithasol sy'n cael hyfforddiant ychwanegol ddarparu gwaith therapiwtig yn llwyddiannus. Mae angen cymorth therapiwtig mewn modd amserol ar blant sy'n cael eu hamlygu i esgeulustod, camdriniaeth a/neu gam-drin domestig, er mwyn i'r profiadau hyn beidio â llywio'r ffordd y maent yn negodi perthnasau yn negyddol wrth iddynt dyfu a pheidio ag effeithio ar eu llesiant mewn modd a allai eu rhoi mewn mwy o berygl o gamfanteisio’n rhywiol ar blant wrth iddynt fynd yn hŷn.

114. Mae Llywodraeth Cymru'n comisiynu adolygiad tystiolaethol o ymyriadau a lywir gan drawma i lywio'r gwaith o ddatblygu ymyriadau therapiwtig a gwasanaethau ehangach a lywir gan drawma ymhellach, trwy fodel ‘prif ganolfan a lloerennau’. Bydd hyn yn llywio’r gwaith o ddatblygu gwasanaethau cymorth i blant sydd wedi profi trawma, gan gynnwys y rheini y mae angen cymorth arnynt i adfer yn sgil cam-drin rhywiol.

**Camddefnyddio sylweddau**

115. Mae cysylltiad rhwng camddefnyddio alcohol a sylweddau, hanes o gam-drin rhywiol a pherygl o gamfanteisio'n rhywiol ar blant.[73]Canfu tystiolaeth a ystyriwyd fel rhan o ymchwiliad Coffey i gamfanteisio'n rhywiol ar blant ym Manceinion Fwyaf fod un o bob deg o bobl ifanc o dan 18 oed a drinnir am broblemau cyffuriau ac alcohol mewn tair bwrdeistref allweddol ym Manceinion Fwyaf – Rochdale, Oldham a Stockport – wedi bod yn destun camfanteisio’n rhywiol ar blant.[74]

116. Gallai camddefnyddio sylweddau ac alcohol roi plant mewn perygl a'u gwneud yn anniogel; gallai troseddwyr eu defnyddio fel teclyn i fagu perthynas amhriodol â phlant a'u cam-drin a gallent fod yn rhan o'r berthynas o gyfnewid a rheolaeth sy'n bresennol mewn achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant. Mae darparu'r amrywiaeth o wasanaethau addysg, atal a thrin i blant a phobl ifanc sy'n camddefnyddio alcohol a sylweddau yn rhan allweddol o'r gwaith o ddiogelu a hyrwyddo iechyd a llesiant plant.

117. Ni ddylid ystyried diogelu plant yn weithgaredd ar wahân i hyrwyddo eu llesiant a dylid ei roi yn yr un cyd-destun o wasanaethau ehangach i blant sydd ag anghenion gofal a chymorth, felly mae'n hollbwysig fod gwasanaethau camddefnyddio sylweddau yn parhau i gydweithio'n dda â gwasanaethau cymdeithasol. Bydd addysgu plant am alcohol a chyffuriau a darparu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau hygyrch o ansawdd da i blant sy'n defnyddio alcohol a chyffuriau'n cyfrannu at y gwaith o atal

camfanteisio'n rhywiol ar blant ac o nodi plant sydd mewn perygl o gamfanteisio’n rhywiol ar blant, neu sy'n destun hwnnw, yn gynnar.

**Holiadur risg ar gyfer camfanteisio'n rhywiol ar blant gwasanaethau iechyd rhywiol**

http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/tudalen/93471

Mae gwasanaethau iechyd rhywiol mewn sefyllfa dda i gynnig cymorth, cwnsela a gwybodaeth i alluogi plant i ddeall perthnasau iach a risgiau, ac i ddatblygu strategaethau i gadw'n ddiogel. Mae gwasanaethau iechyd rhywiol yng Nghymru hefyd yn defnyddio'r holiadur risg ar gyfer camfanteisio'n rhywiol ar blant, a ddatblygwyd yng Nghyfarwyddiaeth Iechyd Atgenhedlol a Rhywiol Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Mae'n cynnwys 15 o gwestiynau sy'n ymchwilio i fregusrwydd a dangosyddion risg posibl am gamfanteisio'n rhywiol ar blant. Mae'r cwestiynau'n ymwneud â pherthynas person ifanc â'i bartner, neu'r sawl y maent yn cael rhyw ag ef, yn ogystal â ffactorau mewn perthynas â'r cartref, cymdeithas ac addysg. Disgwylir i glinigwyr gwblhau'r holiadur yn ystod pob ymweliad sy’n fwy na phedair wythnos ar ôl yr ymweliad blaenorol. Cwblheir teclyn byrrach, a chanddo bedwar cwestiwn, yn ystod pob ymweliad. Mae hyn yn darparu ar gyfer y gwaith o nodi bregusrwydd neu risg o gamfanteisio'n rhywiol ar blant yn gynnar fel y gellir atgyfeirio plant am asesiad gan y gwasanaethau cymdeithasol i atal camdriniaeth cyn iddi ddigwydd neu i atal camdriniaeth barhaus pan fydd plant eisoes yn destun camfanteisio rhywiol. Yn ôl ymchwil, mae rhestr wirio'r holiadur yn galluogi gweithwyr iechyd proffesiynol i ymchwilio'n gyflym i risg person ifanc o gamfanteisio'n rhywiol ar blant, gan ganiatáu atgyfeiriad cyflym am gymorth ac asesiad pellach. Ar y cyfan, mae'r bobl ifanc eu hunain a'r staff sy'n ei gwblhau yn ei dderbyn.

**Cymuned**

118. Cymru gydnerth yw un o saith nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ‘Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol’[75] yn 2017, sy'n nodi'n fwy manwl sut y bydd yn cyflawni ymrwymiadau’r Rhaglen Lywodraethu, ‘Symud Cymru Ymlaen’,[76] yng nghyd-destun hirdymor gweithio gyda gwasanaeth cyhoeddus ehangach Cymru i osod sylfeini tuag at gyflawni ffyniant i bawb. Mae'r strategaeth genedlaethol yn cynnwys yr uchelgais i ddatblygu cymunedau gwydn. Mae hyn yn cynnwys gwaith i ddatblygu capasiti cymunedau fel mannau sy'n hybu gwell iechyd a llesiant ac i wella'r ffordd yr ydym yn gweithio gyda grwpiau cymunedol a'r heddlu i ddatblygu cymunedau diogelach.

119. Gall gwasanaethau sy'n gweithredu yn y cymunedau lle mae plant yn byw ddarparu cyfleoedd cymdeithasol cadarnhaol a hybu llesiant a hunan-hyder plant. Mae hyn, yn ei dro, yn datblygu eu gwydnwch ac yn eu gwneud yn llai agored i gamfanteisio’n rhywiol ar blant gan droseddwyr sy'n camfanteisio ar ddiffyg hunan-hyder a llesiant gwael i gam-drin plant.

**Mannau diogelach**

120. Mae ymchwil ar ymagwedd beilot i ddiogelu mewn mannau cyhoeddus a wnaed gan Safer London (2017) yn awgrymu bod angen inni gynnwys mannau cyhoeddus yn y fframwaith diogelu er mwyn cymryd camau priodol i amddiffyn plant. Mae angen ymyriadau, ynghyd â chymorth, yn y lleoedd lle mae plant yn cymdeithasu ac yn treulio amser, megis canolfannau siopa a chanolfannau trafnidiaeth.[77]

121. Gwyddys bod troseddwyr camfanteisio'n rhywiol ar blant yn defnyddio allfeydd bwyd brys, cwmnïoedd tacsi ac ystafelloedd mewn gwestai i hwyluso a chynnal cam-drin. Mae ymchwil[78] yn awgrymu bod angen darparu gwybodaeth a chanllawiau sy'n codi ymwybyddiaeth ac sy'n benodol i'r diwydiant ar gyfer gweithwyr yr economi gyda'r nos ar yr arwyddion rhybuddio o gamfanteisio'n rhywiol ar blant ac ar yr hyn i'w wneud 'os na fydd rhywbeth yn taro deuddeg'. Mae'r ymchwil yn argymell targedu ymdrechion i godi ymwybyddiaeth ar weithwyr yr economi gyda'r nos a allai fod â chysylltiad agos neu reolaidd â phlant sydd mewn perygl o gamfanteisio'n rhywiol ar blant, ond nad ydynt, o bosib, yn ystyried mynd i'r afael â hyn yn rhan o'u rôl ar hyn o bryd; cydlynu â chyrff cynrychioladol ar gyfer diwydiannau allweddol gyda'r nos, i sbarduno galw mewnol am wybodaeth, canllawiau a gwaith codi ymwybyddiaeth ac i hybu'r ddarpariaeth barhaus o hyfforddiant a gwaith rhannu gwybodaeth; cyfleu yn fwy cyffredinol i weithwyr ac i'r cyhoedd fod 'cadw golwg' ar les plant yn yr economi gyda'r nos yn gyfrifoldeb cyffredinol; a defnyddio ymgyrchoedd i bwysleisio'r neges y gall unrhyw un godi pryderon gyda'r cyrff priodol. Mae gan gamau, megis y cam hwn gan awdurdodau lleol a'u partneriaid, y potensial i atal achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant rhag digwydd yn y lle cyntaf ac i nodi plant sy'n wynebu risg o gamdriniaeth a'r rheini sydd eisoes yn destun camfanteisio rhywiol fel y gellir gweithredu i roi diwedd ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant.

**Ymgyrch PLANTDIOGEL – Mynd i'r afael â cham-drin plant yn rhywiol a chamfanteisio'n rhywiol arnynt**

Lansiwyd Ymgyrch PlantDiogel gan Heddlu Gwent yn 2017. Menter yw Ymgyrch PlantDiogel sy'n canolbwyntio ar sicrhau bod pobl sy'n gweithio yn y sector busnes yn ymwybodol o arwyddion rhybudd cynnar camfanteisio'n rhywiol ar blant. Dengys tystiolaeth leol a chenedlaethol fod camfanteisio'n rhywiol ar blant yn gallu digwydd mewn gwestai, tafarndai, caffis, a lleoedd sydd wedi'u trwyddedu i werthu alcohol. Gall tacsis hefyd gael eu defnyddio i gludo pobl ifanc i leoliadau lle y bydd unigolion yn camfanteisio'n rhywiol arnynt. Mae'r ymgyrch hon yn gweithio i sicrhau y gall pobl sy'n gweithio yn yr amgylcheddau hyn weld yr arwyddion rhybudd a bod yn ddigon hyderus i roi gwybod am eu pryderon yn ddidrafferth.
https://www.gwent.police.uk/cy/newyddion/gweithrediadau-ac-ymgyrchoedd/operation-makesafe/

122. Mae'r adroddiad annibynnol ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant ym Manceinion Fwyaf gan Ann Coffey AS (2014)[79] yn awgrymu bod ymgysylltu cymunedol yn elfen allweddol o atal a nodi camfanteisio'n rhywiol ar blant. Mae'r adroddiad yn nodi bod gweithio gyda'r holl wahanol gymunedau a magu ymddiriedaeth ynddynt yn hanfodol i'r

heddlu allu amddiffyn plant mewn cymunedau o bobl wyn, pobl dduon ac Asiaidd, a phobl o leiafrifoedd ethnig sy'n gymdeithasol ddifreintiedig a datgysylltiedig. Mae Coffey'n awgrymu bod angen gwell dealltwriaeth ar y cyhoedd o'r hyn i edrych amdano mewn achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant yn eu cymdogaethau, a dyna pam mae'n bwysig darparu gwybodaeth i gymunedau am natur camfanteisio'n rhywiol ar blant yn eu hardaloedd lleol fel y gallant nodi arwyddion yn gynnar. Gan hynny, gall gwella ymwybyddiaeth y cyhoedd fod yn effeithiol wrth gynorthwyo'r heddlu a diogelu plant.

Llinell gymorth gyfrinachol a gwasanaeth rhadffôn yw **Stop it Now!**, sydd ar gael i unrhyw un sydd â phryderon mewn perthynas â cham-drin plant yn rhywiol. Fe'i darperir gan Sefydliad Lucy Faithfull ac mae'n ymateb i'r canlynol:

- oedolion sy'n pryderu am ymddygiad oedolion eraill neu blant a phobl ifanc
- y rheini sy'n pryderu am eu meddyliau rhywiol neu ymddygiad eu hunain tuag at blant, gan gynnwys y rheini sydd â phryderon ynglŷn â'u hymddygiad eu hunain ar-lein
- ffrindiau a pherthnasau pobl a arestiwyd am droseddau rhywiol, gan gynnwys troseddu ar-lein
- unrhyw oedolyn arall sy'n pryderu am gam-drin plant yn rhywiol – gan gynnwys goroeswyr a gweithwyr proffesiynol

Gall ymgynghorwyr profiadol gynnig cyngor cyfrinachol.

https://www.lucyfaithfull.org.uk/stop-it-now-helpline-campaign.htm

### Y Gwasanaeth Ieuenctid

123. Cyhoeddwyd adolygiad dan arweiniad Margaret Jervis, 'Ein Dyfodol', yn 2018[80] sy'n nodi bod gwaith ieuenctid (ar ei holl ffurfiau amrywiol) yn gweithredu o safbwynt canolbwyntio ar gyfleoedd, gan ystyried pobl ifanc yn gyfannol fel rhai sydd ganddynt botensial gwych.

124. Daeth adolygiad o Strategaeth Genedlaethol Gwaith Ieuenctid bresennol Llywodraeth Cymru[81] i'r casgliad fod gwaith ieuenctid yng Nghymru'n parhau i ymrwymo i ddatblygu pobl ifanc yn gymdeithasol, yn addysgol, yn emosiynol ac yn wleidyddol a bod llawer o arloesedd ac arfer da sydd yn haeddu cael eu dathlu. Bydd canfyddiadau'r ymchwil hon, ynghyd â'r argymhellion ategol, yn darparu tystiolaeth i Lywodraeth Cymru a'r Grŵp Cyfeirio Gwaith Ieuenctid a ddefnyddir i lywio'r gwaith o ddatblygu strategaeth ddrafft newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer gwaith ieuenctid.

125. Mae'r egwyddorion sydd wrth wraidd gwaith ieuenctid yn golygu bod y Gwasanaeth Ieuenctid mewn sefyllfa dda i ymgysylltu mewn ffordd ystyrlon â phlant a allai fod yn agored i gamfanteisio'n rhywiol ar blant neu sydd mewn perygl ohono. Mae tystiolaeth o ymarfer wedi awgrymu y gall hyn fod yn ffactor amddiffynnol pwysig wrth leihau risgiau plant o fod yn destun camfanteisio rhywiol fel rhan o becyn cymorth amlasiantaeth.

**Cymorth i Bobl Ifanc Torfaen**

Mae Gwasanaeth Cymorth i Bobl Ifanc Torfaen yn cynorthwyo pobl ifanc agored i niwed (rhwng 16 ac 21 oed ond hyd at 25 oed i bobl mewn addysg uwch sy'n gadael gofal), gan gynnwys y rheini y gofalir amdanynt neu bobl sy'n gadael gofal neu bobl sydd ag anghenion gofal a chymorth; pobl ddigartref; pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET); pobl ddatgysylltiedig y mae angen cymorth arnynt; pobl sydd ag anghenion iechyd meddwl; a phobl sydd ag anghenion camddefnyddio sylweddau.Hefyd, maent yn rhoi cyngor dybryd a/neu gymorth i bob person ifanc (dan 21 oed).Ymhlith y gweithwyr proffesiynol sy'n cydweithio mae tîm 16+ Torfaen, nyrs seiciatrig gymunedol y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS), cydlynydd cynllun mentora 16+, Gwasanaeth Ieuenctid Torfaen, prosiect Emphasis, a thimau tai a digartrefedd.

http://www.asdinfowales.co.uk/torfaen-young-peoples-support-service/

**Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid**

126. Nodwyd profiadau niweidiol yn ystod plentyndod fel ffactor risg allweddol ar gyfer troseddu ac ar gyfer erledigaeth.[82] Hefyd, mae cysylltiad sefydledig rhwng y perygl o gamfanteisio'n rhywiol ar blant ac ymwneud â'r system troseddau ieuenctid.

127. Mae ymchwil wedi awgrymu bod gwahaniaethau sylweddol rhwng bechgyn a merched sy'n cael cymorth gwasanaethau camfanteisio'n rhywiol ar blant mewn perthynas â throseddau ieuenctid: roedd gan 48% o fechgyn gofnod o droseddau ieuenctid, o'i gymharu â 28% o ferched.[83] Mae cyfran y merched yn yr ymchwil sydd â hanes o droseddau ieuenctid yn sylweddol uwch na chyfran y merched yng nghyfanswm y boblogaeth sydd â hanes o droseddau ieuenctid, ac yn ôl astudiaeth ddiweddar,[84] a gynhaliwyd yng Nghymru ac yn ne-orllewin Lloegr, roedd ychydig dros hanner (52%) y bechgyn yn cael cymorth yn sgil camfanteisio'n rhywiol ar blant.

128. Mae strategaeth ar y cyd Llywodraeth Cymru / y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid[85], i wella gwasanaethau i bobl ifanc o Gymru sydd ynghlwm wrth y system cyfiawnder ieuenctid, neu sydd mewn perygl o wneud hynny, yn nodi y disgwylir i blant sydd mewn perygl o fynd i mewn i'r system cyfiawnder troseddol, boed yn ymwneud â gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid statudol neu'n eu gadael, allu manteisio ar wasanaethau cymorth, waeth ble maent yn byw yng Nghymru. Hefyd, mae'r strategaeth yn nodi y dylai gwasanaethau gydweithio i ddarparu cymorth cydlynol, amlasiantaeth a chofleidiol sy'n gyson ledled Cymru fel na fydd pobl yn mynd yn sownd mewn 'bylchau mewn gwasanaeth' neu symud yn ôl ac ymlaen rhwng gwasanaethau lle mae anghydfod mewn perthynas â phwy sy'n gyfrifol am ddarparu'r cymorth perthnasol.

129. Mae Llywodraeth Cymru[86] a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi cyhoeddi glasbrint ar gyfer cyfiawnder ieuenctid, sy'n nodi prif ddyheadau ac egwyddorion arweiniol Cymru ar gyfer pobl ifanc sydd yn y system cyfiawnder troseddol neu sydd mewn

perygl o fod ynddi. Gan ganolbwyntio ar ymyrraeth gynnar a gwaith atal, mae'r glasbrint yn argymell dull cyfannol ac adsefydlu i gyfeirio pobl o droseddu ac i gynorthwyo'r rheini yn y system cyfiawnder troseddol.

**Y dull Rheoli Achosion Uwch o weithio gyda phobl ifanc sydd â phrofiad o'r system cyfiawnder ieuenctid**

Gweithiodd Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Llywodraeth Cymru gyda phedwar tîm troseddwyr ifanc (cyn cael eu cwtogi i dri) a'r Gwasanaeth Triniaeth ac Ymgynghori Fforensig y Glasoed Cymru Gyfan i dreialu dull Rheoli Achosion Uwch newydd o weithio gyda phobl ifanc a oedd mewn cyswllt â'r system cyfiawnder ieuenctid. Roedd y dull hwn yn seiliedig ar y model adfer ar ôl trawma a'i fwriad oedd:

- Darparu gwell gwybodaeth a dealltwriaeth i ymarferwyr a rheolwyr timau troseddwyr ifanc mewn perthynas â sut y gall digwyddiadau cynnar yn ymwneud ag ymlyniad, trawma a phrofiadau niweidiol effeithio ar allu person ifanc i gymryd rhan yn effeithiol mewn ymyriadau cyfiawnder ieuenctid.

- Darparu dull dan arweiniad seicoleg o gynllunio ymyriadau a ffurfio achosion amlasiantaeth. Byddai hyn, yn ei dro, yn galluogi staff cyfiawnder ieuenctid i deilwra a threfnu ymyriadau'n fwy effeithiol yn unol ag anghenion datblygiadol ac anghenion iechyd meddwl y bobl ifanc unigol.

Dangosodd gwerthusiad welliannau o dan y dull Rheoli Achosion Uwch, a oedd yn hybu gwelliannau mewn perthnasau, lefelau uwch o ymgysylltu, a gwell canlyniadau i bobl ifanc.

https://gweddill.gov.wales/docs/caecd/research/2017/170328-evaluation-enhanced-case-management-approach-summary-cy.pdf

**Gwasanaethau plant coll**

130. Mae'r cysylltiad rhwng camfanteisio'n rhywiol ar blant a phlant yn mynd ar goll yn annatod gan fod mynd ar goll yn gallu bod yn achos ac yn ganlyniad o fod yn destun camfanteisio rhywiol. Mae tystiolaeth o ymarfer ac ymchwil a sefydlwyd yn dangos cydberthyniad cryf rhwng plant yn mynd ar goll a'r perygl o gamfanteisio'n rhywiol ar blant.[87]

131. Canfu ymchwil a wnaed yng Nghymru fod plant yn mynd ar goll am nifer o resymau rhyngberthynol: er mwyn dianc rhag gwrthdaro, gan eu bod yn teimlo'n emosiynol ynysig, gan ei fod yn gyffrous, er mwyn treulio amser gyda phobl ifanc eraill, neu yn sgil perthynas ag oedolyn sy'n magu perthynas amhriodol â nhw neu sy'n eu cam-drin. Pan fydd plant yn mynd ar goll, byddant yn ei chael yn anodd cael arian, bwyd a rhywle diogel i aros, maent yn profi gwrthdaro â phlant eraill, ac maent mewn perygl o fagu perthynas amhriodol ag oedolyn a bod yn destun camfanteisio ac ymosodiad rhywiol. Pan fydd plant yn dychwelyd ar ôl mynd ar goll, byddant yn pryderu ynglŷn ag ymatebion rhieni, gofalwyr a staff preswyl.

132. Mewn rhai amgylchiadau, bydd plant yn fwy tebygol o fynd ar goll na'u cyfoedion. Mae plant sy'n derbyn gofal deirgwaith yn fwy tebygol o fynd ar goll na

phlant eraill.[88] Mae plant a leolir y tu hwnt i'w hardal leol mewn perygl arbennig o fynd ar goll.[89] Ar 31 Ionawr 2016, cyhoeddodd Europol nad oedd cofnod o 10,000 o blant digwmni ar ôl cyrraedd Ewrop, ac ofnid bod llawer ohonynt yn destun camfanteisio neu gam-drin at ddibenion rhywiol neu lafur.[90] Amcangyfrifir bod 60% o blant yr amheuir eu bod yn cael eu masnachu mewn gofal awdurdod lleol yn mynd ar goll.[91]

133. Mewn rhai ardaloedd o Gymru, mae gweithwyr ym maes plant coll yn y trydydd sector yn gweithio mewn partneriaeth â'r heddlu. Maent yn darparu gwasanaethau penodol i ddarparu *cyfweliadau dychwelyd adref* ac ôl-ofal i blant mewn amgylchiadau penodol. Hefyd, gallent weithio gyda phlentyn i'w gwneud yn llai tebygol y bydd yn mynd ar goll yn y dyfodol. Mae ymyrryd pan fydd plentyn yn dechrau mynd ar goll yn gyntaf yn gyfle i ddeall yr hyn sy'n digwydd ym mywyd y plentyn, darparu cymorth cynnar, a'i wneud yn llai tebygol o fynd ar goll yn y dyfodol. Yn ei dro, gall hyn atal y risg y bydd plentyn yn destun camfanteisio'n rhywiol ar blant eto neu yn y lle cyntaf.

**Datblygu'r gweithlu**

134. Cododd pobl ifanc a gymerodd ran yn yr adolygiad o bolisïau ac ymarfer cyfredol camfanteisio'n rhywiol ar blant yng Nghymru, a gynhaliwyd gan Hallett ac eraill (2017),[92] bryderon ynglŷn â pheidio ag adrodd ymddygiad neu achosion gan nad oeddent yn ymddiried yn y gweithwyr neu'r heddlu, neu gan nad oedd ganddynt berthynas dda â nhw. Dywedodd un cyfranogwr mai'r unig reswm yr oedd yn gwybod bod cyfarfod amdano yn cael ei gynnal oedd oherwydd ffoniodd rhywun i ofyn am rif ffôn ei weithiwr cymdeithasol. O ganlyniad i'r achos hwn, nid oedd yn ymddiried yn yr un o'i weithwyr ac nid oedd yn eu credu pan oeddent yn pwysleisio iddo y byddai'r hyn a ddywedai yn gyfrinachol:

> "Ti'n gwybod beth i'w wneud tro nesa, on'd wyt ti? Paid â dweud dim wrthyn nhw!"
>
> "Ie, well 'nes i stopio dweud popeth wrthyn nhw!"
>
> "Ti'n dysgu hwnna pan ti'n ifanc."
>
> "Ie, ti'n dysgu o dy gamgymeriadau."

135. Nododd y plant y siaradodd Ann Coffey MP â nhw fel rhan o'i hadroddiad ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant ym Manceinion Fwyaf (2014)[93] broblemau tebyg pan siaradodd plant am eu diffyg ymddiriedaeth mewn sawl asiantaeth wahanol:

> "Doedd neb yn becso nac yn gwrando, ond phan oeddwn i'n ceisio dweud pethau wrth yr athro, dywedodd hi fod nhw'n rhy brysur a dywedodd 'shŵ'. Dyw hi ddim yn iawn; mae angen i athrawon fynd at blentyn a chynnig help" (menyw ifanc yn disgrifio sut ceisiodd esbonio ei hymddygiad yn yr ysgol yn sgil ei thad yn ei cham-drin).

> “Maen nhw'n edrych i lawr arnom ni felly fydden ni ddim yn mynd atyn nhw am gymorth. Rydyn ni'n cael ein beirniadu a dydyn nhw ddim yn gwneud eu swydd yn gywir” (wrth siarad am yr heddlu).
>
> “Erbyn hyn, does dim modd ymddiried yn neb. Felly os ydych chi'n cadw fe i chi'ch hun, gallwch chi ymddiried yn eich hun” (person ifanc sydd â phrofiad o ofal yn siarad am weithwyr cymdeithasol).

136. Dylai pawb sy'n dod i gysylltiad â phlant yn broffesiynol neu'n wirfoddol fabwysiadu Ymagwedd Hawliau Plant yn y modd y mae'n ymdrin â phlant ac yn dilyn y Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol. Rhaid i blant allu ymddiried bod yr oedolion sy'n gweithio gyda nhw yn barod i wrando arnynt, i ystyried eu barn o ddifrif, ac i weithredu ar unrhyw bryderon y mae plant yn eu rhannu â nhw. Hefyd, dylai plant fod yn rhan o'r penderfyniadau sy'n effeithio arnynt gymaint â phosibl.

137. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynorthwyo'r gwaith o sefydlu Hyb Cymorth ACE Cymru i helpu i fynd i'r afael â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Nod yr hyb yw bod yn ganolfan o ragoriaeth, gwybodaeth ac arbenigedd ar brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod i sefydliadau, cymunedau ac unigolion ledled Cymru. Mae'r hyb yn cynnal sesiynau codi ymwybyddiaeth cyffredinol a hyfforddiant penodol i sectorau ledled Cymru i sicrhau y gall ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol fod yn ymwybodol o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod a deall ymarfer a lywir gan drawma. Bwriad hyn yw newid y ffordd y mae'r rheini sy'n gweithio gyda phlant (ac oedolion) yn deall ymddygiadau y gellir eu hystyried yn anodd ac yn heriol. Gall ymagwedd a lywir gan drawma wella'r ffordd y mae ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol ar draws asiantaethau'n ymgysylltu ac yn rhyngweithio â phlant, gan arwain at ymatebion mwy cadarnhaol a deallus i leihau bregusrwydd a hybu gwydnwch.

138. Hefyd, mae angen i bawb sy'n dod i gysylltiad â phlant yn broffesiynol neu'n wirfoddol allu manteisio ar hyfforddiant sy'n briodol i'w rôl, fel eu bod yn gymwys i gydnabod y bregusrwydd sy’n gysylltiedig â'r risg o gamfanteisio'n rhywiol ar blant, nodi ei arwyddion, ac ymateb yn briodol iddo. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant i sicrhau bod ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol perthnasol yn gyfarwydd â chynnwys y strategaeth hon, cynnwys Gweithdrefnau Diogelu Cymru a chynnwys Canllawiau Ymarfer Cymru Gyfan.

Pennod 3

## Ymateb i gamfanteisio'n rhywiol ar blant – gweithdrefnau diogelu

**Crynodeb:**

- Rhaid i ymarferwyr barhau i ddilyn gweithdrefnau diogelu wrth ystyried plant sy'n wynebu'r risg o gamfanteisio'n rhywiol ar blant neu sydd wedi'u cam-drin yn y ffordd hon. Mae ymroddiad i barhau i ganolbwyntio ar blant wrth ddilyn gweithdrefnau sy'n cefnogi arfer cyson yn hanfodol. Dylai plant gymryd rhan yn y broses o gynllunio eu hanghenion gofal a chymorth.

- Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn nodi dull cyson ar gyfer diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl ledled Cymru.

- Mae nifer o Ganllawiau Ymarfer Cymru Gyfan wedi'u datblygu mewn perthynas â phlant mewn amgylchiadau diogelu penodol a dylai'r rhain gael eu defnyddio ar y cyd â Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys Canllawiau Ymarfer Cymru Gyfan ar ddiogelu plant sy'n wynebu risg o gamfanteisio'n rhywiol ar blant a Chanllawiau Ymarfer Cymru Gyfan eraill ar faterion diogelu cysylltiedig.

139. Mae Rhan 7 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn darparu fframwaith ar gyfer diogelu plant ac oedolion yng Nghymru. Dylai ymarferwyr fod yn gyfarwydd â chynnwys Rhan 7 o'r Ddeddf a deall eu rolau a'u cyfrifoldebau o dan y ddeddfwriaeth. Mae dyletswydd statudol i adrodd am blant sy'n wynebu risg dan adran 130 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Crynodeb Diogelu o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

140. Datblygwyd Gweithdrefnau Diogelu Cymru gyda'r chwe bwrdd diogelu yng Nghymru ac ar eu rhan. Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn nodi dull cyson ar gyfer diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl ledled Cymru.

141. Mae nifer o Ganllawiau Ymarfer Cymru Gyfan wedi'u datblygu mewn perthynas â phlant mewn amgylchiadau diogelu penodol a dylai'r rhain gael eu defnyddio ar y cyd â Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys Canllawiau Ymarfer Cymru Gyfan ar ddiogelu plant sy'n wynebu risg o gamfanteisio'n rhywiol ar blant a Chanllawiau Ymarfer Cymru Gyfan eraill ar faterion cysylltiedig.

142. Gwyddom y gallai plant y camfanteisir arnynt yn rhywiol yn mynd ar goll, cael eu masnachu, cael eu cam-drin, neu fod yn destun camfanteisio a/neu fagu perthynas amhriodol ar-lein, a bod camfanteisio'n droseddol ar blant a chamfanteisio'n rhywiol ar blant yn gorymylu ar ei gilydd ac y gallai rhai plant ddangos ymddygiad rhywiol niweidiol a chael eu herlid trwy gamfanteisio'n rhywiol ar blant.

- Canllawiau Ymarfer Cymru Gyfan – diogelu plant sydd mewn perygl o gamfanteisio'n rhywiol ar blant

- Canllawiau Ymarfer Cymru Gyfan – diogelu plant sy'n mynd ar goll o'r cartref neu o wasanaeth gofal
- Canllawiau Ymarfer Cymru Gyfan – diogelu plant a allai fod wedi cael eu masnachu
- Canllawiau Ymarfer Cymru Gyfan – diogelu plant rhag camfanteisio troseddol ar blant
- Canllawiau Ymarfer Cymru Gyfan – diogelu plant rhag cael eu cam-drin ar-lein
- Canllawiau Ymarfer Cymru Gyfan – diogelu plant pan fo pryderon am ymddygiad rhywiol niweidiol

143. Mae ymagwedd sy'n canolbwyntio ar y plentyn yn golygu y dylai ymarferwyr fod yn ymwybodol o natur ryngberthynol camfanteisio'n rhywiol ar blant â ffurfiau eraill o risg a cham-drin wrth ystyried achosion a gyfeiriwyd yn sgil pryderon mewn perthynas â niwed oherwydd risg o gamfanteisio'n rhywiol ar blant.

144. Mae'n rhaid i asiantaethau weithio gyda'i gilydd i ddarparu ymateb cydgysylltiedig i faterion diogelu, fel y nodir yng Ngweithdrefnau Diogelu Cymru.

145. Mae rhannu gwybodaeth yn ganolog i ymarfer diogelu da. Mae'n rhaid i ymarferwyr rannu gwybodaeth yn unol â deddfwriaeth diogelu data. Mae deddfwriaeth diogelu data'n caniatáu rhannu gwybodaeth ac ni ddylai gael ei defnyddio'n awtomatig fel rheswm am beidio â gwneud hynny.**Un o'r amgylchiadau penodol sy'n caniatáu rhannu gwybodaeth yw atal camdriniaeth neu niwed difrifol i eraill.**Pan nad yw gwybodaeth yn cael ei rhannu mewn modd amserol ac effeithiol, gall penderfyniadau am sut i ymateb fod yn ddi-sail a gall hyn arwain at ymarfer diogelu gwael a gadael i blant fod mewn perygl o niwed. Dylid dilyn y cyngor ar wahân, *Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl – Cyngor anstatudol ar rannu gwybodaeth i ddiogelu plant*.

146. Rhaid i'n hymateb i faterion diogelu fod yn gymesur, gan ganolbwyntio ar y plentyn, a bod yn seiliedig ar ei anghenion ac amgylchiadau unigol. Mae angen i blant gymryd rhan ystyrlon wrth gynllunio eu gofal a'u cymorth.

147. Mae gan staff rheng flaen penodol sy'n dod ar draws dioddefwr posib caethwasiaeth fodern neu fasnachu pobl ddyletswydd i hysbysu'r Swyddfa Gartref o dan adran 52 o Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015. Mae'r gofyniad hwn yn berthnasol i'r heddlu, awdurdodau lleol, yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, a'r Awdurdod Meistri Gangiau a Chamddefnyddio Llafur.

**Ymateb cymesur**

148. Os yw'r plentyn mewn perygl ar unwaith neu yr ydych yn tybio y bydd yn mynd ar goll cyn bod modd sicrhau ei ddiogelwch, ffoniwch yr heddlu ar 999.

149. Os oes gan unrhyw asiantaeth sy'n rhan o achos y plentyn bryderon fod gan y plentyn anghenion gofal a chymorth na all ei riant/rhieni neu ofalwr/gofalwyr eu diwallu heb gefnogaeth, dylai gael caniatâd gan y rhieni i atgyfeirio'r plentyn i wasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth yr awdurdod lleol cartref am asesiad o'i anghenion.

150. Mae gan bartneriaid perthnasol ddyletswydd i adrodd am blant sy'n wynebu risg (adran 130) o dan Ran 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Yn adran 130(4), diffiniad "plentyn sy'n wynebu risg" yw plentyn:

a) sy'n cael, neu sy'n wynebu risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso neu ddioddef mathau eraill o niwed; a
b) y mae arno anghenion am ofal a chymorth (p'un a yw'r awdurdod lleol yn diwallu unrhyw rai o'r anghenion hynny ai peidio).

Pan fydd rhywun yn adrodd am blentyn o dan adran 130, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ystyried a oes achos i gynnal ymholiadau o dan adran 47 o Ddeddf Plant 1989 (ymholiad adran 47).

151. Os bydd y gwasanaethau cymdeithasol yn penderfynu nad yw'r adroddiad/atgyfeiriad a gafwyd yn ymwneud â phlentyn mewn perygl, byddant yn cofnodi hyn a'r rhesymeg dros eu penderfyniad.

152. Dylai gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol lle lleolir y plentyn benderfynu ar sail y dystiolaeth a ddylid cynnal trafodaeth strategaeth amlasiantaeth i lywio penderfyniad ar ymateb i'r plentyn, gan gynnwys a ddylid cynnal cyfarfod strategaeth amlasiantaeth ai peidio. Dylai cynrychiolwyr pob awdurdod lleol sy'n berthnasol i'r plentyn ac unrhyw Wasanaeth Troseddau Ieuenctid sy'n berthnasol i'r plentyn fod yn rhan o'r drafodaeth strategaeth amlasiantaeth. Ni ddylai fod unrhyw oedi wrth ymateb i wybodaeth am blentyn mewn perygl oherwydd nad yw'r plentyn yn preswylio fel arfer yn yr awdurdod lleol lle nodir y mater diogelu.

153. Os yw'r asesiad cychwynnol neu'r drafodaeth strategaeth amlasiantaeth yn dangos nad oes unrhyw sail i symud ymlaen at gynnal cyfarfod strategaeth neu ymchwiliad adran 47, dylid ystyried gwneud atgyfeiriad ar gyfer gwaith ataliol er mwyn lleihau'r tebygolrwydd o niwed yn y dyfodol.

154. Pan fydd cynllun gofal a chymorth neu gynllun amddiffyn plant eisoes ar waith, neu os yw'n blentyn sy'n derbyn gofal neu mewn sefydliad diogel, dylid cynnal trafodaeth strategaeth amlasiantaeth i benderfynu a oes angen cynnal cyfarfod strategaeth i lywio'r gwaith o ddatblygu neu adolygu cynllun ar gyfer y plentyn.

155. Mae'r trefniadau ar gyfer cynnal cyfarfod strategaeth wedi'u nodi yng Ngweithdrefnau Diogelu Cymru ac yn nogfen Llywodraeth Cymru Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 5 – Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Plant sy'n Wynebu Risg, a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Lle y bo'n bosibl, dylai'r ymarferwyr sy'n mynychu'r cyfarfod strategaeth feddu ar wybodaeth uniongyrchol am y plentyn. Fodd bynnag, cydnabyddir y bydd rhai asiantaethau'n dod i gysylltiad â phlentyn am y tro cyntaf o ganlyniad i'r materion sy'n cael eu hystyried yn ystod y cyfarfod strategaeth.

156. Dylai'r cyfarfod strategaeth ystyried a oes unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth sy'n ymwneud â'r plentyn sy'n awgrymu bod materion diogelu penodol eraill y mae angen eu hystyried yn ogystal â'r mater diogelu pennaf sydd wedi codi. **Dylai'r**

**cyfarfod strategaeth ganolbwyntio ar y plentyn yn hytrach na chanolbwyntio ar broblemau.**

157. Hefyd, dylai'r gwasanaethau cymdeithasol gyfeirio at y Canllawiau Ymarfer Cymru Gyfan a gyhoeddwyd gyda Gweithdrefnau Diogelu Cymru ar unrhyw faterion perthnasol cysylltiedig megis mynd ar goll o'r cartref neu o wasanaethau ofal, masnachu plant, camfanteisio'n droseddol ar blant neu ymddygiad rhywiol niweidiol.

158. **Rhaid** atgyfeirio pob plentyn y nodir ei fod o bosib wedi cael ei fasnachu i Eiriolwyr Masnachu Plant Annibynnol Barnado's a bydd y gwasanaeth hwnnw'n clustnodi'r achos am gymorth uniongyrchol i'r plentyn neu am gymorth trwy ei Gydlynydd Ymarfer Rhanbarthol. Gallai gwneud atgyfeiriad yn gyflym ar ôl nodi'r angen olygu lleihau nifer y plant sy'n mynd ar goll ac sy'n cael eu hailfasnachu.

159. **Mae'n rhaid i'r cyfarfod strategaeth arwain at set gytunedig o gamau gweithredu i lywio'r gwaith o ddatblygu neu adolygu cynllun amddiffyn plant a/neu gynllun gofal a chymorth i'r plentyn.** Mae'n rhaid i'r cynllun hwn sicrhau anghenion cyfannol y plentyn er mwyn hyrwyddo llesiant ac atal niwed yn y dyfodol ac ni ddylai ganolbwyntio'n gyfan gwbl ar reoli risgiau.

160. Pan ddaw cyfarfod strategaeth i benderfyniad nad oes angen cynllun, dylai'r sail resymegol dros y penderfyniad hwn gael ei gofnodi a dylid rhoi ystyriaeth i wneud atgyfeiriad at wasanaethau ataliol.

161. Mae hawl gan blant a phobl ifanc i gynnig gweithredol o eiriolaeth gan eiriolwr proffesiynol annibynnol statudol pan fyddant yn derbyn gofal neu pan fyddant yn destun ymholiadau amddiffyn plant sy'n arwain at Gynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol. Gwneir y **'cynnig gweithredol'** yn uniongyrchol i'r plant gan y gwasanaeth eirioli. 'Cynnig gweithredol' yw'r broses o rannu gwybodaeth ynglŷn â hawl statudol plentyn mewn amgylchiadau penodol i gael cymorth gan wasanaeth eirioli proffesiynol annibynnol. Dylai gwybodaeth gael ei rhannu gyda'r plentyn sy'n cynnwys esboniad am rôl eiriolaeth broffesiynol annibynnol, yr hyn y gall ei wneud a'r hyn na all ei wneud, sut mae'n gweithredu yn seiliedig ar ei ddymuniadau a'i deimladau, ei hannibyniaeth a sut mae'n gweithio ar gyfer y plentyn / person ifanc yn unig, a'i pholisi ar gyfrinachedd a niwed arwyddocaol – mae'n esbonio hawl statudol plant a phobl ifanc i gael eu cefnogi i fynegi eu barn, eu dymuniadau a'u teimladau yn ogystal â'u hawl i gyflwyno sylwadau neu i gwyno.

### Cynllunio ar gyfer plentyn wrth iddo gyrraedd 18 oed

162. Ni fydd rhai plant yn cael eu nodi fel rhai sydd wedi cael eu cam-drin trwy gamfanteisio'n rhywiol ar blant neu fel dioddefwyr masnachu nes eu bod yn hŷn. **Bydd dyletswyddau amddiffyn plant yn parhau i fod yn berthnasol iddynt hyd nes iddynt gyrraedd eu pen-blwydd yn 18 oed.**

163. Bydd rhai plant yn dal i fod mewn perygl o wynebu trais rhywiol ac o ddioddef camfanteisio fel oedolion. Mae'n bwysig fod cynllunio ar gyfer y plentyn yn cynnwys atgyfeiriad amserol i wasanaethau i oedolion wrth i'w ben-blwydd yn 18 oed yn nesáu.

Os yw'r plentyn yn derbyn gofal, yna dylai'r materion hyn gael eu hystyried fel rhan o'r broses cynllunio llwybr.

164. Dylai trefniadau gael eu gwneud i'r achos gael ei adrodd fel oedolyn mewn perygl o dan adran 128 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

165. Dylai ystyriaeth gael ei rhoi i ganfod p'un a yw'r achos yn briodol i gael ei atgyfeirio i BAWSO 0800 731 8147, Llwybrau Newydd 01685 379 310 (canolbarth, gorllewin a de Cymru) neu linell gymorth neu wefan Byw Heb Ofn 0808 80 10 800 http://bywhebofn.llyw.cymru. Gallant ddarparu cefnogaeth i oedolion sydd wedi dioddef masnachu, caethwasiaeth fodern, a thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar wefan Byw Heb Ofn.

166. O dan adran 70 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014, mae gan bobl sy'n gadael gofal a phersonau sydd mewn perygl arbennig o gamfanteisio rhywiol neu ariannol, sy'n 18 oed neu'n hŷn ond yn iau na 21 oed, angen blaenoriaeth am lety ac mae dyletswydd ar yr awdurdod lleol i sicrhau llety addas o dan adran 75 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 i'r rheini sydd ag angen blaenoriaeth, yn amodol ar fodloni mesurau eraill.

Pennod 4

**Ymateb i gamfanteisio'n rhywiol ar blant – rhoi'r plentyn yn y canol er mwyn diwallu anghenion gofal a chymorth**

**Crynodeb:**

- Mae camfanteisio'n rhywiol ar blant yn gallu cael effaith negyddol ac yn gwneud hynny ar ganlyniadau llesiant plant am flynyddoedd ar ôl dod yn oedolyn. Rhaid i'n hymatebion i blant sydd wedi'u cam-drin yn y ffordd hon ystyried eu hanghenion gofal a chymorth mewn ffordd sy'n debygol o sicrhau gwelliannau i'w llesiant yn y tymor hirach.

- Gall canolbwyntio ar leihau peryglon mewn perthynas â chamfanteisio'n rhywiol ar blant ein harwain at ganolbwyntio ar y ffyrdd y gallwn gael y plentyn i leihau ei "ymddygiad peryglus" a chyswllt â throseddwyr, yn hytrach nag ystyried pa anghenion gofal a chymorth sy'n gorwedd y tu ôl i'r ymddygiad a ddangosir. Ceir tystiolaeth nad yw gosod pwyslais ar ddilyn prosesau a rheoli peryglon o reidrwydd yn darparu ar gyfer anghenion gofal a chymorth y plentyn fel y gall ei lesiant yn y tymor hirach gael ei sicrhau.

- Nid oes un model neu ymyrraeth unigol y gellir dangos tystiolaeth mai ef/hi yw'r un ateb ymarferol i gefnogi plant sydd wedi cael eu cam-drin trwy gamfanteisio'n rhywiol ar blant tuag at adferiad. Cydnabyddir yn ogystal y gall hwn fod yn faes ymarfer heriol a chymhleth ac un lle nad oes gan ymarferwyr o bosib lawer o hyder ynghylch eu gallu i ymateb.

- Mae ymateb i anghenion gofal a chymorth plant sydd wedi'u camfanteisio'n rhywiol yn fwy tebygol o fod yn effeithiol lle mae'r dulliau ymarfer yn cynnwys dull sy'n seiliedig ar gryfderau ac wedi'i lywio gan drawma sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac sy'n seiliedig ar anghenion unigol y plentyn fel rhan o gynllun gofal a chymorth amlasiantaeth.

# Mae ei gael yn gywir wir yn bwysig

167. Mae tystiolaeth o waith ymchwil[94] sy'n ystyried (yn ôl-syllol) achosion gwasanaethau cymdeithasol a oedd wedi cael eu sgrinio ar gyfer camfanteisio'n rhywiol ar blant yn ystod plentyndod yn awgrymu bod effaith camfanteisio'n rhywiol ar blant yn parhau i dreiddio'n negyddol i fywydau plant wrth iddynt dyfu'n oedolion.

168. Roedd yr ymchwil yn cynnwys achosion lle nad oedd camfanteisio'n rhywiol ar blant (n = 151) ac achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant (n = 54). Ar yr adeg pan gafodd y gwaith ymchwil ei gyflawni, roedd yr unigolion yr oedd eu hachosion yn cael eu hystyried ag oedran cyfartalog o 26.9 oed (yn amrywio o 18 oed i 33 oed).

169. O'r sampl gyfan, roedd 54% o'r achosion wedi cynnwys y gwasanaethau cymdeithasol ymhellach ers i'r achos cychwynnol gau. Roedd y ffigur hwn yn cynyddu i 67% lle roedd testun yr achosion wedi cael profiad o gamfanteisio'n rhywiol ar blant. Roedd gan y grŵp a gafodd brofiad o gamfanteisio'n rhywiol ar blant ganlyniadau gwaeth o'i gymharu â grwpiau eraill. Roedd cyfran uwch wedi cael profiad o gam-drin corfforol/rhywiol parhaus mewn perthnasau agos, roedd ganddynt broblemau camddefnyddio sylweddau/alcohol neu broblemau iechyd meddwl, ac roedd cyfran is mewn cyflogaeth neu hyfforddiant neu mewn cartrefi sefydlog.

170. Awgryma hyn y gall llesiant gwael a bod yn agored i risg barhaus wrth ddod yn oedolyn fod yn etifeddiaeth hirhoedlog cael profiad o gamfanteisio'n rhywiol ar blant yn ystod plentyndod. Gwnaeth yr un gwaith ymchwil[95] ganfod bod 28% o'r grŵp heb brofiad o gamfanteisio'n rhywiol ar blant erioed wedi bod yn feichiog / wedi gwneud rhywun yn feichiog yn ystod eu cyfnod yn ymwneud â'r gwasanaethau cymdeithasol tra bo 57% o'r grŵp a gafodd brofiad o gamfanteisio'n rhywiol ar blant erioed wedi bod yn feichiog / wedi gwneud rhywun yn feichiog.

171. Roedd y grŵp a gafodd brofiad o gamfanteisio'n rhywiol ar blant yn fwy tebygol o gael profiad o feichiogrwydd. Mae'r gwaith ymchwil yn adrodd am 93 o achosion o feichiogrwydd hysbys ar gyfer y sampl gyfan (n = 205) gyda 51 o'r achosion hynny yn gysylltiedig â'r grŵp a gafodd brofiad o gamfanteisio'n rhywiol ar blant (n = 54) o fewn y sampl. Y canlyniad oedd 83 o achosion o feichiogrwydd hysbys, gyda 51 yn arwain at enedigaethau byw. Mae ychydig dros 15% o'r genedigaethau byw hyn yn gysylltiedig â phlant sydd wedi cael eu tynnu o ofal eu rhieni.

172. Mae'r canfyddiadau hyn yn cael eu hadlewyrchu mewn corff o dystiolaeth sy'n nodi'r cysylltiad rhwng cam-drin plant yn rhywiol a bod yn agored i niwed nes ymlaen a chanlyniadau llesiant gwael ar ôl dod yn oedolyn (Trickett ac eraill, 2011).[96]

173. Mae tystiolaeth glir fod cael ein hymateb yn gywir i blant y cam-fanteisir yn rhywiol arnynt yn hanfodol er mwyn atal niwed gydol oes a llesiant gwael ar gyfer yr unigolion yr effeithiwyd arnynt ac ar gyfer eu plant os ydynt yn dod yn rhieni. Nid yw dull rheoli risg nad yw'n ceisio rheoli risg yng nghyd-destun cynllun gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar y plentyn yn debygol o gefnogi diogelu cynaliadwy neu ganlyniadau llesiant mwy hirdymor.

**Symud y tu hwnt i reoli risg**

174. Mae camfanteisio'n rhywiol ar blant yn cynnwys cam-drin emosiynol, rhywiol a chorfforol yn aml. Mae llawer o'r plant sy'n cael eu cam-drin drwy gamfanteisio'n rhywiol arnynt hefyd wedi cael profiad o drawma a/neu gam-drin ynghynt yn ystod eu plentyndod. Ceir tystiolaeth i awgrymu bod y plant hyn yn fwy tebygol o gael profiad o berthnasau teuluol sydd wedi torri[97] a phrofiadau gwael o fod mewn gofal.[98] Yna maent yn agored i gam-drin a thrawma pellach drwy gamfanteisio rhywiol.

175. Bydd y profiadau hyn i gyd yn effeithio ar y ffyrdd y bydd plant y cam-fanteisiwyd yn rhywiol arnynt yn ymddwyn ac yn ymgysylltu ag eraill. Mae'r ffaith y gallai plant gyflwyno fel rhai nad ydynt yn cydweithredu, yn ymosodol ac yn amharod i ymgysylltu[99] ac fel rhai sy'n 'cymryd risg' yn gallu golygu eu bod yn cael eu canfod yn negyddol gan ymarferwyr.

> "mae fel pe bai person tu mewn a'r person tu fas. Ac, ym, mae sut rydych yn teimlo ar y tu mewn, rydych yn gwneud pethau, ac efallai na fydd pobl yn gwybod. Achos rydych chi'n edrych yn galed ac ati. Er enghraifft, roedd gen i enw am ymladd, felly dw i'n cael parch, ond yna 'dyw pobl ddim yn gwybod sut rydych chi go iawn, ar y tu mewn." [100]

> "Dw i wedi trio llawer o wasanaethau gwahanol; o'n i'n arfer bod yn berson eithaf dig, wedi fy nal yn y foment. Doeddwn i ddim yn barod i dderbyn y ffaith fod angen help arna i." [101]

176. Bydd plant sydd wedi cael eu camfanteisio'n rhywiol wedi cael profiad amryfal o gamdriniaeth a thorri ymddiriedaeth. Gallent fod wedi cael profiadau negyddol yn y gorffennol o weithwyr proffesiynol, gallent fod yn gofidio y bydd datgelu cam-drin yn arwain at ddial gan eu camdrinwyr, a gallent deimlo cywilydd, gorbryder a phryder ynglŷn â chael eu credu. Mae'r holl ffactorau hyn yn effeithio ar y cyfleoedd i blant gydnabod beth sy'n digwydd iddynt fel cam-drin a theimlo'n ddigon diogel i ddatgelu eu bod yn cael eu camfanteisio'n rhywiol neu y cawsant eu camfanteisio'n rhywiol yn y gorffennol.[102]

177. Mae angen i'r ffyrdd rydym yn ymateb i blant sydd mewn perygl o gael eu cam-drin trwy gamfanteisio'n rhywiol arnynt gael eu llywio gan ddealltwriaeth o gyd-destun llawn bywyd y plentyn. Mae cyrraedd safle o ymddiriedaeth gyda phlentyn sydd wedi cael ei siapio gan hanes o gael ei siomi neu ei niweidio gan oedolion yn gofyn am yr amser i ddatblygu perthynas â'r plentyn.

> "Dw i'n gwrthod unrhyw fath o ryngweithio gyda gwasanaethau o'r fath oherwydd dw i'n gwybod ryw ddydd y byddant yn gorfod gadael. Pam y byddwn i eisiau dweud wrth yr unigolyn hwn am fy holl broblemau er mwyn iddynt adael ryw ddydd? Os, dwi'n credu, wrth i chi adnabod person ifanc mae'n seiliedig ar gysondeb. Felly, os ydych chi'n gweld y plentyn unwaith bob pedwar mis yna beth yw'r pwynt o fod yn gysylltiedig â'r plentyn hwnnw os ydych chi ond yn ei weld unwaith bob pedwar mis? Dw i'n deall pe bai unwaith neu ddwy y mis oherwydd gall y plentyn wedyn feithrin ymlyniad a meithrin perthynas, ond os ydyw e unwaith bob tri neu bedwar mis beth yw'r pwynt cael yr unigolyn hwnnw ym mywyd y plentyn? Oherwydd mae jyst yn unigolyn ychwanegol y mae'n rhaid i'r person ifanc hwnnw ymddiried ynddo eto a gallai'r person ifanc fod â thua phedwar neu pum person gwahanol chi'n gwybod … ac mae'n anodd iawn." [103]

178. Mae Hallett (2016)[104] yn awgrymu bod diffyg cydnabyddiaeth parhaus o'r plentyn gan y rhai a ddylai ofalu a bod eisiau helpu plant yn gallu eu gadael yn agored i gamdrinwyr. Mae ymddwyn mewn ffyrdd a welir gan oedolion yn 'beryglus' yn aml yn cael ei ddeall gan blant fel ffordd o ymdopi a mynnu rhywfaint o reolaeth.

179. Gall yr 'ymddygiadau peryglus' hyn ddod yn ffocws ein hymatebion ymarfer gyda phwyslais ar geisio rheoli paramedrau ymddygiad plant, yn gorfforol ac yn emosiynol, er mwyn lleihau risg. Mae camfanteisio'n rhywiol ar blant yn achosi niwed sylweddol ac mae'n rhaid sbarduno gweithdrefnau diogelu i ddarparu ymateb cymesur sy'n atal niwed pellach neu yn y dyfodol i'r plentyn. Fodd bynnag, ceir tystiolaeth yn ymarferol nad yw gosod pwyslais ar ddilyn prosesau a rheoli peryglon o reidrwydd yn darparu ar gyfer anghenion gofal a chymorth y plentyn fel y gall ei ddiogelwch a'i lesiant yn y tymor hirach gael ei sicrhau.

180. Cynigiwyd bod ein hymateb i gam-drin drwy gamfanteisio'n rhywiol ar blant yn wahanol i'n hymateb i fathau eraill o gam-drin plant yn rhywiol.[105] Mae cam-drin plant

yn rhywiol wedi cael ei weld fel mater sy'n effeithio ar blant iau a gyflawnir yn bennaf yn y teulu (neu gan unigolion sydd â mynediad at y teulu), sy'n ysgogi ymateb amddiffyn plant lle nad oes unrhyw fai yn cael ei roi ar y plentyn rydym yn ceisio ei amddiffyn rhag niwed. Mae camfanteisio'n rhywiol ar blant yn cynnwys cam-drin plant yn rhywiol. Fodd bynnag, mae'r ffaith fod plant sy'n cael eu cam-drin drwy gamfanteisio'n rhywiol ar blant yn aml yn bobl ifanc ac y gwelir bod ganddynt fwy o reolaeth dros yr hyn sy'n digwydd iddynt yn gallu arwain at fai yn cael ei briodoli i'r plentyn. Gall canolbwyntio ar leihau peryglon mewn perthynas â chamfanteisio'n rhywiol ar blant ein harwain at ganolbwyntio ar y ffyrdd y gallwn gael y plentyn i leihau ei 'ymddygiad peryglus' a chyswllt â throseddwyr, yn hytrach na chanolbwyntio ar ba anghenion gofal a chymorth sy'n gorwedd y tu ôl i'r ymddygiad a ddangosir.

> "Byddant yn dweud wrthym i beidio ag ymgysylltu â'r bobl hyn [y cyflawnwyr] mwyach, ond dydyn nhw ddim yn holi pam y gallem fod wedi ymgysylltu â nhw yn y lle cyntaf." [106]

181. Gwnaeth plant a phobl ifanc a gymerodd ran mewn ymgynghoriad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru[107] siarad am ymarferwyr, gan eu beirniadu, eu beio neu eu 'brandio' nhw o dro i dro. Gwnaeth tystiolaeth o adolygiad yn Lloegr[108] hefyd ganfod bod yr iaith a ddefnyddir gan rai ymarferwyr yn cynnwys disgrifio plant fel 'anllad' ac fel rhai sy'n gwneud dewisiadau peryglus. Pe baem yn defnyddio'r iaith hon mewn sefyllfaoedd sy'n cynnwys goroeswyr ymosodiad rhywiol sy'n oedolion, byddai'n cael ei ystyried yn annerbyniol ac mae hefyd yn annerbyniol defnyddio iaith yn y ffordd hon ar gyfer plant sy'n cael eu cam-drin yn rhywiol.

182. Mae blaenlencyndod yn gyfnod yn natblygiad plentyn pan fyddant yn profi peryglon newydd wrth iddynt archwilio eu hannibyniaeth gynyddol. Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod y gallai plant gwahanol fod yn fwy neu'n llai gwydn ac yn barod i raddau gwahanol i reoli'r peryglon newydd hyn. Mae angen i ymarferwyr feddu ar ddealltwriaeth o flaenlencyndod fel cyfnod o ddatblygiad plant ac o'r heriau penodol a ddaw i rai plant wrth fynd drwy'r cam datblygu hwn.[109] Mae hyn yn cefnogi gwell dealltwriaeth o ymddygiad plentyn a'r ffyrdd y gallent dybio eu bod yn dangos rheolaeth drwy'r ymddygiad hwn. Ar yr un pryd, dylid osgoi arferion sy'n beio plant am roi eu hunain mewn perygl.

**Mae perthnasau yn bwysig**

183. Mae Hallett (2017)[110] yn adrodd bod canfyddiadau plant o'r hyn sy'n creu ymarferydd da neu wael yn canolbwyntio'n bennaf ar ddatblygu cydberthynas a bod plant yn ymateb yn fwy cadarnhaol i ymarferwyr sy'n mabwysiadu dull perthynol, tra bo plant yn llai tebygol o ymgysylltu'n llawn ag ymarferwyr nad ydynt yn canolbwyntio ar ddatblygu perthynas.

184. Mae'r Adolygiad o'r Argyfwng Gofal (2018)[111] hefyd yn awgrymu bod "perthnasau wrth wraidd y datblygiadau llwyddiannus o ran arferion" (2018:25). Mae'r adolygiad yn nodi pwysigrwydd 'cyfarfodydd llawn parch' gyda phlant a'u teuluoedd, gan ganolbwyntio ar 'gydweithio' yn hytrach na 'gwneud i'.

> "Mae diffyg cyfathrebu nid yn unig rhwng darparwyr gwasanaeth unigol ond rhwng y darparwyr gwasanaeth hynny a phobl ifanc. Gofynnwch iddynt beth

maen nhw wir eisiau, yn hytrach na dweud wrthym beth rydym ei eisiau a dweud ei fod er mwyn ein lles ein hunain."

“Ie, dylech chi ofyn i ni.”

"Dwi'n credu bod angen dealltwriaeth glir o anghenion y plentyn hefyd."

“Ie, yn bendant.”

"Felly dylech gael eich arwain gan y person ifanc, yn hytrach na ffitio un plentyn i'r mowld, dylem ffitio mowld i'r plentyn – ydych chi'n deall beth dw i'n ei olygu?" [112]

185. Mae'r safbwyntiau ynglŷn â chamfanteisio’n rhywiol ar blant fel y profwyd gan bobl ifanc a nodir yn y dyfyniadau uchod yn adlewyrchu'n gryf ganfyddiadau adroddiad cyntaf Adolygiad Munro o amddiffyn plant (2010).[113]

“Gallai ymddangos yn hunanamlwg fod plant a phobl ifanc yn ganolbwynt gwasanaethau amddiffyn plant ond mae llawer o'r beirniadaethau o arferion cyfredol yn awgrymu fel arall. Mewn system sy'n or-fiwrocrataidd ac yn canolbwyntio ar gyrraedd targedau sy'n lleihau gallu gweithwyr cymdeithasol i dreulio amser gyda phlant a phobl ifanc i ddatblygu cydberthnasau ystyrlon gyda nhw, mae perygl y byddant yn cael eu hamddifadu o'r gofal a'r parch maent yn eu haeddu."

186. Bydd arferion sy'n mabwysiadu dull perthynol yn cefnogi ymagwedd sy'n canolbwyntio ar y plentyn. Mae Adolygiad Munro (2011)[114] o'r system amddiffyn plant yn nodi bod system amddiffyn plant sy'n canolbwyntio ar y plentyn yn golygu y dylai pawb sydd ynghlwm ag amddiffyn plant ddilyn dull sy'n canolbwyntio ar y plentyn a chydnabod plant a phobl ifanc fel unigolion gyda hawliau, gan gynnwys eu hawl i gymryd rhan mewn penderfyniadau amdanynt yn unol â'u hoedran ac aeddfedrwydd.

187. Mae cyd-gynhyrchu yn egwyddor allweddol Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac mae'n cyfeirio at ffordd o weithio lle mae ymarferwyr a phobl yn cydweithio fel partneriaid cyfartal i gynllunio a chyflenwi gofal a chymorth. Mae'r dull hwn yn ymwneud â gweithio gyda phobl i ddod o hyd i'r datrysiadau priodol. Pan fo angen ymyriad, dylai bob amser fod yn gymesur ac yn amserol a chefnogi pobl sydd angen gofal a chymorth, a gofalwyr sydd angen cymorth i wireddu eu canlyniadau personol. Mae cydgyngyrchu yn galw am arferion sy'n mabwysiadu dull perthynol ac ymagwedd sy'n canolbwyntio ar y plentyn.

*“*Roedd un o'm gweithwyr cymorth bob amser yn mynd â fi am goffi a byddwn i'n cael siocled poeth a byddai'n cael coffi, ac roedd fel pe bai'n amgylchedd diogel i fi, rhywle lle roeddwn i'n teimlo o dan lai o straen. Byddem ni'n gweithio ar broblemau, a byddem ni'n siarad am fater, ac yna efallai pan fydden ni wedi gwneud hynny, bydden ni'n symud ymlaen at rywbeth arall nad oedd yn waith, a phethau fel 'na mewn gwirionedd. Roeddwn i'n hoffi'r ffordd roeddech chi'n gwybod nad oedd yn mynd yn rhy sownd mewn cors ac yn ofnadwy o ddifrifol.*”* [115]

"Roedd yn rhaid i mi gyfaddef wrth un unigolyn ac yna gorfod dweud wrth un arall, drosodd a throsodd. Dyw e ddim yn helpu." [116]

"Fe wnes i ddod ar draws un unigolyn a roddodd gyfle i fi siarad ac nid dim ond bod yn broffesiynol … Dw i'n gwybod, beth bynnag a fydd, mae gen i'r unigolyn hwnnw am byth … Mae'r unigolyn hwnnw yn gwneud i chi deimlo'n wahanol, pa bynnag mor anodd yw'r sefyllfa rydych chi'n gwybod bod rhywun yn eich cefnogi chi." [117]

"Fe wnes i ddarganfod pan wnes i gwrdd â P ei fod e'n siarad â fi ar lefel doeddwn i ddim yn siarad â bechgyn eraill arni. O'n i'n meddwl bod pawb naill ai ddim yn fy hoffi neu'n fy meirniadu am fod yn hoyw a'r math hynny o beth a doeddwn i ddim wir yn cael hynny oddi wrth P ac roedd e'n [greadigol] hefyd fel ydw i ac fe wnaeth e annog hynny rywsut a rhoi gweledigaeth i fi o'r dyfodol lle dwi'n gallu byw'r math o fywyd roeddwn i'n gobeithio amdano…"[118]

"Mae hi'n sgyrsiol ond mae'n cadw mewn cysylltiad, mae'n dda am wrando a wir eisiau i bobl wneud yn dda, ac mae'n hawdd mynd ati." [119]

188. Mae Comisiynydd Plant Cymru wedi llunio fframwaith egwyddorol ac ymarferol ar gyfer gweithio gyda phlant, wedi'i wreiddio yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn: 'Dull Hawliau Plant' (2017).[120] Bydd gwasanaethau sy'n mabwysiadu ymagwedd sy'n canolbwyntio ar hawliau plant yn gweithredu mewn modd sy'n cefnogi ymagwedd sy'n canolbwyntio ar y plentyn.

**Cynnwys plant yn y broses o gynllunio eu hanghenion gofal a chymorth**

189. Mae arferion diogelu yn cynnwys gweithwyr proffesiynol ac oedolion eraill ym mywyd plentyn yn gwneud penderfyniadau ynglŷn â sut sydd orau i amddiffyn y plentyn rhag niwed. Mae'n glir fod rhai amgylchiadau pan fydd rhannu gwybodaeth ynglŷn â'r penderfyniadau hyn gyda phlentyn neu oedolyn yn ei fywyd yn gallu ei roi mewn perygl pellach o niwed. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu na ddylid darparu unrhyw wybodaeth neu roi gwybodaeth brin ynglŷn â'r cynlluniau sy'n cael eu gwneud ar gyfer eu gofal a'u cymorth.

190. Yn 2018, gwnaeth Llywodraeth Cymru gomisiynu nifer o ymgynghoriadau ar raddfa fach gyda phlant a phobl ifanc a oedd wedi cael profiad o'r system amddiffyn plant ynglŷn â'u profiadau o dderbyn gofal a chymorth.

191. Gwnaeth plant a phobl ifanc adrodd bod gwybodaeth am y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud amdanynt yn aml yn peidio â chael ei rhannu gyda nhw; nid oeddent yn gwybod pryd oedd cyfarfodydd amdanynt yn cael eu cynnal neu beth oedd canlyniadau'r cyfarfodydd hyn ac nid oeddent yn gwybod pa wybodaeth ysgrifenedig a oedd yn cael ei chofnodi amdanynt.

192. Gwnaeth rhai plant a phobl ifanc hefyd siarad am yr ansicrwydd roeddent yn ei deimlo oherwydd nad oedd penderfyniadau amdanynt yn cael eu hesbonio iddynt neu ddim yn cael eu hesbonio'n dda. Nid oedd llawer yn cael cyfle i holi unrhyw un ynglŷn

â'r penderfyniadau a oedd yn cael eu gwneud neu holi cwestiynau i'w helpu i ddeall pam fod y penderfyniadau hyn yn cael eu gwneud.

**Sut mae plant a phobl ifanc yn teimlo pan fydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal amdanynt?**

193. Gwnaeth plant a phobl ifanc a gymerodd ran yn un o'r ymgynghoriadau[121] a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru nodi pedwar ffactor a oedd yn dylanwadu ar faint y dywedwyd wrth bobl ifanc ac a oeddent yn ymwybodol o'r cyfarfodydd a gynhaliwyd amdanynt: eu hoedran, eu menter eu hunain, agwedd gweithwyr proffesiynol unigol, a'r perygl o niwed. Dim ond pan ddaethant yn ymwybodol o'r cyfarfodydd hyn roedd rhai pobl ifanc yn cymryd rhan ynddynt, ond nid oedd pob un yn gwneud hynny.

194. Roedd profiadau pobl ifanc a gymerodd ran yn y cyfarfodydd yn gymysg, ond ar y cyfan roeddent yn negyddol. Roedd rhai yn teimlo eu bod yn cael pethau wedi eu hesbonio iddynt ac y gwrandawyd arnynt, ond nid oedd y rhan fwyaf. Ar y cyfan, nid oedd pobl ifanc yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda mewn cyfarfodydd, ac fel arfer ni ofynnwyd iddynt yr hyn yr oeddent am ei weld yn digwydd.

> “Ni ofynnwyd am fy marn dros 12 mlynedd. Dywedwyd wrthyf sut roedd pethau'n mynd i fod. Byddai wedi bod yn llawer gwell pe bawn i wedi cael dweud fy nweud. Ni ofynnwyd i mi yr unwaith am gyfarfodydd, er iddynt weithiau sôn am ganlyniad cyfarfod."[122]
>
> "Ni wrandawyd ar fy marn mewn gwirionedd. Roeddent yn siarad o'm cwmpas. Roeddwn i fel pry ar y wal."[123]

**Sut mae pobl ifanc yn teimlo pan fydd pethau'n cael eu hysgrifennu amdanynt?**

195. Roedd y rhan fwyaf o bobl ifanc yn teimlo nad oeddent wedi derbyn esboniad ynglŷn â’r hyn oedd yn cael ei ysgrifennu amdanynt, nac ynglŷn â pham ei fod yn angenrheidiol cadw'r cofnodion hyn. Nid oeddent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi pan fo pethau'n cael eu hysgrifennu amdanynt ac roedd rhai'n teimlo'n ymylol i drafodaethau a oedd yn ymwneud â hwy yn uniongyrchol. Roedd y rhan fwyaf o bobl ifanc yn teimlo na ofynnwyd iddynt beth roeddent am ei weld yn digwydd mewn modd ystyrlon.

196. Lle bynnag y bo'n bosibl, dylai'r cyfarfod strategaeth cychwynnol gynnwys ystyriaeth o bwy ym mywyd y plentyn sydd yn y sefyllfa orau i esbonio iddo am y penderfyniadau a wnaed yn y cyfarfod. Dylai trafodaeth ddilynol gyda'r plentyn geisio nodi pwy a fydd yn cyfathrebu ag ef ynglŷn â phenderfyniadau yn y dyfodol a phwy fydd yn sicrhau bod safbwyntiau'r plentyn yn cael eu ceisio, eu cofnodi a'u hystyried wrth gynllunio gofal a chymorth y plentyn. Gallai hyn gynnwys esbonio i blentyn pam na all rhywun yr hoffai rannu gwybodaeth ag ef weithredu yn y rôl hon os nad yw'n briodol, ond, lle bynnag y bo'n bosibl, dylai safbwyntiau'r plentyn ddylanwadu ar y penderfyniad ynglŷn â phwy fydd yn esbonio penderfyniadau i'r plentyn wrth i waith

cynllunio a gweithredu’n cael ei wneud mewn perthynas â’u hanghenion gofal a chymorth.

197. Dylai gwybodaeth gael ei rhannu gyda'r plentyn mewn modd sy'n addas ar gyfer ei oedran ac ystyried unrhyw anghenion prosesu gwybodaeth, cyfathrebu neu ddysgu ychwanegol sydd gan y plentyn. Mewn geiriau eraill, wrth esbonio i'r plentyn am y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud amdano, dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau bod yr wybodaeth yn cael ei rhannu mewn ffordd y mae’n debygol o'i deall. Dylid rhoi'r cyfle i blant holi cwestiynau hefyd.

> "Dylid rhoi esboniad syml fel bod plentyn yn gallu deall. Mae hawl gan y plentyn i wybod."[124]

198. Dylid cytuno yn y cyfarfod strategaeth cychwynnol ynglŷn ag a oes unrhyw wybodaeth nad yw'n ddiogel i'w rhannu gyda phlentyn neu oedolyn yn ei fywyd oherwydd y byddai'n ei roi mewn perygl o niwed pellach, a dylid gwneud cofnod o'r penderfyniad hwn.

199. Mae gan rai plant yr hawl i **Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol** a dylent gael eu hatgoffa o hyn. Pan fo plentyn yn destun gweithdrefnau amddiffyn plant neu'n dod yn blentyn sy'n derbyn gofal, dylai dderbyn cynnig gweithredol o eiriolaeth broffesiynol annibynnol. Dylai gwybodaeth gael ei rhannu gydag ef sy'n cynnwys esboniad am rôl eiriolaeth broffesiynol annibynnol, yr hyn y gall ei wneud a'r hyn na all ei wneud, sut mae'n gweithredu yn seiliedig ar ei ddymuniadau a'i deimladau, ei hannibyniaeth a sut mae'n gweithio ar gyfer y plentyn / person ifanc yn unig, a’i pholisi ar gyfrinachedd a niwed arwyddocaol – mae’n esbonio hawl statudol plant a phobl ifanc i gael eu cefnogi i fynegi eu barn, eu dymuniadau a'u teimladau yn ogystal â'u hawl i gyflwyno sylwadau neu i gwyno.

**Ymarfer sydd wedi’i lywio gan anghenion unigol y plentyn**

200. Nid oes un model neu ymyrraeth unigol y gellir dangos tystiolaeth mai ef/hi yw’r un ateb ymarferol i gefnogi plant sydd wedi cael eu cam-drin trwy gamfanteisio'n rhywiol ar blant tuag at adferiad. Cydnabyddir yn ogystal y gall hwn fod yn faes ymarfer heriol a chymhleth ac un lle nad oes gan ymarferwyr o bosib lawer o hyder ynghylch eu gallu i ymateb.

201. Fodd bynnag, mae rhai ffactorau sylfaenol ar draws y dulliau sy'n cael eu harddangos fel rhai effeithiol wrth weithio gyda phlant sydd wedi profi trawma neu yn ystod y trawma sy'n gysylltiedig â cham-drin trwy gamfanteisio'n rhywiol ar blant. Mae angen i'r rhain danategu'r arferion a gynllunnir o amgylch anghenion unigol pob plentyn. Er bod llawer o brofiadau o gam-drin drwy gamfanteisio'n rhywiol ar blant yn dilyn patrymau tebyg, mae angen ystyried rhywedd, profiadau o'r gorffennol, amgylchiadau cyfredol a gallu personol ar gyfer pob plentyn unigol wrth gynllunio gofal a chymorth i blant. Yn y ffordd hon, mae'r arferion yn cael eu llywio gan dystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio ac anghenion unigol pob plentyn.

202. Mae'r cyfleoedd i adeiladu gwydnwch ar gyfer plentyn sydd wedi'i gam-drin yn gysylltiedig ag argaeledd a hygyrchedd gwasanaethau sy’n berthnasol yn ddiwylliannol

ac yn y cyd-destun sy'n gallu hwyluso datblygiad cadarnhaol yng nghyd-destun trallod sylweddol.[125]

**Dull sydd wedi'i lywio gan drawma**

203. Pan fo ymarferwyr yn cydnabod bod plant wedi cael profiad o drawma ac mae ganddynt ddealltwriaeth o effaith trawma ar y ffordd y mae plant yn cyflwyno eu hunain, yn ymddwyn ac yn cyfathrebu, gall hyn helpu i lunio ymatebion effeithiol i'r plentyn.

204. Nid yw ymarfer sydd wedi'i lywio gan drawma[126] wedi'i gynllunio'n benodol i drin anawsterau sy'n gysylltiedig â thrawma. Yn hytrach, mae'n ceisio mynd i'r afael â'r rhwystrau y gall y rhai sy'n cael eu heffeithio gan drawma yn gallu profi wrth gael mynediad at y gofal, cymorth a thriniaeth y mae eu hangen arnynt ar gyfer llesiant da. Mae ymarfer sydd wedi'i lywio gan drawma yn ceisio sicrhau bod ymarferwyr:
- yn cydnabod bod trawma yn gyffredin;
- yn sylweddoli y gallai'r profiadau hyn gael amrediad o effeithiau sy'n berthnasol i'r gwasanaethau maent yn eu darparu i'r unigolyn hwn;
- yn ymateb yn ddiogel ac yn effeithiol, gan sicrhau bod y rhai sydd ei angen yn cael eu cyfeirio at ac yn derbyn yr ymyriadau angenrheidiol sy'n benodol i drawma ar gyfer adferiad.

205. Mae'n bwysig lleihau'r perygl o aildrawmateiddio[127] drwy sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu darparu yn unol ag egwyddorion allweddol:
- Dewis
- Cydweithio
- Ymddiriedaeth
- Grymuso
- Diogelwch

206. Mae angen i ymarferwyr gael eu hysbysu am yr isod:
- hanes bywyd plentyn (beth yw'r stori y tu ôl i'r ffordd mae'r plentyn yn ymddwyn);
- y ffordd y mae plentyn yn cyflwyno ei anghenion (ynglŷn â sut mae'n cyflwyno / ceisio diwallu ei anghenion, a allai fod ar ffurf negyddol);
- y ffyrdd mwyaf effeithiol o ymateb i'r plentyn hwnnw (wedi'u llywio gan waith asesu, safbwyntiau'r plentyn a'r rhai sydd â dealltwriaeth dda o'r plentyn).

Bydd hyn yn rhoi dealltwriaeth i ymarferwyr a fydd yn gallu cefnogi ymateb wedi'i lywio gan drawma i'r plentyn. Yn y modd hwn, mae dealltwriaeth o'r cyd-destun ar gyfer ymddygiad plentyn yn helpu ymarferwyr i ymateb mewn ffordd nad yw'n cymhlethu teimladau o fai a chywilydd a bod allan o reolaeth ar gyfer y plentyn.

207. Hyd yn oed lle na fyddai'n briodol i wasanaethau sy'n dod i gyswllt â phlentyn gael gwybodaeth fanwl am y plentyn, mae'n bwysig eu bod yn derbyn gwybodaeth am gyfathrebu â'r plentyn ac yn darparu gwasanaeth i'r plentyn mewn ffordd sy'n lleihau trawma. Er enghraifft, siaradodd un plentyn a gafodd brofiad o gamfanteisio'n rhywiol ar blant a oedd yn cymryd rhan mewn ymgynghoriad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru am deimlo'n ofnus ac yn agored i niwed wrth ymweld â'r deintydd:

> "Yn ddiamynedd ar adegau, dydyn nhw ddim yn deall gofod personol pan ydyn ni'n teimlo'n agored i niwed. Dylent bob amser esbonio beth maent ar fin ei wneud."[128]

**Ymateb sy'n canolbwyntio ar y plentyn yn seiliedig ar anghenion a hunaniaeth unigol**

208. Gallai ymatebion unigol i brofiadau trawmatig amrywio'n fawr. Fodd bynnag, mae gwaith ymchwil wedi canfod perthynas gref rhwng graddfa'r risg o brofi canlyniadau negyddol cymhleth a lluosog yn dilyn profiadau trawmatig a ffactorau megis yr oedran pan ddigwyddodd y profiad(au), natur y profiad(au) (gydag effeithiau negyddol yn arbennig o gysylltiedig â thrawma o natur ryngbersonol megis cam-drin plentyn ac esgeulustod), a difrifoldeb a hirfeithder y profiadau.[129]

209. Gallai plant sydd wedi'u heffeithio gan drawma weithredu ar lefel ddatblygu gynharach yn emosiynol ac yn gymdeithasol nag y byddai eu hoedran cronolegol yn ei awgrymu. Gallai plant sydd wedi profi trawma frwydro i ddatblygu'r sgiliau rheoliadol sydd eu hangen ar gyfer dysgu cadarnhaol a pherthnasau cymdeithasol. Gall deall hyn helpu i lywio ein hymateb i blant. Er enghraifft, mae ein hymateb i 'bwl o dymer drwg' gan blentyn tair yn debygol o fod yn wahanol iawn i'n hymateb i ymddygiad tebyg iawn a gaiff ei arddangos gan blentyn tair ar ddeg oed. Fodd bynnag, ar gyfer rhai plant tair ar ddeg oed, gallai eu gallu i fynegi eu hemosiynau mewn ffordd sy'n cael ei gweld fel y bo'n briodol i oedran gael ei gyfyngu heb ein cymorth.[130]

210. Canfu ymchwil fod plant sydd ag anableddau dysgu yn agored i gamfanteisio'n rhywiol ar blant yn sgil ffactorau sy'n cynnwys gorwarchodaeth, unigedd cymdeithasol a'r gymdeithas yn gwrthod eu cydnabod fel bodau rhywiol.[131] Gwnaeth yr un ymchwil ganfod bod llawer o'r plant gydag anableddau dysgu sy'n cael eu cefnogi ar hyn o bryd gan y gwasanaethau camfanteisio'n rhywiol ar blant a gynhwysir yn yr astudiaeth hon yn cyrraedd y trothwyon uchel ar gyfer gwasanaethau anableddau dysgu, ond roedd ganddynt anghenion heb eu diwallu yn gysylltiedig â'r nam arnynt.

211. Mae'n bosibl y bydd gan blant eraill weithrediad gwybyddol, cymdeithasol ac emosiynol sydd yn unol â'n disgwyliadau o blant o'u hoedran cronolegol. Efallai y bydd ganddynt wydnwch yn gysylltiedig â ffactorau amddiffynnol, a allai olygu eu bod yn prosesu'r trawma o gam-drin drwy gamfanteisio'n rhywiol ar blant mewn ffordd wahanol i blentyn sydd wedi cael profiad o drawma a/neu gam-drin yn gynharach yn ystod plentyndod.

212. Gallai asesiadau â thystiolaeth i lywio safbwynt ynglŷn â gweithrediad gwybyddol, cymdeithasol ac emosiynol plentyn fod yn berthnasol i rai plant i'w helpu i lywio'r dull ar gyfer diwallu eu hanghenion gofal a chymorth. Dylai'r ymyriadau y cytunir arnynt ar gyfer pob plentyn gael eu llywio gan ddealltwriaeth o p'un ai bod unrhyw faterion datblygiadol penodol y bydd yn gofyn i ymarferwyr ddeall anghenion cyfathrebu penodol neu a ddylai ymyriadau gael eu haddasu i blentyn er mwyn iddynt allu bod yn effeithiol. Gallai fod angen gwaith i feithrin perthynas â phlentyn cyn bod asesiadau manwl yn cael eu cynnal.[132]

213. Mae ymateb i anghenion unigol plentyn hefyd yn cynnwys ystyriaeth o **rywedd**. Canfu ymchwil a wnaed yng Nghymru a Lloegr,[133] a oedd yn ystyried bechgyn a chamfanteisio'n rhywiol ar blant ac yn cynnwys tystiolaeth gan ymarferwyr, yr isod:

- Mae tybiaethau yn cael eu gwneud pan fo'r term cam-drin yn cael ei grybwyll – mewn gwrywod mae'n cael ei ganfod fel cam-drin corfforol, mewn benywod mae'n cael ei ganfod yn gyffredinol fel cam-drin rhywiol.
- Mae'r term camfanteisio’n rhywiol ar blant yn ysgogi delwedd benodol – o ferch yn ei harddegau sy'n wyn ac yn derbyn gofal sy'n gwisgo'n 'bryfoclyd'.
- Mae tybiaeth o rywedd troseddwr – mae tybiaeth fod y troseddwyr bob amser yn wrywaidd – ac mae’n anodd iawn ystyried benywod fel camdrinwyr/camfanteiswyr.
- Mae stereoteip gwrywaidd o fod yn galed ac yn gryf – tra bo bod yn 'ddioddefwr' camfanteisio’n rhywiol ar blant yn cael ei weld fel y pegwn arall.
- Mae camfanteisio’n rhywiol ar blant yn anos i'w adnabod mewn gwrywod ifanc – gwnaeth ymarferwyr fynegi safbwyntiau fod teimlad fod angen 'tystiolaeth' ar gyfer gwrywod, tra bod modd ymddiried mewn 'greddf' mewn achosion yn ymwneud â benywod.
- Mae'n anos ymgysylltu â gwrywod na benywod – teimlwyd nad oedd gwrywod yn gyfarwydd ag ymgysylltu yn uniongyrchol neu mor rhydd â benywod ac maent yn fwy tebygol o chwarae gemau neu ganolbwyntio ar dasgau wrth ryngweithio. Roeddent yn teimlo bod dynion hefyd yn llai tebygol o ddangos eu hemosiynau.
- Mae diffyg hyder ynglŷn â 'mynd oddi ar y sgript' – roedd yr ymarferwyr yn poeni am bobl yn chwerthin arnynt am ystyried bechgyn fel dioddefwyr ymosodiad rhywiol, oherwydd bod bechgyn yn cael eu gweld yn fodau rhywiol ac yn gyflawnwyr ac fel pobl sydd eisiau rhyw.
- Pryderon ynglŷn ag ymddangos yn homoffobig – pryderon ynglŷn ag ymateb i rywioldeb, 'Beth os yw e'n archwilio yn unig? Beth pe bai hawl ganddo i archwilio?' Mae stereoteip ynglŷn â gwryw hoyw 'anllad'.

214. Mae'r rhagdybiaethau hyn yn cymhlethu'r sefyllfa ar gyfer bechgyn sy'n cael eu cam-drin, a allai fod yn brin o hyder y bydd pobl yn gwrando arnynt neu'n eu credu. Mae'n hanfodol fod gan yr ymarferwyr feddwl agored i'r realiti fod bechgyn hefyd yn cael eu cam-drin drwy gamfanteisio'n rhywiol ar blant a'u bod yn datblygu eu hyder i weithio gyda bechgyn.

215. Mae'r sefyllfaoedd a gyflwynir yn yr ymchwil hefyd yn adlewyrchu stereoteipiau ynglŷn â bechgyn a merched sy'n cael eu heffeithio gan gamfanteisio'n rhywiol ar blant nad ydynt yn ddefnyddiol. Mae termau megis 'pryfoclyd' ac 'anllad' yn gysylltiedig â beio'r dioddefwr yng nghyd-destun yr ymosodiad rhywiol ac ni ddylid byth eu defnyddio.

216. Mater a godir yn aml mewn perthynas â gweithio gyda bechgyn yw rhywioldeb. Mae **rhywioldeb a hunaniaeth o ran rhywedd** plentyn yn ystyriaeth bwysig wrth gynllunio cymorth i ddiwallu eu hanghenion gofal a chymorth. Mae hyn yn wir beth bynnag fo eu hunaniaeth o ran rhywedd.

217. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod ymarferwyr yn aml yn brin o hyder wrth gefnogi plant LDHT+ ac mae rhagdybiaethau ynglŷn â pherthnasau rhywiol mewn cymunedau LDHT+ a diffyg dealltwriaeth o faterion diwylliannol LHDT+ yn gallu gweithredu fel rhwystr sy'n atal cymorth effeithiol i blant.[134] Gallai plant syrthio drwy'r bwlch rhwng gwasanaethau LHDT+ sy'n brin o hyder o ran camfanteisio'n rhywiol ar blant a gwasanaethau amddiffyn plant sy'n brin o hyder o ran materion LHDT+.[135] Wrth ddiwallu anghenion gofal a chymorth plentyn, gallai fod yn angenrheidiol holi cyngor a, lle y bo'n bosibl ac yn briodol, cynnwys cymorth gwasanaethau LHDT+.

218. Gallai ethnigrwydd effeithio ar y graddau y gallai gwasanaethau gael eu hystyried yn barod i ddiwallu anghenion plant duon ac Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig. Er mwyn gweithio'n effeithiol gyda phlant o gymunedau duon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, mae'n hanfodol fod gan ymarferwyr ddealltwriaeth o unrhyw fregusrwydd ychwanegol a rhwystrau penodol rhag adrodd am gamfanteisio'n rhywiol ar blant sy'n wynebu plant. Yn ychwanegol, mae dulliau sy'n ceisio diogelu plant yn cael eu hadrodd fel rhai sydd fwyaf llwyddiannus pan fônt yn ceisio mynd i'r afael â realiti plant sydd yn aml â sawl math o fregusrwydd ac yn gweithio mewn cymunedau drwy'r rhai sydd wedi magu ymddiriedaeth. Mae'n bwysig deall wedyn yr anawsterau penodol sy'n cael eu creu, yn aml gan y croestoriad o anfantais gymdeithasol ac economaidd, ethnigrwydd, rhywedd a statws mewnfudo. [136]

219. Mae'n bwysig fod yn ymwybodol o amrywiaeth ddiwylliannol a holi cwestiynau i osgoi rhagdybiaethau neu ddefnyddio iaith feirniadol. Mae'n bwysig holi plentyn am ei hunaniaeth a dod i wybod am ei gredoau a'i werthoedd unigol.

220. Gallai plant o rai cymunedau hefyd gael eu cam-drin gan gyflawnwyr a fydd hefyd yn camfanteisio ar gysyniadau o gywilydd ac anrhydedd, pryderon o ran priodas dan orfod neu'r hyn a elwir yn drais 'ar sail anrhydedd', a disgwyliadau rhywedd normadol er mwyn cymryd camau pellach i fagu perthynas amhriodol â nhw, eu tawelu a'u bygwth.[137]

221. Wrth ddiwallu anghenion gofal a chymorth plentyn du ac Asiaidd neu o leiafrif ethnig, gallai fod yn angenrheidiol holi cyngor a, lle y bo'n bosibl ac yn briodol, cynnwys cymorth gwasanaethau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig perthnasol.[138]

222. Gallai plant sy'n cael eu masnachu o dramor ddod i'r DU drwy ffyrdd amrywiol a gallent gael eu masnachu i'r DU er mwyn eu cam-drin drwy gamfanteisio'n rhywiol ar blant. Mae rhai'n dod i'r DU yn ddirgel fel ceiswyr lloches ar eu pen eu hunain, neu fel myfyrwyr neu ymwelwyr. Daw plant hefyd i'r wlad gydag oedolion sy'n nodi'n anwir fod y plentyn yn ddibynnydd iddynt, neu maent yn cwrdd ag oedolyn yn y maes awyr sy'n hawlio ei fod yn berthynas. Amcangyfrifir bod 60% o'r dioddefwyr masnachu plant a amheuir sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol yn mynd ar goll.[139] 1. Bydd y gwasanaeth Eiriolwyr Masnachu Plant Annibynnol yn helpu i sicrhau bod gan y plentyn lais yn y cynlluniau a wneir iddo, yn darparu cymorth er mwyn cadw plant yn ddiogel, a gweithio tuag at atal ail-fasnachu.

223. Mae’r rhain yn bryderon canolog ac amlwg sydd angen mynd i'r afael â nhw wrth gynllunio ar gyfer anghenion gofal a chymorth plant sy'n cael eu masnachu i'r DU o dramor, gan gynnwys ar gyfer llawer brosesau sy'n gysylltiedig â statws Plant ar eu Pen eu Hunain yn Ceisio Lloches. Mae canllawiau gan Lywodraeth Cymru ar gael, sef Plant ar eu pen eu hunain yn ceisio lloches: canllawiau i weithwyr proffesiynol Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio bod yn dal i fod yn rhaid i ymarferwyr ystyried y mesurau a ddefnyddir i ymateb i anghenion sy'n gysylltiedig â cham-drin drwy gamfanteisio'n rhywiol ar blant fel rhan o'u gwaith cynllunio gyda'r plentyn ac ar gyfer y plentyn.

## Gweithio gyda theuluoedd

224. Yn draddodiadol, mae'r system amddiffyn plant wedi canolbwyntio ar y cam-drin a'r esgeulustod sy'n digwydd yn y teulu yn hytrach na'r cam-drin y tu allan i'r teulu sy'n gyffredin mewn achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant (er hynny, fel y trafodwyd ym Mhennod 1, gall aelodau o'r teulu fod yn gyflawnwyr camfanteisio’n rhywiol ar blant). Mae tystiolaeth y gall ffocws gwaith ar achosion o gamfanteisio’n rhywiol ar blant yn aml fod ar reoli peryglon yn gysylltiedig â'r plentyn ac nid yw'n ymgysylltu'n ddigonol â theuluoedd fel ffynhonnell gymorth bosibl er mwyn diogelu a diwallu anghenion y plentyn. Mae hyn yn cynnwys yr angen i weithio gyda theuluoedd maeth.

225. Mae rhieni a gofalwyr plant sydd wedi cael eu heffeithio gan gamfanteisio'n rhywiol ar blant wedi adrodd am 'feio teulu'r dioddefwr', teimlo nad ydynt yn cael eu cefnogi o ran rheoli'r effaith emosiynol o rianta plentyn a gafodd ei gam-drin drwy gamfanteisio'n rhywiol ar blant, ac o deimlo na wrandewir arnynt neu nad ydynt yn cael eu hystyried o ddifrif.[140]

226. Ceir tystiolaeth o waith ymchwil sy'n awgrymu bod mabwysiadu dull cymorth teulu ehangach wrth ymateb i blant sydd mewn perygl neu wedi cael eu cam-drin trwy gamfanteisio’n rhywiol arnynt yn fuddiol gan fod y teuluoedd eu hunain yn gallu gweithredu fel 'asiantau newid' a chynorthwyo diogelu. Gall datblygu ymddiriedaeth rhwng ymarferwyr a theuluoedd a chefnogi rhieni, gofalwyr a phlant i gefnogi ei gilydd ac ailadeiladu perthnasau ymhlith ei gilydd gynorthwyo gwydnwch.[141]

227. Fodd bynnag, ceir tystiolaeth hefyd o waith ymchwil yng Nghymru,[142] pan fo pryderon am y perygl o niwed gan rieni i ddwy ran o dair y plant a gafodd eu nodi fel rhai mewn perygl o gamfanteisio'n rhywiol ar blant yn yr astudiaeth.

228. Mae hyn yn ail-gadarnhau’r angen i ystyried amgylchiadau unigol pob plentyn wrth wneud penderfyniad am rôl y rhieni a gofalwyr wrth gynllunio i ddiogelu a diwallu anghenion gofal a chymorth y plentyn.

## Dull sy'n seiliedig ar gryfderau

229. Bydd plant sydd wedi cael profiad o gam-drin drwy gamfanteisio'n rhywiol ar blant wedi bod mewn sefyllfaoedd pan fyddant wedi teimlo heb bŵer; gallent fod wedi addasu ffyrdd o gadw rheolaeth a allai ymddangos yn negyddol i'r oedolion yn eu

bywydau. Mae hunan-barch isel yn cael ei adrodd yn gyson fel nodwedd plant sydd wedi cael profiad o gamfanteisio'n rhywiol ar blant mewn gwaith ymchwil.

230. Mae datblygu a gweithredu cynllun gofal a chymorth ar gyfer y plentyn yn rhoi cyfle i'r plentyn deimlo y gwrandewir arno, ei fod yn bwysig, a bod ei safbwyntiau o bwys. Gall hyn wella'r tebygolrwydd y bydd yn cymryd rhan yn y cymorth a help i fagu hunanhyder; mae'n rhoi anghenion y plentyn yng nghanol y camau gweithredu a gymerir gan ymarferwyr. Mae tystiolaeth fod y defnydd o ddull sy'n seiliedig ar gryfderau yn gallu gwella rhwydweithiau cymdeithasol a gwella llesiant.[143]

231. Mae chwe safon dull sy'n seiliedig ar gryfderau wedi cael eu nodi.[144] Gall tynnu oddi ar y safonau hyn gynorthwyo ymarferwyr i fynd ati i weithio gyda phlant sydd wedi cael eu cam-drin drwy gamfanteisio'n rhywiol ar blant.

- Mae'r plentyn yn gosod ei nodau ei hunan;
- Mae asesu yn cynnwys y cryfderau/adnoddau sydd gan y plentyn;
- Mae'r ymarferydd yn galluogi cysylltiadau cynorthwyol ag adnoddau yn yr amgylchedd (pobl, cymuned a gwasanaethau);
- Nodi mewn modd pwrpasol gryfderau'r plentyn a chryfderau amgylcheddol a sut y gallant helpu plant i gyrraedd nodau;
- Ceir ffocws ar obaith a phosibilrwydd;
- Cydnabyddir bod y plentyn yn arbenigwr ar ei fywyd ei hun a bod yr ymarferydd yn gweithio gyda'r plentyn i alluogi dewis.

232. Nid yw hyn yn tanbrisio'r heriau o weithio gyda phlant, a fydd yn aml ag anghenion cymhleth, neu'r angen i wneud penderfyniadau efallai na fydd y plentyn yn cytuno â nhw er mwyn ei ddiogelu. Fodd bynnag, gall dull sy'n seiliedig ar gryfderau helpu plentyn i feithrin ymddiriedaeth yn yr oedolion sy'n chwarae rhan yn ei gymorth a'i ofal ac i gredu y gall pethau newid yn gadarnhaol iddo. Bydd hyn yn cynorthwyo plentyn i feddwl ei fod yn werth buddsoddi yn y cynigion gofal a chymorth a ddarperir iddo. Gwnaeth pobl ifanc (rhwng 15 a 26 oed) a oedd wedi cael profiad o gamfanteisio'n rhywiol ar blant a/neu fynd ar goll neu gael eu masnachu gymryd rhan mewn ymgynghoriad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru a siaradodd rhai am yr ymdeimlad o hunanwerth a gwerth roeddent yn eu canfod drwy berthnasau cadarnhaol ag ymarferwyr:

> "Roedd gen i hunanhyder isel iawn a byddai ef bob amser yn dweud wrthyf i ddefnyddio fy noniau a'm talentau ac fe wnaf. Dywedodd ef [ymarferydd yn y gwasanaeth cyffuriau ac alcohol] wrthyf ei fod yn falch ohonof am bwy wyf i a dyna roeddwn i eisiau ei glywed. Byddaf bob amser yn ddiolchgar iddo am hynny."
>
> "Os ydych yn gaeth mewn sefyllfa, maent [ymarferwyr mewn gwasanaeth trydydd sector arbenigol] yn gwneud i chi sylweddoli y gallwch ddod drwyddi. Maen nhw dweud dw i'n falch ohonot, maen nhw'n dweud am bethau dwi'n gallu eu gwneud."
>
> "Roedd yn rhoi gobaith i mi y byddai rhywbeth yn newid, i gario ymlaen a chadw i fynd."[145]

**Perthynas ddibynadwy ag ymarferydd arweiniol/allweddol**

233. Mae tystiolaeth fod angen, wrth gefnogi plant sydd mewn perygl o gamfanteisio'n rhywiol ar blant neu sy'n dioddef ohono, cynnwys cyfle i'r plentyn ddatblygu perthynas y gellir ymddiried ynddi gydag un ymarferydd cyson fel rhan o ddull cyfannol.[146]

234. Mae tystiolaeth gan blant eu hunain sydd wedi cael profiad o gamfanteisio'n rhywiol ar blant yng Nghymru[147] yn awgrymu bod perthynas gyson, gadarnhaol gydag un ymarferydd pan fo'r plentyn yn teimlo y gwrandewir arno a'i fod o bwys yn gallu rhoi'r cyfle i blentyn deimlo'n ddigon diogel i dderbyn cymorth.

235. Mae creu ymdeimlad o ddiogelwch ar gyfer plant sy'n drwgdybio oedolion ac yn gwrthsefyll eu cymorth yn gallu bod yn anodd iawn. Mae plant sydd wedi eu trawmateiddio yn gallu cyflwyno ymddygiad a allai ennyn ymatebion negyddol gan oedolion yn eu bywydau, ac mae creu ymdeimlad o gynhesrwydd ac argaeledd rhagfynegadwy i blant deimlo'n ddiogel yn gam hanfodol cyn iddynt deimlo y gallant dderbyn cymorth ar gyfer adferiad.[148]

236. Dylai unigolyn sy'n gallu chwarae rôl ymarferydd allweddol/arweiniol gael ei nodi fel rhan o’r cynllunio gofal a chymorth i blentyn. Efallai nad y gweithiwr cymdeithasol fydd yr unigolyn hwn, ond fe fydd yn cadw’r cyfrifoldeb cyffredinol dros yr achos a thros ddatblygu ac adolygu’r cynllun gofal a chymorth gyda'r plentyn.

237. Gallai'r Gwasanaeth Ieuenctid fod mewn sefyllfa dda i chwarae rôl ymarferydd allweddol/arweiniol wrth gyflenwi cynllun gofal a chymorth aml-asiantaeth. Gwnaeth plant a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru hefyd nodi ymarferwyr trydydd sector sy'n darparu gwasanaethau arbenigol ac ymarferwyr o wasanaethau cyffuriau ac alcohol fel rhai nad ydynt yn barnu ac yn gwneud i blant deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

238. Gofynnwyd i'r plant a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad[149] beth roeddent yn ei ddisgwyl oddi wrth ymarferydd da:

- Maen nhw'n gyfeillgar ac yn barod i helpu – "Maen nhw'n fy helpu drwy fywyd fel yr wyf ei angen."
- Maen nhw'n eich trin â pharch – "Dylech fy nhrin fel bod dynol; nid label ydw i."
- Maen nhw' deall – “Mae un unigolyn yn bod mor gefnogol, mor dda, yn mynd ymhell pan fydd ganddo’r amser a'r ymdrech i chi."
- Maen nhw'n gwrando – “Gwrandewch arnaf ac ymateb."
- Yn gadarnhaol a ddim yn barnu – "Cydnabod gwelliannau a pheidio â chanolbwyntio ar y negyddol."

239. Roedd cysondeb gofal yn thema gref i blant a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad.

> "Ges i 15 gweithiwr cymdeithasol yn ystod cyfnod o chwe mis."
>
> "Un peth maen nhw'n ei wneud yn anghywir yw gollwng achosion – ddylen nhw ddim ein gollwng ni."

“Nid yw gweithwyr cymdeithasol yn buddsoddi ynddoch – mae ganddynt filiwn o achosion ond sdim amser ganddynt i wirio sut ydych chi."

240. Canfu tystiolaeth o werthusiad o wasanaeth yn ymdrin ag achosion o gamfanteisio’n rhywiol ar blant, a oedd yn gweithio gyda phlant a'u teuluoedd, fod empathi, sgiliau gwrando, a pheidio â chael eich caethiwo'n ormodol gan weithdrefnau yn sgiliau ymarferydd allweddol a nodwyd gan deuluoedd.[150]

241. Mae ymchwil ansoddol[151] gydag ymarferwyr wedi nodi nifer o ffactorau fel rhai pwysig ar gyfer meithrin perthynas y gellir ymddiried ynddi gyda phlant sy'n agored i gamfanteisio'n rhywiol ar blant a cham-drin plant yn rhywiol:

- Mae amser yn hanfodol – bydd yn cymryd mwy o amser i fagu cydberthynas ac ennyn ymddiriedaeth plentyn sydd ag anghenion mwy cymhleth. Mae'n bosibl y bydd angen mwy o gyswllt dwys ar ddechrau'r berthynas er mwyn dangos ymrwymiad i'r plentyn. Pan fydd perthynas y gellir ymddiried ynddi wedi cael ei sefydlu, gallai fod yn bosibl lleihau lefel y cyswllt, os nad oes modd newid hyd y berthynas.

- Byddwch ar gael – mae'n bwysig fod ymarferydd yn gallu bod ar gael pan fo plentyn angen siarad ag ef, heb greu dibyniaeth. Mae hyn yn dangos ymrwymiad yr ymarferydd a'i ddiddordeb yn y plentyn. O dro i dro, efallai gallai hyn olygu trefnu ffonio nôl ond dylid gwneud pob ymdrech i gysylltu â'r plentyn cyn gynted ag y bo'n rhesymol ac yn bosibl.

- Cysondeb a pharhad gofal – dyma a nodwyd fel un o'r agweddau pwysicaf ar feithrin perthynas y gellir ymddiried ynddi, yn arbennig i blant sydd wedi cael eu siomi yn eu perthnasau gydag oedolion yn y gorffennol.

- Dibynadwy – mae'n bwysig fod yr ymarferydd yn cyflawni'r hyn y mae'n dweud y bydd yn ei wneud a pheidio â siomi'r plentyn. Mae hyn yn golygu bod yn agored ac yn onest am gyfyngiadau proffesiynol y berthynas a pheidio â gwneud addewidion.

- Ymddygiadau ymarferwyr – nad yw’n feirniadol, sydd ag empathi a sgiliau cyfathrebu da, yn gwrando'n astud, ac yn dangos diddordeb gwirioneddol yn y plentyn.

**Ymateb amlasiantaeth**

242. Mae cysylltu plant yn rhagweithiol â gwasanaethau fel rhan o gynllun gofal a chymorth sy'n ystyried eu hanghenion cyfannol yn bwysig o ran cynnal diogelu.[152] Mae camau gweithredu tymor byr sy'n canolbwyntio ar beryglon cyfredol a dybryd yn bwysig ond, os ydynt yn cael eu cyflawni mewn ffordd ynysig, ni fyddant yn sicrhau diogelwch a llesiant hirdymor y plant sydd mewn perygl ac yn cael eu cam-drin drwy gamfanteisio'n rhywiol ar blant.

243. Mae Smeaton (2013)[153] yn awgrymu bod gwaith amlasiantaeth effeithiol nid yn unig yn fuddiol ond yn rhan gynhenid o ddarparu ymatebion effeithiol. Mae'r Cod

Ymarfer ar Ran 4[154] o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i gynllun gofal a chymorth sicrhau bod holl rolau a chyfrifoldebau asiantaethau gwahanol sy'n cyfrannu at lesiant unigolyn yn cael eu cynnwys er mwyn hybu cydweithio a dull integredig ar gyfer cynllunio a chyflenwi gofal a chymorth.

**Gwasanaethau cymdeithasol**

244. Mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn cadw cyfrifoldeb dros ddatblygu, monitro ac adolygu'r gwaith o weithredu'r cynllun gofal a chymorth. Dylai hyn gynnwys sicrhau bod y plentyn yn cael ei gynnwys yn briodol mewn penderfyniadau ynglŷn â'r cynllun gofal a chymorth ac yn cael unrhyw benderfyniadau a wneir i'w gadw'n ddiogel ond efallai na fydd yn cytuno â hwy wedi'u hesbonio iddo.

245. Dylai cytundebau cytunedig fod ar waith i asiantaethau a gwasanaethau sy'n gweithio gyda'r plentyn i fynegi pryderon a nodi a oes angen adolygiad o'r cynllun gofal a chymorth ac i'r plentyn a'i deulu neu ddarparwr lleoliad i allu mynegi pryderon newydd neu awgrymu newidiadau i'r cynllun gofal a chymorth.

246. Hefyd, dylid gwneud penderfyniad ynghylch a yw'r gweithiwr cymdeithasol yn y sefyllfa orau i gyflawni rôl yr ymarferydd allweddol/arweiniol. Dylai cynllunio gofal a chymorth hefyd wneud trefniadau i leihau cymorth pan fo'r plentyn wedi cyrraedd pwynt o sefydlogrwydd o ran ei adferiad a chynllunio amserol ar gyfer pan fydd plentyn yn cyrraedd 18 oed lle y bo'n berthnasol.

**Addysg**

247. Gwnaeth tystiolaeth a ystyriwyd ym Mhennod 2 nodi'r ffyrdd y gallai ymgysylltiad a chyfleoedd addysgol ar gyfer cyswllt a pherthnasau cymdeithasol cadarnhaol fod yn ffactorau amddiffynnol yn erbyn cam-drin drwy gamfanteisio'n rhywiol ar blant, a cheir tystiolaeth o hyn mewn mannau eraill.[155] Gall bod yn gysylltiedig ag addysg weithredu mewn ffordd ataliol gan ei fod yn galluogi ymdeimlad o berthyn a sefydlogrwydd ac mae'n cryfhau hunanhyder.[156] Gallai ysgolion, colegau a lleoliadau addysg eraill fod ag angen cymorth a chyngor o ran sut sydd orau i gynnwys a chynnal ymgysylltiad neu ailymgysylltiad plentyn ag addysg. Canfu ymgynghoriad ar raddfa fach a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru fod plant y camfanteisiwyd arnynt yn rhywiol yn adnabod ysgol fel lle cadarnhaol a chefnogol.[157]

248. Dylai fod cytundeb ar un ymarferydd yn y lleoliad addysg sy'n gallu bod y prif bwynt cyswllt i'r plentyn os bydd angen iddo siarad â rhywun neu mae'n ei weld yn anodd ymdopi yn ystod y diwrnod yn y lleoliad addysg. Bydd angen i ba bynnag ymarferydd a gaiff ei nodi weithio'n agos gyda'r uwch-unigolyn dynodedig ac aelodau allweddol eraill o staff megis nyrs yr ysgol. Dylai'r uwch-unigolyn dynodedig fod yn bwynt cyswllt ac yn ffynhonnell gwybodaeth, cyngor ac arbenigedd yn yr ysgol neu'r coleg, a bod yn gallu adnabod a nodi arwyddion o gam-drin ac esgeulustod a gwybod pryd ei fod yn briodol gwneud atgyfeiriad i'r asiantaethau ymchwilio perthnasol.

249. Dylai ysgolion, colegau a lleoliadau addysg eraill hefyd fod yn wyliadwrus o ran materion penodol megis plentyn yn mynd ar goll yn ystod y diwrnod ysgol ac achosion o absenoldeb anawdurdodedig. Dylai fod cytundeb yn y lleoliad ynglŷn â sut bydd

digwyddiadau o'r fath yn cael eu hadrodd a'u cofnodi. Bydd angen trafodaeth am sut i sicrhau diogelwch y plentyn.

250. Yn gyffredinol, dylid ystyried a allai plentyn fod yn agored i niwed drwy gam-drin gan gyfoedion yn y lleoliad addysg. Mae adnoddau[158] ar gael ar Hwb a dylai lleoliadau gyfeirio hefyd at ganllawiau Llywodraeth Cymru Cadw dysgwyr yn ddiogel.

**Iechyd**

251. Mae camfanteisio’n rhywiol ar blant yn gysylltiedig ag effeithiau negyddol ar iechyd a llesiant corfforol a meddygol. Gall iechyd a llesiant gwael hefyd fod yn ffactorau wrth wneud plant yn agored i gam-drin neu ail-achosion o gam-drin drwy gamfanteisio'n rhywiol ar blant. Gall plant sydd mewn perygl neu'n cael eu cam-drin drwy gamfanteisio'n rhywiol ar blant ddod i gysylltiad ag amrediad o wasanaethau sy'n gysylltiedig ag iechyd, gan gynnwys meddygon teulu, y gwasanaeth nyrsio ysgol, gwasanaethau nyrsio plant sy'n derbyn gofal, gwasanaethau iechyd rhywiol, gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, gwasanaethau ymosodiadau rhywiol, gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed, a gwasanaethau brys.

252. Gall gwasanaethau iechyd megis gwasanaethau iechyd rhywiol, gwasanaethau damweiniau ac achosion brys a gwasanaethau camddefnyddio sylweddau barhau i fod yn bwynt cyswllt parhaus â gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer plant sydd wedi cael eu heffeithio gan gamfanteisio’n rhywiol yn ystod cyfnodau pan fo'r cyswllt â gwasanaethau eraill yn gyfyngedig. Mae'n bwysig fod gan y gwasanaethau hyn brosesau ar waith i gofnodi ac adrodd am bryderon diogelu yn ymwneud â phlant.

253. Dylai cynllunio gofal a chymorth gynnwys cytundeb ynglŷn â sut y gall gwasanaethau iechyd gael eu cynrychioli orau mewn cyfarfodydd strategaeth. Bydd gwaith i fynd i'r afael ag iechyd a llesiant corfforol a meddyliol plant, gan gynnwys unrhyw anghenion camddefnyddio sylweddau, yn elfen bwysig o feithrin llesiant y plentyn a lleihau'r cam-drin sy'n parhau neu'n ailddigwydd drwy gamfanteisio'n rhywiol ar blant.

254. Gallai plant fod wedi cael profiadau cymysg o gysylltu â gwasanaethau iechyd. Mae gwrando ac esbonio i'r plentyn ymlaen llaw beth fydd ynghlwm wrth unrhyw gynllun triniaeth a nodi yn ystod pob pwynt cyswllt neu apwyntiad beth i'w ddisgwyl yn ystyriaethau pwysig fel rhan o ddull sydd wedi'i lywio gan drawma. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan fo'n ofynnol archwilio'r plentyn yn gorfforol. Mae'n bwysig peidio ag ail-greu sefyllfaoedd yn anfwriadol pan fo'r plentyn yn gallu teimlo wedi'i ddadrymuso ac mewn sefyllfa pan fo'r rheolaeth sydd ganddo yn brin, a allai fod yn drawmatig iddo.[159]

255. Dylai'r gwaith cynllunio gofal a chymorth ystyried sut y gallai gwybodaeth gymesur gael ei rhannu gyda gwasanaethau iechyd i sicrhau bod eu cyswllt â'r plentyn yn cael ei lywio gan ddealltwriaeth o'i brofiad o drawma a cham-drin (heb yr angen i rannu gwybodaeth fanwl o anghenraid). Yn amodol ar ba bwynt y mae'r plentyn o ran cam-drin sy'n parhau neu adferiad, bydd hefyd yn bwysig eirioli ar ran y plentyn pan fydd yn methu â mynychu apwyntiadau iechyd a chynorthwyo'r plentyn i fynychu apwyntiadau fel rhan o driniaeth barhaus.

256. Dylai ymarferwyr iechyd hefyd fod yn gyfarwydd â chanllawiau ac adnoddau sydd ar gael drwy’r Tîm Diogelu Cenedlaethol (GIG Cymru): Diogelu Plant.

### Yr heddlu

257. Mae'r heddlu yn debygol o gael cyswllt â llawer o blant sy'n cael eu cam-drin drwy gamfanteisio'n rhywiol arnynt, o ganlyniad i episodau o fynd ar goll a/neu fasnachu plant ac, mewn rhai achosion, oherwydd ymddygiad troseddol. Mae Ffurflen Gwybodaeth am Blentyn wedi'i chynnwys o fewn 'Canllawiau Ymarfer Cymru Gyfan: Diogelu plant sydd ar goll o'u cartref neu o wasanaeth gofal', a gyhoeddir gyda Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Bwriad y Ffurflen Gwybodaeth am Blentyn yw cofnodi gwybodaeth hanfodol a fydd yn cefnogi'r heddlu wrth ymateb pan fo plentyn yn mynd ar goll. Dylai'r broses cynllunio gofal a chymorth gynnwys adolygiad o p'un a oes Ffurflen Gwybodaeth am Blentyn eisoes wedi'i chwblhau mewn perthynas â'r plentyn ac, os oes un wedi'i chwblhau, a oes angen ei diweddaru. Dylai fod cytundeb hefyd ynglŷn â phwy ddylai esbonio i'r plentyn fod Ffurflen Gwybodaeth am Blentyn yn cael ei chwblhau, pam ei bod yn cael ei chwblhau, ac o dan ba amgylchiadau y bydd yn cael ei rhannu.

258. Dylai'r cynllun gofal a chymorth ar gyfer y plentyn gynnwys cytundeb ynglŷn â sut y dylai'r plentyn gael ei gludo i'w gartref teuluol neu leoliad pe bai’n mynd ar goll ac yn cael ei ganfod gan yr heddlu. Cydnabyddir y gallai fod amgylchiadau a digwyddiadau pan na fydd modd dilyn y cytundeb hwn.

### Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid

259. Os yw'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn ymwneud â phlentyn, dylai gael ei gynnwys yn y trafodaethau a'r cyfarfodydd ynglŷn â chynllunio gofal a chymorth ar gyfer y plentyn lle y bo’n bosibl. Ar gyfer plant, ac ar gyfer bechgyn yn arbennig, gallai fod hanes o ymwneud â'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid cyn i'r camfanteisio’n rhywiol ar blant gael ei adnabod. Gallai ymarferydd yn y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid fod wedi datblygu perthynas gadarnhaol â'r plentyn y gellid ei harchwilio fel rôl ymarferydd allweddol/arweiniol posibl fel rhan o'r ymateb amlasiantaeth. Nid yw hyn yn golygu bod y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn cymryd cyfrifoldeb dros reoli'r achos.

### Y Gwasanaeth Ieuenctid

260. Gallai'r Gwasanaeth Ieuenctid hefyd fod mewn sefyllfa dda i ddarparu pwynt cyswllt cyson a hyblyg â'r plentyn a dylid rhoi ystyriaeth i ymarferydd o’r Gwasanaeth Ieuenctid o bosib ar gyfer y rôl ymarferydd allweddol/arweiniol fel rhan o'r ymateb amlasiantaeth i anghenion gofal a chymorth y plentyn. Bydd y Gwasanaeth Ieuenctid hefyd yn gallu cefnogi'r plentyn i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol cadarnhaol a magu perthnasau â chymheiriaid i feithrin hunanhyder a gwella llesiant a gwydnwch.

### Y trydydd sector

261. Mae nifer o wasanaethau sector plant arbenigol ar gyfer plant sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol, gan gynnwys y rhai sydd wedi cael eu cam-drin drwy gamfanteisio'n rhywiol ar blant. Ceir hefyd gwasanaethau trydydd sector megis trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer plant sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol ac y camfanteisiwyd yn rhywiol arnynt. Ceir gwasanaethau camddefnyddio sylweddau hefyd a ddarperir gan y trydydd sector sy'n cynnig gwasanaethau penodol i blant a phobl ifanc. Yn fwy cyffredinol, mae gwasanaethau trydydd sector sy'n darparu cynigion gweithgareddau ac ymgysylltu ar gyfer plant a phobl ifanc. Dylai cynllun gofal a chymorth y plentyn ystyried y cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu â gwasanaethau trydydd sector lle y bo'n briodol. Mae plant wedi nodi'r trydydd sector fel un sy'n cynnig yr amser, hyblygrwydd a chysondeb y maent yn eu gwerthfawrogi mewn gwasanaethau ac maent wedi siarad am berthnasau y gellir ymddiried ynddynt gydag ymarferwyr sy'n gweithio mewn gwasanaethau yn y trydydd sector. Gallai ymarferwyr trydydd sector fod mewn sefyllfa dda i ddarparu'r rôl ymarferydd arweiniol/allweddol fel rhan o'r ymateb amlasiantaeth.

**Cartref**

262. Bydd rhai plant yn byw gartref gyda'u rhieni neu aelodau eraill o'r teulu. Bydd rhai plant yn byw gyda rhieni maeth neu mewn cartref plant neu leoliad preswyl arall a bydd lleiafrif bach yn byw mewn cartref plant diogel.

263. Ar yr amod na fydd rhannu gwybodaeth yn rhoi plentyn mewn perygl o niwed pellach, dylai rhieni ac aelodau o'r teulu gael eu cynnwys yn y gwaith o gynllunio ar gyfer anghenion gofal a chymorth y plentyn. Dylai'r disgwyliadau a roddir ar rieni ac aelodau o'r teulu o ganlyniad i'r cynllun gael eu hesbonio'n glir iddynt – er enghraifft, dylai fod cytundeb ynglŷn â pha gamau gweithredu y dylai rhiant, aelod o'r teulu, gofalwr maeth neu ofalwr preswyl eu cymryd pe bai plentyn yn mynd ar goll a dylid gwneud ymdrechion i sicrhau bod y trefniadau hyn yn cael eu deall.

264. Dylai unrhyw bryderon neu wybodaeth newydd sydd gan riant, aelod o'r teulu, gofalwr maeth neu ofalwr preswyl ynglŷn â phlentyn gael eu rhannu a dylai fod cytundeb ynglŷn â sut y gallant gysylltu i rannu gwybodaeth y mae angen gweithredu arni cyn dyddiad adolygu nesaf y cynllun gofal a chymorth. Efallai y bydd gan yr oedolion hynny sydd â chyfrifoldeb dros ofal y plentyn o ddydd i ddydd ddealltwriaeth o'r plentyn sy'n gallu llywio'r cynllun gofal a chymorth mewn modd cadarnhaol.

265. Dylai'r cynllun gofal a chymorth hefyd gynnwys cytundeb ynglŷn ag unrhyw gymorth ychwanegol y dylid ei ddarparu i rieni, aelodau o'r teulu, gofalwyr maeth neu ofalwyr preswyl i'w cynorthwyo i ymateb i anghenion gofal a chymorth y plentyn. Gallai hyn gynnwys hyfforddiant.

**Ymateb i anghenion gofal a chymorth plant sydd wedi'u camfanteisio'n rhywiol**

Er nad oes un model gwasanaeth unigol y gellir darparu tystiolaeth ar ei gyfer i gefnogi plant sydd wedi cael eu cam-drin trwy gamfanteisio'n rhywiol ar blant, ceir tystiolaeth fod nifer o ffactorau yn bwysig o ran llywio'r ffordd y mae ymarferwyr a gwasanaethau yn ymateb i anghenion gofal a chymorth plant sydd wedi'u heffeithio.

| Wedi'i lywio gan drawma | Yn canolbwyntio ar y plentyn ac yn seiliedig ar anghenion a hunaniaeth unigol | Yn seiliedig ar gryfder | Perthynas ddibynadwy ag ymarferydd arweiniol/allweddol | Ymateb amlasiantaeth |
|---|---|---|---|---|
| Dewis<br><br>Cydweithio<br><br>Ymddiriedaeth<br><br>Grymuso<br><br>Diogelwch | Rhywedd<br><br>Ethnigrwydd<br><br>Rhywioldeb<br><br>Datblygiad plant<br><br>Anabledd<br><br>Amgylchiadau'r teulu | Mae'r plentyn yn gosod ei nodau ei hunan.<br><br>Mae asesu yn cynnwys y cryfderau/adnoddau sydd gan y plentyn.<br><br>Mae'r ymarferydd yn galluogi cysylltiadau cynorthwyol ag adnoddau yn yr amgylchedd (pobl, cymuned a gwasanaethau).<br><br>Nodi mewn modd pwrpasol gryfderau'r plentyn a chryfderau amgylcheddol (gan gynnwys y teulu) a sut y gallant helpu plant i gyrraedd nodau.<br><br>Ceir ffocws ar obaith a phosibilrwydd.<br><br>Cydnabyddir bod y plentyn yn arbenigwr ar ei fywyd ei hun a bod yr ymarferydd yn gweithio gyda'r plentyn i alluogi dewis. | Ymarferydd:<br><br>- sydd â'r amser a'r gallu i adeiladu perthynas â'r plentyn.<br><br>- sydd ar gael, sy'n gyson ac yn hygyrch i'r plentyn.<br><br>- nad yw'n feirniadol, sydd ag empathi a sgiliau cyfathrebu da, ac sy'n dangos diddordeb gwirioneddol yn y plentyn.<br><br>- sy'n cyfathrebu â'r plentyn ac yn esbonio penderfyniadau ynghylch ei ofal a chymorth iddo.<br><br>- sy'n cyflawni ar yr hyn y mae'n ei ddweud ac sy'n agored ac yn onest ynglŷn â chyfyngiadau proffesiynol y berthynas. | Cysylltu plant â gwasanaethau ac adnoddau teuluol/gofalwyr fel rhan o gynllun gofal a chymorth sy'n ystyried eu hanghenion cyfannol. |

Pennod 5

## Ymateb i gamfanteisio'n rhywiol ar blant – amharu ar droseddwyr a'u herlyn a rhoi cymorth i'r plant sydd wedi dioddef

**Crynodeb:**

- Mae nodi, amharu ar ac erlyn troseddwyr yn rhan allweddol o'r gwaith i ddiogelu plant a phobl ifanc rhag camfanteisio'n rhywiol ar blant. Tra nad yw plismona wedi'i ddatganoli, mae'r pedwar heddlu yng Nghymru a Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn bartneriaid diogelu statudol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac maent yn gweithio mewn partneriaeth i ddiogelu plant yng Nghymru ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol.

- Dylid gweld amharu ar ymddygiadau troseddwyr fel rhan bwysig o waith lleol i fynd i'r afael â chamfanteisio'n rhywiol ar blant. Tra dylai fod ymchwiliad rhagweithiol parhaus bob amser sy'n anelu at erlyniadau llwyddiannus, gall cynllun amharu sy'n targedu troseddwyr o dan amheuaeth fod yn fuddiol iawn.

- Ceir nifer o droseddau sy'n gallu cynorthwyo'r heddlu i amharu ar droseddwyr yn ogystal ag amrediad o droseddau sy'n perthyn i gam-drin plant trwy gamfanteisio'n rhywiol ar blant y gellir erlyn troseddwyr o danynt.

- Mae gan blant yr hawl i gymorth a bydd angen hwn arnynt trwy gydol ymchwiliadau troseddol i gam-drin plant yn rhywiol a hynny cyn, yn ystod ac ar ôl treial yn y llys. Dylai fod cytundeb yng nghynllun gofal a chymorth y plentyn o ran pwy fydd yn cyfathrebu'r hyn sy'n digwydd yn ystod pob cam o'r broses, gan gynnwys pwy yw'r unigolyn gorau i siarad â phlentyn pan wneir penderfyniad na fydd yr ymchwiliad yn arwain at erlyniad a pha gefnogaeth fydd yn cael ei darparu yn ystod pob cam pan geir ymchwiliad.

### Plismona a chamfanteisio'n rhywiol ar blant

266. Mae nodi, amharu ar ac erlyn troseddwyr yn rhan allweddol o'r gwaith i ddiogelu plant rhag camfanteisio'n rhywiol ar blant. Tra nad yw plismona wedi'i ddatganoli, mae'r pedwar heddlu yng Nghymru a Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn bartneriaid diogelu statudol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac maent yn gweithio mewn partneriaeth i ddiogelu plant yng Nghymru ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol.

267. Gwnaeth Llywodraeth y DU gyhoeddi ei Strategaeth Troseddau Difrifol a Threfnedig yn 2018. Mae'r Swyddfa Gartref yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a'r pedwar Comisiynydd Heddlu a Throseddu i gyflawni uchelgeisiau'r strategaeth. Mae gan y strategaeth gysylltiadau â strategaethau eraill gan Lywodraeth y DU, gan gynnwys y Strategaeth Caethwasiaeth Fodern 2014. Mae ganddi gysylltiadau hefyd â gwaith Llywodraeth y DU ar Strategaeth Trais Difrifol 2018, yn arbennig ar gyfer bygythiadau megis camfanteisio'n droseddol ar blant drwy linellau cyffuriau.

268. Nod trosfwaol Strategaeth Troseddau Difrifol a Threfnedig 2018 yw gwarchod dinasyddion drwy beidio â gadael unrhyw le diogel i droseddwyr difrifol a threfnedig. Ond ar gyfer y rhai sydd yn anffodus yn dod yn ddioddefwyr neu dystion, mae'r strategaeth yn cefnogi system a fydd yn adnabod yn gyflymach y rhai a gafodd eu niweidio a'u cefnogi hwy i safon gyson uchel. Mae'r strategaeth yn nodi tri maes allweddol o'r niwed mwyaf: camfanteisio a cham-drin plant yn rhywiol, caethwasiaeth fodern a masnachu pobl, a thwyll.

269. Mae'r Swyddfa Gartref wedi blaenoriaethu cam-drin plant yn rhywiol fel bygythiad cenedlaethol yn y Gofyniad Plismona Strategol. Mae'n rhaid i heddluoedd fwyafu eu sgiliau arbenigol a'u harbenigedd i atal a datrys achosion o gam-drin plant yn rhywiol.

270. Mae swyddogion yr heddlu yn debygol o ddod i gysylltiad â phlant y camfanteisiwyd yn rhywiol arnynt o ganlyniad iddynt yn mynd ar goll ac yn cymryd rhan mewn ymddygiadau troseddol megis camddefnyddio sylweddau, gweithgarwch troseddol, cysylltu â gangiau, ymddygiad gwrthgymdeithasol neu gyflwyno plant eraill i gyflawnwyr camfanteisio'n rhywiol ar blant.[160] Gall cymryd amser i holi cwestiynau mwy treiddiol fynd o dan y drosedd/sefyllfa uniongyrchol, gan ddatgelu o bosibl fod y plentyn hefyd yn ddioddefwr.[161]

**Gweithio mewn partneriaeth amlasiantaeth**

271. Tra bo'r heddlu a'r asiantaethau cyfiawnder troseddol yn arwain ar yr agwedd hon o'r gwaith, mae cymorth partneriaid eraill – er enghraifft, wrth gofnodi gwybodaeth a chasglu a chadw tystiolaeth – hefyd yn hanfodol. Gallai adnabod cam-drin drwy ddatgelu neu dystiolaeth arall yn aml gael ei wneud gan yr asiantaethau partner sydd eisoes mewn cysylltiad â'r plentyn.

272. Mae dulliau amlasiantaeth yn galluogi sefydliadau i gyfrannu at eu rôl benodedig, gan hefyd ddatblygu camau gweithredu cyffredin i amddiffyn pobl ifanc ac ymchwilio'n rhagweithiol i gyflawnwyr posibl.

273. Ledled Cymru, mae trefniadau rhanbarthol a lleol ar waith, sydd fel arfer yn cael eu harwain gan yr heddlu neu'r gwasanaethau cymdeithasol, sy'n dod ag asiantaethau ynghyd mewn cyfarfodydd partneriaeth rheolaidd i drafod camfanteisio'n rhywiol ar blant a materion diogelu cysylltiedig (megis plant yn mynd ar goll, masnachu plant a chamfanteisio'n droseddol ar blant) gyda sawl nod:

- Cydlynu asiantaethau partner i gefnogi ymatebion effeithiol i gamfanteisio'n rhywiol ar blant a materion diogelu cysylltiedig;
- Rhannu a chofnodi gwybodaeth am achosion unigol a chysylltiedig;
- Cefnogi dysgu amlasiantaeth wrth ymateb i batrymau camfanteisio'n rhywiol ar blant yn lleol ac yn rhanbarthol a materion diogelu cysylltiedig ac ymatebion statudol;
- Cofnodi, cydlynu ac adolygu ymatebion i gamfanteisio'n rhywiol ar blant a materion diogelu cysylltiedig;
- Adnabod cyflawnwyr, cysylltiadau, lleoliadau a phatrymau troseddu.

274. Mae'r trefniadau hyn yn bwysig ar gyfer llywio penderfyniadau a wnaed fel rhan o'r broses ddiogelu. Gall gwaith amlasiantaeth hefyd hwyluso rhannu gwybodaeth i lywio'r gwaith o amharu ac erlyn.[162] Gallai’r wybodaeth gynnwys y canlynol: enwau – gan gynnwys ffugenwau, cyfeiriadau, 'mannau problemus', rhifau ffôn symudol, rhifau cofrestru ceir, a gwybodaeth am y rôl a gaiff ei chwarae gan fusnesau lleol a chysylltiadau rhwng troseddwyr o dan amheuaeth a phlant a chysylltiadau rhwng plant gwahanol mewn perygl. Gall y wybodaeth hon helpu i lywio datblygiad 'proffiliau problemau' rhanbarthol a gaiff eu llunio gan ddadansoddwyr yr heddlu.

275. Mae Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI) yn offeryn sy'n helpu asiantaethau i rannu gwybodaeth bersonol yn effeithiol ac yn gyfreithlon. Mae'r dull cyson a gaiff ei hyrwyddo gan Gytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru, a'r arferion da a rennir drwy'r wefan, yn helpu sefydliadau i fodloni eu cyfrifoldebau diogelu data wrth iddynt symud i fodelau gwasanaethau cydweithredol mewn tirlun deddfwriaethol newidiol. Mae gan bob asiantaeth ei safonau sefydliadol, codau proffesiynol a moeseg a diwylliant ei hun yn ymwneud â gwybodaeth. Mae Fframwaith Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru yn darparu dull ymarferol o rannu gwybodaeth, ac mae'n darparu safonau a thempledi cyffredin ar gyfer datblygu protocolau rhannu gwybodaeth a chytundebau datgelu data. Ei nod cyffredinol yw helpu darparwyr gwasanaethau cyhoeddus i ddarparu gwasanaethau effeithiol wrth gydymffurfio â'u rhwymedigaethau cyfreithlon, sef y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018.

**Amharu ar ymddygiadau troseddwyr**

276. Dylid gweld amharu ar ymddygiadau troseddwyr fel rhan bwysig o waith lleol i fynd i'r afael â chamfanteisio’n rhywiol ar blant. Tra dylai fod bob tro ymchwiliad rhagweithiol parhaus sy'n anelu at erlyniadau llwyddiannus, gall cynllun amharu sy'n targedu troseddwyr o dan amheuaeth fod yn fuddiol iawn. Gallai cynllun amharu gynnwys nifer o weithgareddau, yn amrywio o arsylwi gweithgareddau unigolyn yn unig, i'r defnydd o amrediad o orchmynion sifil (gweler yr adran ‘Troseddau’ isod). Mae’r Swyddfa Gartref wedi cyhoeddi Child Exploitation Disruption Toolkit (2019).

**Cefnogi dioddefwyr sy'n blant sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol**

277. Mae tystiolaeth o'r Ymchwiliad Annibynnol ar Gam-drin Plant yn Rhywiol[163] ac oddi wrth waith ymchwil[164] yn nodi'r rhesymau cymhleth pam fod datgelu cam-drin plant yn rhywiol gan blant yn aml yn gallu cael ei oedi a'i dynnu nôl.

278. Gwnaeth Arolwg Troseddu Cenedlaethol Cymru a Lloegr 2015 i 2016 gynnwys model o gwestiynau am y tro cyntaf a oedd yn gofyn i oedolion a oeddent wedi cael eu cam-drin pan oeddent yn blant.[165] Holwyd i oroeswyr a nododd eu bod wedi dioddef ymosodiadau rhywiol pan oeddent yn blant drwy dreisiad neu dreiddiad (gan gynnwys ymgeisiau) a wnaethant ddweud wrth unrhyw un am yr hyn a oedd yn digwydd iddynt ar adeg y cam-drin. Ni wnaeth ychydig o dan dri chwarter (74%) o'r goroeswyr ddweud wrth unrhyw un am y cam-drin ar yr adeg yr oedd y cam-drin yn digwydd. Fodd bynnag, ar adeg y cyfweliad, roedd y rhai hynny a oedd yn 45 oed neu'n iau yn fwy tebygol o lawer na'r rhai hynny rhwng 45 a 59 oed o fod wedi dweud wrth rywun ar yr

adeg y digwyddodd y cam-drin. Mae hyn yn dangos i raddau fod cyfraddau datgelu wedi cynyddu dros amser. Dim ond un o bob deg (10%) o holl oroeswyr ymosodiadau rhywiol pan oeddent yn blant drwy dreisiad neu dreiddiad (gan gynnwys ymgeisiau) a ddywedodd wrth rywun swyddogol am y cam-drin ar y pryd, a gwnaeth 7% o'r rhain adrodd y cam-drin i'r heddlu.

279. Pan fydd plant yn derbyn cymorth oherwydd perygl o gamfanteisio'n rhywiol ar blant efallai y byddant yn teimlo'n ddigon diogel i ddatgelu digwyddiadau o gam-drin rhywiol i oedolyn y maent yn ymddiried ynddo. Dylai ymarferwyr ymgyfarwyddo â gwybodaeth am ba brosesau y bydd yn cael eu dilyn ar ôl datgeliad o'r fath fel y gallant ateb unrhyw gwestiynau a ddaw ar unwaith gan y plentyn.

280. Dylai fod cytundeb yng nghynllun gofal a chymorth y plentyn o ran pwy fydd yn cyfathrebu'r wybodaeth i'r plentyn ynglŷn â beth fydd yn digwydd ar bob cam o unrhyw ymchwiliad troseddol sy'n gysylltiedig â datgeliad neu dystiolaeth arall. Dylai hyn gynnwys cytundeb ynglŷn â sut bydd y plentyn yn cael ei gefnogi drwy'r broses ymchwilio ac yn ystod unrhyw broses erlyn gysylltiedig. Hefyd, dylid ystyried pa gymorth y gallai'r plentyn fod ei angen pe na bai'r achos yn symud ymlaen at erlyniad troseddol neu pan nad yw'r erlyniad yn dod i ben gyda dedfryd euog ar gyfer y troseddwyr honedig.

**Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARC)**

281. Pan fo plentyn yn datgelu digwyddiad(au) o gam-drin plant yn rhywiol neu pan fo tystiolaeth i awgrymu ei fod wedi cael ei gam-drin yn rhywiol, dylai gael ei gyfeirio at Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARC). Mae Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol yn gyfleuster pwrpasol sy'n darparu gofal ar unwaith a gofal parhaus i gleientiaid, gan gynnwys cymorth meddygol, ymarferol ac emosiynol, o fewn cyd-destun trefniant partneriaeth rhwng yr heddlu, y sector iechyd a'r trydydd sector.

282. Bydd archwiliad pediatrig fforensig[166] yn ofynnol yn yr amgylchiadau canlynol:

- pryd bynnag y bo plentyn wedi gwneud cyhuddiad o gam-drin rhywiol
- mae cam-drin rhywiol wedi cael ei weld
- mae asiantaeth atgyfeirio yn amau'n gryf fod cam-drin rhywiol wedi digwydd

283. Mae Canolfan Arbenigol Cam-drin Plant yn Rhywiol wedi cynhyrchu adnodd i ymarferwyr a ffilm fer i gefnogi ymarferwyr sy'n ymgysylltu â phlant cyn atgyfeiriad posibl ar gyfer archwiliad meddygol i gael yr wybodaeth a'r hyder i ddarparu gwybodaeth a chyngor i blant a rhieni a gofalwyr nad ydynt yn cam-drin. Mae'r Adnodd Archwiliadau Meddygol yn nodi rôl a diben yr archwiliadau meddygol ar gyfer achosion o gam-drin plant yn rhywiol.

284. Mae Sefydliad Iechyd y Byd wedi nodi datganiadau arferion da ar ddarparu cymorth meddygol ac emosiynol ar gyfer plant sy'n ddioddefwyr ymosodiad rhywiol:[167]

- Dylai darparwyr gofal iechyd ddarparu cymorth rheng flaen, sy'n sensitif i rywedd ac yn canolbwyntio ar y plentyn neu'r glasoed, mewn ymateb i ddatgelu cam-drin rhywiol.

- Yn unol â'r egwyddor "dim niweidio", pan fo'r hanes meddygol yn cael ei gasglu ac, os oes angen, mae cyfweliad fforensig yn cael ei gynnal, dylai darparwyr gofal iechyd geisio lleihau trawma a thrallod ychwanegol i blant a'r glasoed sy'n datgelu cam-drin rhywiol.

- Wrth gynnal archwiliadau corfforol a, lle y bo angen, ymchwiliadau fforensig, dylai darparwyr gofal iechyd geisio lleihau niwed, trawma, ofn a gofid ychwanegol a pharchu ymreolaeth a dymuniadau plant neu'r glasoed.

